



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg

**Adroddiad ar y Bil Anghenion
Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys
Addysg (Cymru)**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gwaith celf a gynhyrchwyd gan ddisgyblion Ysgol y Gogarth, Llandudno. Mae'r gwaith celf yn dangos diwrnod yn Llandudno, a chafodd ei greu yn 2016.

Diolch i ddisgyblion Ysgol y Gogarth Llandudno

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg

**Adroddiad ar y Bil Anghenion
Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys
Addysg (Cymru)**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Torfaen



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Darren Millar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Cynnws

Argymhellion	5
01. Cyflwyniad.....	11
02. Y cefndir	13
03. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	16
04. Diffinio ADY.....	21
05. Amserlenni ar gyfer asesu a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol	25
06. Cyfrifoldeb am Gynlluniau Datblygu Unigol	27
07. Templed ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol	35
08. Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.....	39
09. Y blynyddoedd cynnar.....	43
10. Ôl-16.....	47
11. Cydweithredu a chynnwys y sector iechyd	54
12. Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth.....	63
13. Hawliau plant.....	69
14. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	74
15. Y Tribiwnlys.....	78
16. Goblygiadau ariannol a goblygiadau ar gyfer adnoddau	83
17. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	90
18. Anghenion Meddygol mewn Ysgolion	93
Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	102
Atodiad B: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	105
Atodiad C: Amcanion Cyffredinol a Nodau Craidd y Bil	107

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod y Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Tudalen 18

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor, ac i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd, am weithredu'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. Tudalen 18

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn egluro:

a. nad oes angen i blentyn fod ag anhawster sylweddol fwy ym mhob maes o'u dysgu er mwyn dod o fewn adran 2 (2) (a) o'r Bil.

b. yng nghyd-destun plant o dan oedran ysgol gorfodol, bod y cyfeiriad at 'ddysgu' yn adran 2 (2) (a) o'r Bil yn cynnwys mathau mwy anffurfiol o ddysgu, megis dysgu drwy chwarae a rhyngweithio cymdeithasol.

.....Tudalen 24

Argymhelliad 4. Dylid diwygio'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol ar wyneb y Bil i gynnig eglurder y bydd gan rywun angen ychwanegol os bydd ganddo gyflwr meddygol sy'n golygu bod ganddo anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o bobl o'r un oed neu fod yr angen meddygol yn anabledd sy'n atal neu'n rhwystro'r disgybl rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i bobl eraill o'r un oed, a bod yr anhawster neu'r anabledd dysgu hwnnw'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.Tudalen 24

Argymhelliad 5. Dylid diwygio adran 4(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol bennu amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi CDU.Tudalen 26

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gryfhau'r Cod er mwyn cynnig mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol. Yn benodol, dylai fod mwy o eglurder ynghylch o dan ba amgylchiadau y bydd awdurdod lleol yn hytrach na'r corff llywodraethu yn gyfrifol am CDU.Tudalen 34

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ystyried ymhellach y diffyg darpariaeth yn y Bil i awdurdodau lleol gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach.Tudalen 34

- Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog egluro yn ystod dadl Cyfnod 1 sut ac o dan ba amgylchiadau y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 34 o'r Bil a / neu bwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2002.Tudalen 34**
- Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio amodau arian grant i sicrhau bod sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros CDU lle ystyrir bod hynny'n briodol.Tudalen 34**
- Argymhelliad 10. O fewn deuddeng mis i gyflwyno'r system newydd yn llawn, dylai'r Gweinidog adolygu lefel y CDU sy'n gyfrifoldeb, neu sy'n dod yn gyfrifoldeb, i awdurdod lleol, gan gynnwys yr effaith ar adnoddau'r awdurdod lleol, er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o ran pwy sy'n gyfrifol am CDU.Tudalen 34**
- Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ystyried a oes angen i'r Cod gynnwys cyfeiriad mwy penodol at gyfraniad seicolegwyr addysg ac a ddylid cryfhau'r Bil neu'r Cod i roi dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i geisio cyngor seicolegydd addysg cyn cyfeirio achos at yr awdurdod lleol.Tudalen 34**
- Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ddatblygu templed Cymru gyfan ar gyfer CDU ar fformat safonol ond gan ganiatáu ar gyfer cynnwys personol.. Tudalen 38**
- Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cynnwys anghenion teithio dysgwyr mewn CDU..... Tudalen 38**
- Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ailystyried ei ymagwedd tuag at gymwysterau ar gyfer Cydlynwyr ADY, a'i gwneud hi'n glir wrth symud ymlaen, y dylai cymhwyster Meistr fod yn ddymunol yn hytrach nag yn ofynnol.. Tudalen 41**
- Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ystyried a fyddai'n ddymunol ystyried bod cymwysterau a setiau sgiliau eraill, ar lefel debyg i gymhwyster Meistr, yn briodol ar gyfer Cydlynwyr ADY..... Tudalen 42**
- Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog adolygu effaith rôl newydd y Cydlynwyr ADY ar adnoddau a chapasiti o fewn 12 mis ar ôl cyflwyno'r system newydd yn ei chyfanrwydd. Tudalen 42**

- Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog roi esboniad pellach ynglŷn â pham mae ysgolion arbennig wedi'u tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y byddai'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynnydd ADY ar eu cyfer yn berthnasol iddynt.
..... Tudalen 42
- Argymhelliad 18.** Dylai'r Cod nodi'n glir bod angen i asesiadau ar gyfer ADY mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol ystyried sut mae plant bach yn datblygu, gan gynnwys dysgu drwy chwarae, a'u hanghenion o ran cael eu hysgogi a'u hannog a rhyngweithio'n gymdeithasol..... Tudalen 46
- Argymhelliad 19.** Dylid diwygio Adran 57 o'r Bil i osod dyletswydd ar gyrff iechyd i dynnu sylw awdurdodau lleol at unrhyw bryder sydd ganddynt bod gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol Anghenion Dysgu Ychwanegol. Tudalen 46
- Argymhelliad 20.** Dylai'r Bil neu'r Cod ddarparu llwybr clir i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar atgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch y ffaith y gall fod gan blentyn dan eu gofal ADY. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried unrhyw atgyfeiriadau mewn ffordd debyg i'r ffordd y byddant yn ymateb i atgyfeiriadau gan gyrff iechyd. Tudalen 46
- Argymhelliad 21.** Dylid ymestyn y fframwaith ADY yn y Bil i gynnwys dysgu seiliedig ar waith. Tudalen 53
- Argymhelliad 22.** Dylai'r Gweinidog weithio i sicrhau na fydd y diffyg cydweithredu sydd yn y system AAA bresennol yn cael ei drosglwyddo i'r system ADY newydd. Tudalen 62
- Argymhelliad 23.** Dylai'r Gweinidog egluro natur rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn well, yn enwedig sut y bydd yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys rôl y cydlynnydd iechyd newydd.
..... Tudalen 62
- Argymhelliad 24.** Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am rôl 'cydlynnydd iechyd' yn y Cod ADY, ac yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2 gan gynnwys costau manwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
.....Tudalen 62

- Argymhelliad 25.** Dylai'r Gweinidog roi amlinelliad manwl o gynlluniau peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig, yn ogystal ag amserlen fwy manwl. Dylai unrhyw ganfyddiadau yn sgil y cynlluniau peilot fod ar gael cyn Cyfnod 3 y Bil.Tudalen 62
- Argymhelliad 26.** Dylid diwygio adran 62 o'r Bil i sicrhau bod yn rhaid i awdurdod lleol hefyd ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i rieni nad ydynt yn gyfeillion achos.Tudalen 67
- Argymhelliad 27.** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil a/neu'r Cod yn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor annibynnol ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni ar y cyfle cyntaf.Tudalen 67
- Argymhelliad 28.** Dylai'r Gweinidog sicrhau nad yw'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn golygu ei bod yn bosibl codi tâl ar y rheini sy'n gofyn am y gwasanaeth. Tudalen 67
- Argymhelliad 29.** Dylid cryfhau'r Cod er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth a chyngor yn ystod cyfnodau allweddol addysg dysgwr, yn ystod cyfnodau allweddol y broses ADY, a thrwy gyfnodau pontio allweddol a bod y gwasanaeth hwnnw ar gael yn rhwydd ac yn hwylus i blant, i bobl ifanc ac i rieni. Dylai hyn gynnwys yr adegau pan fydd pobl ifanc yn gadael y system addysg.Tudalen 67
- Argymhelliad 30.** Dylai'r Bil a/neu'r Cod sicrhau bod gwybodaeth annibynnol a chyngor yn cael eu cynnig i blant, i bobl ifanc ac i rieni bob tro y bydd CDU yn cael ei adolygu, neu pan ddaw cynllun i ben, yn hytrach na dim ond pan fydd awdurdod lleol yn dechrau ymgysylltu â theulu. Tudalen 68
- Argymhelliad 31.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd benodol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.Tudalen 73
- Argymhelliad 32.** Dylai'r Bil gynnwys dyletswydd benodol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau.Tudalen 73
- Argymhelliad 33.** Dylid diwygio adrannau 10(5), 12(5) ac 18(5)(c) er mwyn dileu'r hawl sydd gan y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a chyrrff ieuchyd i benderfynu yn y lle cyntaf a ddylid cynnig darpariaeth yn Gymraeg. Os bydd

dysgwr neu ei riant yn gofyn am ddarpariaeth Gymraeg, hyn ddylai fod yn fan cychwyn. Yna dylid gofyn i'r cyrff dan sylw gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn Gymraeg..... Tudalen 77

Argymhelliad 34. Dylid diwygio Adran 56 o'r Bil a'i chryfhau i ddileu'r cyfeiriad at ddymunoldeb a sicrhau bod darpariaeth dysgu ychwanegol ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys yn hytrach y term "lle bynnag y bo modd"..... Tudalen 77

Argymhelliad 35. Dylai'r Gweinidog ystyried a ellid ymestyn adran 56(3)(a) i gynnwys ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, y gellid dros gyfnod eu cynnwys yn narpariaethau'r Bil..... Tudalen 77

Argymhelliad 36. Dylai'r Gweinidog fabwysiadu unfed nod craidd ar ddeg i'r Bil er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ADY dwyieithog yn cael eu darparu. Tudalen 77

Argymhelliad 37. Dylai'r Bil gynnwys darpariaethau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol, yn y dyfodol, i'r gweithlu allu cynnig darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob achos y gofynnir amdani. Dylai'r Gweinidog hefyd baratoi a chyhoeddi strategaeth i ddangos sut y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu a'r amserlenni ar gyfer ei rhoi ar waith..... Tudalen 77

Argymhelliad 38. Dylid diwygio'r Bil er mwyn i benderfyniadau a gweithredoedd cyrff iechyd a'r pŵer i gyfarwyddo cyrff iechyd mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ddod o dan gylch gwaith y Tribiwnlys. Os digwydd bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer unrhyw newidiadau, dylid gofyn am hyn yn y ffordd arferol..... Tudalen 82

Argymhelliad 39. Dylai'r Gweinidog ystyried sut y gellid newid cyfansoddiad y Tribiwnlys er mwyn iddo gynnwys barn ac arbenigedd clinigol i raddau digonol. Dylai'r Gweinidog hefyd ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau eraill i gyfansoddiad y Tribiwnlys er mwyn sicrhau cydbdwyseidd priodol rhwng arbenigedd iechyd ac arbenigedd addysgol. Tudalen 82

Argymhelliad 40. Dylai'r Gweinidog ystyried profiadau system y tribiwnlys yn Lloegr ers cyflwyno diwygiadau yno, er mwyn helpu i liniaru unrhyw effaith debyg yng Nghymru. Tudalen 82

Argymhelliad 41. Dylai'r Gweinidog edrych eto ar yr hamcangyfrifon ar gyfer costau ac arbedion a chynnig eglurder yn eu cylch cyn cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2. Tudalen 89

- Argymhelliad 42. Dylai'r Gweinidog, drwy'r Is-grŵp Dosbarthu, ystyried dulliau amgen o ariannu'r ddarpariaeth arbenigol ôl-16..... Tudalen 89**
- Argymhelliad 43. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid.Tudalen 89**
- Argymhelliad 44. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod y Cod ADY yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Rhaid defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol hefyd wrth wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Cod..... Tudalen 92**
- Argymhelliad 45. Dylid rhoi copi i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o ddrafft terfynol y Cod er mwyn iddo'i ystyried cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad statudol sy'n ofynnol o dan y Bil..... Tudalen 92**
- Argymhelliad 46. Dylai'r Gweinidog ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn llawn..... Tudalen 92**
- Argymhelliad 47. Dylai'r Gweinidog ystyried cysoni'r Canllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd â'r system ADY newydd, drwy ymestyn ystod oedran y dysgwyr sy'n dod o dan y canllawiau hynny.Tudalen 101**
- Argymhelliad 48. Dylid cryfhau'r Cod ADY er mwyn ychwanegu eglurder ynghylch pa bryd y bydd anghenion meddygol yn dod o dan y diffiniad o ADY, a dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid yn hyn o beth....Tudalen 101**

01. Cyflwyniad

1. Ar 12 Rhagfyr 2016, cyflwynodd Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (y Gweinidog) y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)¹(y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ² a gwnaeth ddatganiad am y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr.³
2. Yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2016, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Ar 29 Tachwedd 2016, pennodd y Pwyllgor Busnes ddyddiad, sef 12 Mai, 2017, gan ofyn i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad am ei egwyddorion cyffredinol erbyn hynny.
3. Yn ystod ystyriaethau Cyfnod 1, daeth y Pwyllgor ar draws materion polisi sylweddol, ac er mwyn sicrhau bod digon o amser i ystyried y materion hyn yn llawn cyn cwblhau ei adroddiad, gofynnodd am estyniad i'r dyddiad a bennwyd ar gyfer adroddiad Cyfnod 1. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i estyn y dyddiad tan 24 Mai.

Cylch gorchwyl

4. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i wireddu amcanion polisi'r Bil fel y'u datganwyd;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi yn sgil y Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

5. Ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl, gofynnodd y Pwyllgor am farn ynglŷn â'r materion penodol a godir gan y Bil, yn benodol:

- ai tri amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru (a restrir ym mharagraff 3.3 o'r Memorandwm Esboniadol) yw'r amcanion cywir ac a yw'r Bil yn ddigonol i gyflawni'r rhain;
- ai deg nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y bil (a restrir ym mharagraffau 3.5-3.16 o'r Memorandwm Esboniadol) yw'r amcanion cywir ac a yw'r Bil yn ddigonol i gyflawni'r rhain;
- y darpariaethau ar gyfer cydweithio a gwaith amlasiantaeth, ac i ba raddau y mae'r rhain yn ddigonol;
- a oes digon o eglurder am y broses ar gyfer datblygu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a chyfrifoldeb pwy fydd hyn;

¹ [Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#)

² [Memorandwm Esboniadol](#)

³ [Datganiad Llafar, 13 Rhagfyr 2016](#)

- a wnaiff y Bil lwyddo i sefydlu system 0-25 oed mewn gwirionedd;
- gallu'r gweithlu i wireddu'r trefniadau newydd;
- y trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer datrys ac osgoi anghydfodau.

Dull Gweithredu'r Pwyllgor

6. Rhwng dydd Iau 15 Rhagfyr 2016 a dydd Gwener 3 Mawrth 2017, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i lywio'i waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Cafodd y Pwyllgor 78 o ymatebion, a restrir yn Atodiad A.⁴
7. Cynhaliwyd 17 o sesiynau tystiolaeth lafar gan y Pwyllgor. Mae rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad, ac fe'i gwelir yn Atodiad B.
8. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y Pwyllgor sawl ymarfer allgymorth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a phobl y bydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, gan gynnwys:
 - digwyddiad gyda rhanddeiliaid ar 26 Ionawr;⁵
 - digwyddiad a drefnwyd gan SNAP Cymru gyda rhieni a gofalwyr ar 9 Chwefror;⁶
 - dau arolwg ar-lein.⁷
9. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith.

Pwyllgorau eraill sydd wedi ystyried y Bil

10. Clywodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog am oblygiadau ariannol y Bil ar 8 Chwefror 2017.⁸ Adroddodd am ei gasgliadau ar 15 Mai 2017.⁹
11. Ar 27 Chwefror 2018, clywodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth gan y Gweinidog am briodolrwydd darpariaethau'r Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.¹⁰ Adroddodd am ei gasgliadau ar 24 Mai 2017.¹¹

⁴ [Ymatebion i'r Ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil ADY](#)

⁵ Digwyddiad gyda Rhanddeiliaid, 26 Ionawr 2017, [crynodeb o'r dystiolaeth](#)

⁶ Digwyddiad SNAP Cymru gyda rhieni a gofalwyr, 9 Chwefror 2017, [crynodeb o'r dystiolaeth](#)

⁷ Arolwg o'r Bil ADY gyda [Phlant a Phobl Ifanc](#) a [Rhieni/Gofalwyr](#)

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, [8 Chwefror 2017](#)

⁹ [Adroddiad y Pwyllgor Cyllid](#), 15 Mai 2017

¹⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [27 Chwefror 2017](#)

¹¹ [Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 24 Mai 2017

02. Y cefndir

Cymhwysedd deddfwriaethol

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad Cenedlaethol”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau a nodir ym Mil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (“y Bil”) o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

2.2 Mae paragraffau 5, 9 and 15 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau a ganlyn y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch

Paragraff 5: Addysg a hyfforddiant

Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

Paragraff 9: Iechyd a gwasanaethau iechyd

Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

Paragraff 15: Llesiant cymdeithasol

Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) [and of young adults]. Care of [children,] young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.”

13. Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 12 Rhagfyr 2016, yn dweud y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.¹²

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael

14. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hwn yn disodli'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl 16 oed.

15. Mae'r Bil hefyd yn parhau i gadw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), sy'n darparu ar gyfer plant, eu rhieni a phobl ifanc sy'n dymuno apelio iddo yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY y plentyn neu'r person ifanc ond mae'n ailenwi'r tribiwnlys yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

¹² Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y Bil yn creu:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach (AB);
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

17. Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu deg nod craidd sy'n sail i ddatblygu darpariaethau'r Bil. Mae manylion y deg nod craidd yn y Memorandwm Esboniadol, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad C. Mae'r nodau craidd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);
- sefydlu ystod oedran 0 i 25 oed;
- creu cynllun unedig;
- cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy;
- darparu ar gyfer dyheadau uchelgeisiol a gwell deilliannau;
- creu system symlach sy'n achosi llai o wrthdaro;
- rhagor o gydweithredu;
- osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach;
- darparu hawliau clir a chyson i apelio; a
- gwneud Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn orfodol.

18. Yn ei ddatganiad llafar i gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r Bil yn ymateb i bryderon gan deuluoedd, sy'n dweud bod y system bresennol yn aneffeithlon, yn fiwrocraidd ac yn gostus, ac nad yw'n canolbwyntio ar blant nac yn hwylus i'w defnyddwyr. Weithiau canfyddir anghenion yn hwyr, ac nid yw ymyraethau'n cael eu cynllunio na'u rhoi ar waith mewn modd amserol nac effeithiol. Mae teuluoedd yn dweud bod yn rhaid iddynt frwydro yn ystod pob cam o'r broses i gael y cymorth cywir i'w plentyn, ac nad ydynt yn gwybod ble i droi i gael cyngor a gwybodaeth. Mae'r Bil yn targedu'r pryderon hyn yn uniongyrchol, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y system bresennol. Bydd yn sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd y broses, ac yn gwneud y system yn decach, yn llawer symlach, ac yn llai gwrthwynebus i'r rhai sy'n ymwneud â hi.

Bydd y Bil yn creu un system statudol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o'u genedigaeth hyd nes eu bod yn 25 oed, yn hytrach na'r ddwy system ar wahân sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Bydd yn

cyflwyno'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' i gymryd lle'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Bydd yn disodli'r system o lunio datganiadau, ac yn creu un cynllun statudol-y cynllun datblygu unigol i gymryd lle'r ystod bresennol o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr, gan sicrhau tegwch hawliau waeth beth yw lefel angen y dysgwr neu'r lleoliad addysgol y mae'n ei fynychu.

Bydd yn sicrhau bod barn dysgwyr a rhieni'n cael ei hystyried drwy gydol y broses gynllunio, fel eu bod yn ei gweld fel rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda nhw yn hytrach nag yn cael ei wneud iddyn nhw, a bod y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i bopeth. Ac, yn olaf, bydd yn annog gwell prosesau cydweithio rhwng asiantaethau, drwy gyflwyno a sefydlu swyddogaethau statudol newydd ym meysydd iechyd ac addysg, fel bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu.”¹³

19. Bydd darpariaethau'r Bil hefyd yn cael eu hategu gan God Dysgu Ychwanegol Statudol (y Cod), sy'n ofynnol o dan Adran 4 o'r Bil (gweler nod craidd 10). Mae'r Cod yn cynnig llawer o'r manylion ynglŷn â sut y bydd darpariaethau'r Bil, ei amcanion a'i nodau craidd (fel y'u nodir yn y Memorandwm Esboniadol) yn cael eu cyflwyno.

20. Rhoddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft gynnar o'r Cod ADY i'r Pwyllgor er mwyn helpu i lywio'r gwaith craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1. Mae'r Bil yn darparu mecanwaith ffurfiol ar gyfer gwneud y Cod, a fydd yn destun ymgynghori a chraffu ffurfiol.

21. Mae'n bwysig nodi nad oedd gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys craffu penodol neu fanwl ar y Cod. Serch hynny, mae bron pob agwedd ar ddarpariaethau'r Bil yn cyfeirio yn ôl at y manylion sydd yn y Cod, ac yn hynny o beth, cyfeirir ato drwy'r adroddiad.

¹³ Cofnod y Trafodion, 13 Rhagfyr 2016

03. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

22. Daw'r Bil yn sgil llawer o adolygiadau, ymgynghoriadau, cynlluniau peilot a diwygiadau arfaethedig, sy'n dyddio yn ôl i 2002. Ers blynyddoedd lawer, mae rhanddeiliaid a theuluoedd wedi bod yn galw am ddiwygiadau, ac fe dderbynnir ei bod bellach yn hen bryd inni ddiwygio'r drefn. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Gydol Oes wedi dweud bod y Bil yn trawsnewid y system yn llwyr, system nad yw bellach yn addas at y diben. Mae Llywodraeth Cymru yn bendant ei barn bod angen diwygio'r system bresennol.

23. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysg Ychwanegol (ADY), o'r crud; yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol; ac, os ydynt yn hŷn nag oedran ysgol gorfodol, pan fyddant mewn addysg bellach. Bydd y Bil, a'r fframwaith newydd y mae'n ei greu, yn disodli'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau ar wahân sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) hyd at 16 oed, ac Anawsterau a/neu Anabledau Dysgu (AAD) ôl-16.

24. Caiff y term newydd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ei ddefnyddio o fewn un fframwaith deddfwriaethol a fydd yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed (ac eithrio'r rheini sydd dros 16 oed ac nad ydynt mewn addysg bellach) y gwelir bod ganddynt yr anghenion hynny.

25. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer yr un math o gynllun - Cynllun Datblygu Unigol (CDU) - ni waeth faint yw oedran y dysgwr (hyd at 25) na difrifoldeb ei ADY. Felly byddai pob dysgwr sydd ag ADY yn cael CDU yn lle'r system raddedig dair haen bresennol, sef Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

26. Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fydd yn sail i ddarpariaethau'r Bil, yn cynnwys manylion am sut y byddai'r system newydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd y Cod o ran deall sut y bydd y system newydd yn gweithio'n ymarferol ac fe roddwyd copi gweithio drafft o'r Cod i'r Pwyllgor ar 14 Chwefror 2017.¹⁴ Darparwyd y drafft gweithio hwn at ddibenion enghreifftiol yn unig i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil ac nid y Cod ei hun yn destun craffu.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

27. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi cefnogaeth gyffredinol i nodau ac amcanion y Bil ond maent yn poeni am lawer o bethau sy'n gysylltiedig â sut y bydd yn gweithio'n ymarferol. Maent wedi rhybuddio bod angen mwy o eglurder a manylder ynglŷn â sut y bydd yn cael ei roi ar waith. Serch hynny, ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno sy'n gwrthwynebu egwyddorion cyffredinol y Bil ac mae cytundeb helaeth bod angen i'r system newid.

28. Ni chafwyd fawr ddim beirniadaeth ar gysyniad y CDU, ac eithrio am sut y bydd y cynlluniau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac mae cefnogaeth eang i 'ganolbwyntio ar yr unigolyn' wrth gynllunio. Poeni y mae pobl yn bennaf am adnoddau, y gofynion hyfforddi a rhoi'r Bil ar waith mewn gwirionedd, Bydd gofyn rhoi sylw i hyn yn bennaf yn y Cod ADY ac yn Rhaglen Trawsnewid ehangach ADY.

29. Fodd bynnag, mae rhai'n poeni am sut mae'r Bil ei hun yn mynd ati, er enghraifft sut mae ADY yn cael ei diffinio, lefel y canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar ac ôl-16, a sut mae'r sector iechedd yn

¹⁴ [Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#)

cael ei gynnwys ac yn atebol. Trafodir y meysydd penodol hyn mewn adrannau diweddarach yn yr adroddiad.

30. Roedd yr arolwg a gynhaliwyd ar ran y Pwyllgor gan Dîm Allgymorth y Cynulliad hefyd yn nodi meysydd lle'r oedd pobl yn poeni'n gyffredinol am y system bresennol.

“O blith 530 o deuluoedd, rhieni a gofalwyr a holwyd:

- Nid yw 90% yn credu bod AAA / ADY plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod yn gyflym nac yn ddigon da.

- Nid yw 86% yn credu bod gan deuluoedd ddigon o lais am y ffordd y mae AAA / ADY eu plentyn yn cael eu diwallu.

O blith 177 o blant a phobl ifanc rhwng 12 a 25 (roedd 57% yn 16-18 oed) oed:

- nid yw 61% ohonynt yn credu bod AAA / ADY plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yn ddigon da.

- mae 46% yn credu nad oes gan blant a phobl ifanc ddigon o lais am sut mae eu AAA / ADY yn cael eu diwallu. (Mae 32% yn dweud nad ydynt yn gwybod a 32% yn credu bod ganddynt ddigon o lais).¹⁵

Ymateb y Gweinidog

31. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bwysleisio bod a wnelo diwygio'r system AAA / ADY yng Nghymru â mwy na dim ond y ddeddfwriaeth hon. Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio bod y Bil yn rhan o raglen ehangach i drawsnewid y system ADY. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati fesul cam i roi'r fframwaith statudol newydd ar waith ochr yn ochr â'i Rhaglen ehangach i Drawsnewid ADY.

32. Mae'r Gweinidog wedi dweud wrth y Pwyllgor:

I think sometimes legislators believe that we can change the world simply through passing a Bill or putting a piece of legislation on the statute book. What I would like to do, more than anything else, is to create a culture change within the way we work, because, at the end of the day, the success or not of this legislation will depend upon individuals working well together within the system that's created. (...)

What I want to be able to do is lead a process of transformation—and it's a wider process of transformation in terms of training and in terms of providing the funding to enable change to take place—and then the change of culture that we spoke about earlier, which will deliver on these needs.¹⁶

Barn y pwyllgor ac argymhellion

33. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr yr egwyddorion cyffredinol sydd yn y Bil, a'r rheini wedi'u fframio gan y prif amcanion a'r nodau craidd sydd yn y Memorandwm Esboniadol, ac mae'n credu y bydd y Bil yn cynnig llwyfan ar gyfer diwygio'r system AAA/ADY, system y mae'n hen bryd ei diwygio. Mae hon yn farn y mae'r rhan fwyaf o'r rheini a roddodd dystiolaeth yn ystod gwaith craffu ar y Bil yn

¹⁵ Arolwg o'r Bil ADY gyda **Phlant a Phobl Ifanc a Rhieni/Gofalwyr**

¹⁶ Tystiolaeth Lafar, Y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg, **12 Ionawr 2017**.

cytuno â hi. Serch hynny, mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o gryfhau'r ddeddfwriaeth, a chynigion y Gweinidog ar gyfer diwygio'r system AAA/ADY. Gweler yr argymhellion penodol yn y penodau a ganlyn yn yr Adroddiad hwn.

34. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos y bydd sawl her yn codi wrth weithredu'r Bil. Ni fydd pasio'r ddeddfwriaeth ar ei ben ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau sylfaenol dyfnach a berthyn i'r system bresennol. Mae'r dystiolaeth a gafwyd hefyd yn amlygu llawer o bryderon am sut y gwnaiff y fframwaith newydd weithio yn ymarferol.

35. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd Rhaglen ehangach Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r heriau hynny a sicrhau system sy'n gadarn ac sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael, bod y gweithlu'n cael ei gynllunio a threfniadau hyfforddi wedi'u sefydlu a fydd yn help i roi'r Bil ar waith yn ogystal â'r Rhaglen Trawsnewid ehangach.

36. Mae'r Pwyllgor yn deall y bydd angen tipyn o amser i roi Rhaglen Trawsnewid ADY ar waith yn llawn. Mae'n bwysig felly monitro'n rheolaidd y cynnydd wrth ei roi ar waith. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog roi diweddariadau i'r Pwyllgor, a'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd, yn ystod pob cyfnod allweddol o'r Rhaglen Trawsnewid.

37. Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Gweinidog am ddarparu fersiwn weithio ddrafft o'r Cod ADY. Roedd hyn yn gymorth hollbwysig wrth inni graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'r Pwyllgor, serch hynny, yn siomedig nad oedd y Cod ar gael pan gyflwynwyd y Bil. Oherwydd bod bwch o ddau fis rhwng cyflwyno'r Bil (12 Rhagfyr) a darparu'r Cod (14 Chwefror) roedd proses graffu Cyfnod 1 yn anos ei rheoli, ac arweiniodd at oedi er mwyn i'r rhanddeiliaid gael digon o amser i ystyried y Cod cyn rhoi tystiolaeth am y Bil.

38. Roedd y Gweinidog ei hun yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Cod er mwyn deall sut y bydd y system newydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf felly y dylai'r Cod fod wedi'i gyhoeddi adeg cyflwyno'r Bil. Er bod cyhoeddi'r Cod yn hwyr wedi golygu ei bod yn anos craffu'n fanwl ar ddarpariaethau'r Bil, ni wnaeth hyn ynddo'i hun effeithio ar ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil o safbwynt ehangach.

Argymhelliad 1. Bod y Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor, ac i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd, am weithredu'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

POBL IFANC

CAFWYD
177
O YMATEBION

Dyweddodd **61%** NAD OEDD anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n ddigon cyflym ac yn ddigon da ar hyn o bryd.

Roedd **91.5%** o'r farn y dylid cynnwys pobl ifanc ag ADY sydd yn y coleg, yn gwneud prentisiaethau neu hyfforddiant yn y gweithle, yn y system newydd.

Roedd **42%** o'r farn bod plant a phobl ifanc yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn anfodlon â'r cymorth y maent yn ei gael ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Dylai pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol bob amser allu cael gwybodaeth gan:

- Ysgol: cytunodd: **78.3%**
- Coleg: cytunodd **68.0%**
- Awdurdod lleol: cytunodd **54.9%**
- Person Annibynnol: cytunodd **52.0%** agreed

TEULUOEDD, RHIENI A GOFALWYR

**CAFWYD
530
O YMATEBION**

Roedd **90%** o'r farn NAD OEDD anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n ddigon cyflym ac yn ddigon da ar hyn o bryd.

Roedd **95.6%** o'r farn y dylid cynnwys pobl ifanc ag ADY sydd yn y coleg, yn gwneud prentisiaethau neu hyfforddiant yn y gweithle, yn y system newydd.

Roedd **89.2%** o'r farn NAD OEDD teuluoedd yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn anfodlon â'r ddarpariaeth addysg maent yn ei chael.

Roedd **86.3%** o'r farn NAD OEDD teuluoedd yn cael digon o gyfle i fynegi barn ynglŷn â sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu.

Roedd **90%** o'r farn y dylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael bob amser gan berson annibynnol yn hytrach na dim ond gan yr ysgol, y coleg neu'r awdurdod lleol.

04. Diffinio ADY

Y cefndir a safbwynt y Bil

39. Cedwir at yr un diffiniad ag a ddefnyddir ar hyn o bryd gyfer AAA wrth ddiffinio ADY. Mae'r diffiniad hwn wedi bod ar waith ers Deddf Addysg 1996. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn ei hanfod yr un fath â'r diffiniad cyfredol o AAD ar lefel ôl-16.

40. Mae'r Bil yn cynnig diffiniad dau gam: yn gyntaf - a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster neu anabledd dysgu; ac yn ail a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar gyfer yr anhawster neu'r anabledd dysgu hwnnw. Os felly, yna bydd gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

41. O ran cam cyntaf y diffiniad hwn, mae adran 2 (2) o'r Bil yn dweud:

“Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd -

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.”

42. Mae'r Bil yn dweud hefyd yn adran 2(3) fod gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol anhawster neu anabledd dysgu os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn y diffiniad a roddir uchod neu y byddai'n debygol o fod felly pe na threfnid darpariaeth ddysgu ychwanegol.

43. Y cam nesaf wrth adnabod ADY fydd penderfynu a yw anhawster neu anabledd dysgu plentyn neu berson ifanc yn gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Mae Adran 3 o'r Bil yn diffinio Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yn yr un termau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer Darpariaeth Addysgol Arbennig. Sef:

“Ystyr ‘darpariaeth ddysgu ychwanegol’ i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion neu golegau prif ffrwd a gynhelir, neu mewn addysg feithrin.

Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath. (Y rheswm dros hyn yw oherwydd na fyddai plentyn o'r oedran hwn fel rheol yn defnyddio darpariaeth addysg.)”

44. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn rhagweld y byddai'r un nifer o ddysgwyr yn cael eu hystyried yn rhai sydd ag ADY â'r nifer sydd ag AAA ac AAD ar hyn o bryd, oherwydd y byddai'r un diffiniadau'n cael eu defnyddio.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

Rhoi'r diffiniad ar waith yn y blynyddoedd cynnar

45. Mae'r rhanddeiliaid yn y sector blynyddoedd cynnar yn credu bod y diffiniad o ADY yn y Bil yn canolbwyntio'n rhy gyfyng ar ddysgu yn yr ystyr addysgol neu academiaidd yn unig. Maent yn teimlo nad yw'n rhoi digon o sylw i'r ffordd y mae plant ifanc yn datblygu, er enghraifft eu datblygiad cymdeithasol ac amgylcheddol a dysgu drwy chwarae. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, ysgrifennodd y Mudiad Meithrin:

“mae perygl i anghenion plant am symbyliad (stimulation), anogaeth a rhyngweithio cymdeithasol (sydd yn gwbl hanfodol i ddatblygiad ymenyddol plant bach) gael ei anwybyddu neu ei ddiystyru. Wrth ystyried asesu anghenion ychwanegol addysgol plant bach o dan dair oed, dylai eu mynediad i brofiadau cynnar holl bwysig (fel cymdeithasu a chwarae mewn lleoliad fel Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin) fod yn ystyriaeth.”¹⁷

'Agweddau ar' ddysgu

46. Awgrymodd Estyn y dylid newid geiriad adran 2 o'r Bil er mwyn iddo ddweud “anhawster sylweddol fwy mewn agweddau ar ddysgu” yn hytrach nag “anhawster dysgu sylweddol fwy”. Maent yn credu y byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai disgyblion fod â phroblemau mewn un rhan o'u dysgu'n unig neu fwy nag un rhan ac na fyddai neb yn sylwi ar hyn o bosibl petai'r ysgolion ond yn ystyried eu cynnydd yn gyffredinol.

47. Rhybuddiodd Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar y byddai angen sicrhau na fyddai newid geiriad y diffiniad fel hynny yn adran 2 yn cael yr effaith groes i'r hyn a fwriadwyd, drwy awgrymu ei fod yn cynnwys pob agwedd ar ddysgu. Awgrymodd SNAP Cymru y gallai defnyddio'r geiriau “rhai agweddau neu bob agwedd ar ddysgu” ddatrys hyn.

Deall y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' ar lefel ymarferol

48. Hefyd, soniodd Estyn am broblemau posibl a allai godi wrth ddefnyddio'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn y ddeddfwriaeth.

49. Roeddent yn rhybuddio, er bod y diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn adrannau 2 a 3 o'r Bil yr un fath â'r diffiniad cyfreithiol presennol o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), nad yw hyn yn rhoi sylw i'r ffaith bod cysyniad ehangach o ADY wedi'i roi ar waith ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion yn 2006. Disodlwyd y canllawiau hyn gan ganllawiau newydd yn 2016, a oedd yn cyfeirio at y diffiniad cyfreithiol o AAA (a ddefnyddir yn awr ar gyfer ADY o dan y Bil).

50. Dywedodd Estyn fod y term ADY yn cael ei ddeall fel term ambarél sy'n cwmpasu grwpiau eraill o ddysgwyr agored i niwed megis y rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl, cyflwr meddygol neu anabledd. Ysgrifennodd Estyn fod y newid yn y derminoleg yn debygol o achosi dryswch a bod perygl i'r sylw symud oddi wrth y dysgwyr hynny

Anghenion meddygol mewn ysgolion

51. Mae'r Pwyllgor wedi cael cryn dipyn o dystiolaeth am ddyletswyddau ysgolion i reoli anghenion meddygol disgyblion gan ddweud efallai y dylid cynnwys hyn yn y Bil ADY. Gallai hyn olygu, o bosibl, y

¹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Mudiad Meithrin, [ALN54](#)

byddai angen diwygio sut y diffinnir ADY. Trafodir ystyriaeth fanwl y Pwyllgor o'r mater hwn ym Mhennod 18 (Anghenion meddygol mewn ysgolion).

Ymateb y Gweinidog

52. Gwrthododd y Gweinidog yr awgrym fod ADY yn cael ei ddiffinio'n rhy gul yn y Bil ac nad yw'n ystyried y mathau o ddysgu a wneir yn y blynyddoedd cynnar. Dywedodd:

“I think that the current definition is sufficiently broad to capture learning in its wider sense and not just strict, formal learning. I'm absolutely sure that the definition also covers informal learning—learning through play, for example, for ... younger children.”¹⁸

53. Roedd hefyd yn anghytuno ag Estyn ynglŷn â manteision cynnwys y geiriau 'agweddau ar' yn y diffiniad yn adran 2, gan ddweud:

“I'm not persuaded or convinced by those arguments, I must say. Why qualify something? Learning is learning, and any aspect of learning should be covered by it. I don't understand why we would want to qualify that by aspects of learning. I don't understand why that would actually improve the definition.”¹⁹

54. O ran a yw'r term ADY yn berthnasol i anghenion ehangach dysgwyr yn hytrach na dim ond i'w hanghenion addysgol neu i'w dysgu, roedd y Gweinidog yn glir mai Bil addysg yw hwn a'i fod yn ymwneud yn benodol ag anghenion dysgu (gweler hefyd yr adran am anghenion meddygol yn yr ysgol).

Barn y pwyllgor ac argymhellion

55. O ran perthnasedd y diffiniad i'r blynyddoedd cynnar, mae'r Pwyllgor yn poeni rywfaint am eiriad y diffiniadau yn adrannau 2 a 3 o'r Bil a sut y byddai hyn yn cael ei ddehongli.

56. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod gael ei ddefnyddio i egluro bod 'dysgu' yn cynnwys dysgu mwy anffurfiol yn y blynyddoedd cynnar, megis dysgu drwy chwarae a rhyngweithio cymdeithasol.

57. O ran cynnwys y term 'agweddau ar ddysgu' mae'r Pwyllgor yn derbyn y farn a gyflwynwyd gan Estyn y gall rhai disgyblion fod yn wynebu problemau mewn un rhan neu mewn mwy nag un rhan o'u dysgu'n unig a phetai ysgolion ond yn ystyried eu cynnydd yn eu 'dysgu' drwyddo draw, y gallent fethu â sylwi ar hyn. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn fodlon nad oedd angen manylu rhagor yn y diffiniad yn adran 2 a chyfeirio'n benodol at 'agweddau ar ddysgu'. Mae'r Pwyllgor, serch hynny, yn credu y dylid defnyddio'r Cod i egluro bod 'dysgu' fel y'i diffinnir yn adran 2(2) yn cyfeirio nid dim ond at ddysgu disgybl yn ei gyfanrwydd, ond ei fod hefyd yn cynnwys cyfeiriad at agweddau neu elfennau penodol o'u dysgu.

58. Mae tystiolaeth Estyn yn cyfeirio at y ffaith bod cysyniad ehangach o ADY wedi'i ddefnyddio ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau ynglŷn â Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion yn 2006. Fel y nodwyd eisoes, mae'r Pwyllgor yn gyffredinol fodlon ar y diffiniad o ADY yn y Bil, ac yn credu na ddylid newid y term Anghenion Dysgu Ychwanegol. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn dymuno ystyried ymhellach oblygiadau posibl defnyddio'r un term ar gyfer dysgwyr eraill sy'n agored i niwed a oedd yn dod o dan y term ADY ehangach a fabwysiadwyd yn y canllawiau ynglŷn â

¹⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

¹⁹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion rhwng 2006 a 2016 (gweler hefyd pennod 9 - Y Blynyddoedd Cynnar).

59. O ran cynnwys anghenion meddygol o fewn y diffiniad o ADY, mae'r Pwyllgor yn glir, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog, os bydd gan rywun gyflwr meddygol sydd:

- yn golygu bod ganddynt anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o bobl eraill o'r un
- oedran; neu
- yn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n atal neu'n rhwystro'r disgybl rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath sydd gan amlaf yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion eraill o'r un oedran yn ysgolion y brif ffrwd neu sefydliadau'r briff ffrwd yn y sector addysg bellach;

bod yr unigolyn hwnnw eisoes yn dod o fewn y diffiniad o ADY fel y mae yn adran 2 o'r Bil.

60. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid diwygio'r diffiniad yn adran 2 o'r Bil i'w gwneud yn glir ar wyneb y Bil y bydd gan rywun angen addysgol ychwanegol os bydd ganddo gyflwr meddygol sy'n golygu bod ganddo anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o bobl o'r un oed neu fod yr angen meddygol yn anabledd sy'n atal neu'n rhwystro'r disgybl rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i bobl eraill o'r un oed, a bod yr anhawster neu'r anabledd dysgu hwnnw'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Trafodir ymhellach ystyriaethau'r Pwyllgor ynglŷn ag anghenion meddygol mewn ysgolion yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd a'r cefndir i Argymhelliad 4 ym mhennod 18.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn egluro:

- a. nad oes angen i blentyn fod ag anhawster sylweddol fwy ym mhob maes o'u dysgu er mwyn dod o fewn adran 2 (2) (a) o'r Bil.
- b. yng nghyd-destun plant o dan oedran ysgol gorfodol, bod y cyfeiriad at 'ddysgu' yn adran 2 (2) (a) o'r Bil yn cynnwys mathau mwy anffurfiol o ddysgu, megis dysgu drwy chwarae a rhyngweithio cymdeithasol.

Argymhelliad 4. Dylid diwygio'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol ar wyneb y Bil i gynnig eglurder y bydd gan rywun angen ychwanegol os bydd ganddo gyflwr meddygol sy'n golygu bod ganddo anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o bobl o'r un oed neu fod yr angen meddygol yn anabledd sy'n atal neu'n rhwystro'r disgybl rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i bobl eraill o'r un oed, a bod yr anhawster neu'r anabledd dysgu hwnnw'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

05. Amserlenni ar gyfer asesu a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol

Y cefndir a safbwynt y Bil

- 61.** Bydd yr amserlenni statudol ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi CDU yn cael eu pennu yn y Cod ADY drafft, yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Bydd yr amserlenni'n orfodol yn fersiwn derfynol y Cod.
- 62.** Mae'r Cod drafft yn cynnig rhai amserlenni dangosol ar gyfer cynnal asesiadau ac ar gyfer sicrhau canlyniad yn sgil atgyfeirio.²⁰ Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod yr amserlenni hyn wedi cael eu datblygu gyda chyfraniad randdeiliaid ond eu bod yn amodol ar drafodaethau parhaus ac nad ydynt wedi'u pennu'n derfynol eto. Dyma'r amserlenni dangosol fel y'u nodir yn y Cod ADY drafft:
- Ar ôl cyfeirio disgybl i ysgol neu goleg, bydd ganddynt naill ai 2 wythnos i gyfeirio'r achos ymlaen at yr awdurdod lleol (oherwydd bod yr ADY yn ddigon cymhleth) neu 7 wythnos i asesu ADY y dysgwr a pharatoi CDU os byddant yn credu bod hyn yn angenrheidiol.
 - Os cyfeirir dysgwr at awdurdod lleol, gan gynnwys gan ysgol neu goleg, bydd ganddynt 2 wythnos i benderfynu a yw'r achos o fewn gallu'r ysgol neu'r coleg a'u cyfarwyddo i baratoi CDU neu 10 wythnos ar ôl yr atgyfeirio i baratoi CDU eu hunain, os byddant yn credu bod hyn yn angenrheidiol. Bydd gan ysgol 5 wythnos i baratoi CDU, os bydd yr awdurdod lleol yn ei chyfarwyddo i wneud hynny.
- 63.** Canlyniad yr amserlenni hyn yw na ddylai teuluoedd orfod aros mwy na 12 wythnos am ganlyniad eu cais am asesiad a CDU. Mae hyn yn cymharu â 26 wythnos o dan y fframwaith AAA presennol.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

- 64.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ysgrifennodd Estyn:

“Although timelines in respect of assessment and issuing IDPs are suggested in the draft ALN Code, it may be helpful to include these in the Bill, therefore ensuring that timely provision arising from any identification of need is made.”²¹

- 65.** Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS), yn ei chyflwyniadau ysgrifenedig:

“It will be imperative that the final version of the Code of Practice includes clear and robust time limits to ensure that the IDP process works effectively.”²²

Ymateb y Gweinidog

- 66.** Gofynnodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'r Gweinidog pam nad oedd yr amserlen, yn benodol honno a oedd yn dweud pa bryd y disgwylid i ysgolion ymateb i gais rhiant am ailystyried penderfyniad i beidio â chynnal CDU, ar wyneb y Bil. Ymateb y Gweinidog oedd:

²⁰ Cod ADY Drafft (Paragraffau 10.28-10.51)

²¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Estyn, [ALN14](#)

²² Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, [ALN29](#)

“We felt it was more appropriate that the timescale should be included as part of a wider and more general timescale to be included in the Code relating to the development and review of IDPs in their totality.”²³

67. Pan ofynnwyd pam na ellid sefydlu'r amserlenni yn y Bil yn y lle cyntaf ac yna'u diwygio trwy Reoliadau lle byddai angen, dywedodd y Gweinidog:

“I'm not sure that would achieve very much, quite honestly. But, you know, what we were seeking to do was to ensure that a timescale for reconsideration requests should be a part of the overall determination and description and structure of the IDP, rather than to treat this individual issue in isolation. That was our intention, so that all of this would be covered within the code.”²⁴

Barn y Pwyllgor ac argymhellion

68. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'n amlwg bod galw am gymaint o sicrwydd ag y bo modd ynghylch amserlenni ar gyfer asesiadau a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, mae'n ymddangos bod cytundeb cyffredinol y dylid cynnwys yr amserlenni ar gyfer asesiadau yn y Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil - ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd glir a chadarn.

69. Mae'n amlwg o dystiolaeth y Gweinidog ei fod yn meddwl y dylai'r Cod gael ei ddefnyddio i bennu amserlenni, ac mae hyn yn adlewyrchu ei farn am amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn ag asesiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol yn fwy cyffredinol.

70. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei bod yn briodol cynnwys yr amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol yn y Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Mae adran 4 (4) (ii) o'r Bil yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i osod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach ynghylch paratoi Cynlluniau Datblygu Unigol. Byddai unrhyw ofynion a wnaed o dan y pŵer hwn yn orfodol ac yn orfodadwy. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn darparu sail gadarn ar gyfer pennu'r amserlenni. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Cod ADY drafft yn pennu amserlenni dangosol, ond nad oes dim ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cod gynnwys manylion am amserlenni ar sail barhaus. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Cod i bennu amserlenni.

Argymhelliad 5. Dylid diwygio adran 4(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol bennu amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi CDU.

²³ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **27 Chwefror 2017**

²⁴ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **27 Chwefror 2017**

06. Cyfrifoldeb am Gynlluniau Datblygu Unigol

Y cefndir a safbwynt y Bil

71. Mae'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldeb am asesu a oes ADY gan ddysgwyr, ac am roi unrhyw CDU dilynol ar waith, i gyrrff llywodraethu ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yn hytrach nag i'r awdurdod lleol. O dan adran 9 o'r Bil, os bydd corff llywodraethu wedi penderfynu bod ADY gan blentyn neu berson ifanc, rhaid iddo baratoi CDU, oni fydd unrhyw un o'r amgylchiadau a bennir yn adran 10 (2) o'r Bil yn berthnasol. O dan amgylchiadau o'r fath, gall y gyrrff llywodraethu gyfeirio achos at yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc er mwyn iddo benderfynu a oes ganddo ADY. Dyma'r amgylchiadau a bennir yn adran 10(2):

- lle bydd y cais am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn gais 'na fyddai'n rhesymol' i'r corff llywodraethu ei sicrhau;
- lle 'na all y corff llywodraethu bennu' ADY y dysgwyr 'yn ddigonol'; neu
- lle 'na all y corff llywodraethu 'bennu' darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer 'yn ddigonol'.

72. Mae adran 12(2) yn galluogi awdurdod lleol i gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol i gynnal CDU, os bydd yn credu ei bod yn rhesymol i'r ysgol wneud hynny. Nid oes pŵer cyfatebol iddynt gyfarwyddo SAB i gynnal cynllun. Serch hynny, dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 34 o'r Bil er mwyn trosglwyddo CDU i Sefydliadau Addysg Bellach os bydd problemau.

73. Mae'r Cod drafft yn rhoi ychydig mwy o fanylion am y gwahaniaeth rhwng CDU disgwylir iddynt fod yn gyfrifoldeb i'r corff llywodraethu a'r rheini sy'n debygol o fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Mae paragraffau 1.20 ac 1.22 yn dweud y bydd cyrrff llywodraethu'n diwallu'n uniongyrchol anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag ADY ac y bydd awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am ddiwallu anghenion y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a/neu ddifrifol.

74. Ym mharagraffau 9.2.9 a 9.3.8, rhoddir rhagor o sylwadau am ba bryd y gallai ysgol neu SAB feddwl na fyddai'n rhesymol iddynt sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), a dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol/coleg (h.y. lleoliad, maint, cyllideb). Mae enghreifftiau yn y Cod drafft yn cynnwys lle bydd ar y plentyn neu'r person ifanc:

- gyflwr llai cyffredin / cyflwr prin y mae angen arbenigedd ar ei gyfer na all yr ysgol neu'r SAB ei ddarparu;
- angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol, yn ogystal â'r hyn y gellir eu trefnu'n rhesymol gan yr ysgol neu'r SAB neu y maent yn gallu cael gafael arnynt.
- angen cyfarpar sydd ond yn gallu cael ei ddefnyddio gan un plentyn neu berson ifanc/ na ellir ei aildefnyddio / sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol / SAB; neu
- angen cymorth dwys iawn bob dydd na ellir ei ariannu neu ei sicrhau'n rhesymol gan gyllideb yr ysgol neu'r SAB.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

75. Ysgrifennodd Estyn fod angen arweiniad diamwys ynglŷn â pha bryd y bydd CDU yn dod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol oherwydd fe allai diffyg cytundeb olygu oedi o ran cynnig y ddarpariaeth i'r dysgwr. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd:

“I think the area that we’ve raised some concerns about is at what point that shift in responsibility happens. I don’t think that that is clear enough in the Bill. And I’m not sure that the code, which does set out some times or some occasions that may lead that shift responsibility to happen, actually really ties it down.

I think it’s an area that it would be helpful to have very clear guidance on to enable consistency, which is one of the things that certainly the Bill is trying to achieve, and to also avoid misunderstanding, potential delays in development and delivery of additional learning provision. So, I think that is an area that we feel could be strengthened, whether it’s that some of what is in the code at the moment, which gives an indication of what might happen, could become part of the face of the Bill, but, certainly, I think it’s right and proper that there is a responsibility for a school and, at times, a local authority. But I just think the point of shifting that way and potentially back needs to be explored a little bit more.”²⁵

76. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y berthynas rhwng CDU awdurdodau lleol a'r rhai sy'n cael eu tywys gan ysgolion yng nghyd-destun y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig amlygodd CLILC y posibilrwydd y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi mwy o gynlluniau nag a ragwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, oherwydd nifer yr achosion a fyddai'n cael eu cyfeirio atynt gan ysgolion neu lle byddai rhieni'n gofyn i'r awdurdod lleol ymyrryd (mae a wnelo hyn ag adran 26 o'r Bil).

77. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd CLILC nad oedd yn gwbl glir ar hyn o bryd, bod y geiriad yn adran 10 (2) braidd yn amwys ac y gallai fod yn agored i'w ddehongli. Fodd bynnag, cyfeiriodd at y trafodaethau parhaus â grwp gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ac nid oedd yn rhoi llawer o bwyslais ar y mater hwn. Sylw cyffredinol CLILC oedd y bydd angen tipyn o amser i ddeall y goblygiadau ac o bosibl y canlyniadau anfwriadol, ac fe all hyn fod yn her.

78. Rhoddodd Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynrychioli CCAC, hyn yng nghyd-destun y ffordd y byddai awdurdodau lleol yn dirprwyo cyllid i ysgolion, gan ddweud bod a wnelo hyn â:

“making sure that schools have the resources so that they can provide the additional learning provision required and meet those needs without having to revert to the local authority.”²⁶

79. Pryder mwyaf CLILC oedd sefyllfa dysgwyr mewn addysg bellach gan y bydd gan awdurdodau lleol y pŵer i gyfarwyddo ysgolion i gynnal CDU os bydd anghytundeb ynglŷn â phwy ddylai fod yn gyfrifol. Fodd bynnag, nid oes pŵer cyfatebol i gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach, sy'n golygu os

²⁵ Tystiolaeth Lafar, Estyn, **8 Mawrth 2017**

²⁶ Tystiolaeth Lafar, CCAC, **2 Mawrth 2017**

bydd SAB yn cyfeirio achos at awdurdod lleol, nad oes modd i'r awdurdod lleol ei gyfeirio yn ôl, hyd yn oed os bydd yn credu ei bod o fewn gallu'r SAB.

80. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd CLILC fod hyn yn bryder gwirioneddol i'r 22 awdurdod:

“Once an authority has taken on one from an FE institution, there doesn't seem to be any way of 'giving it back', if those circumstances change and it would be appropriate to do that, which, of course, an authority could do with a school.”²⁷

81. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrth y Pwyllgor:

“I'm quite happy that there is, written into the legislation, the ability for schools and governors to say, 'This one is beyond our capability, we need somebody from the local authority, actually, to come in and assess this'.”²⁸

82. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon:

“The difficulty around this, and from your question particularly, is around this 'What is reasonable?' I think that's where there are going to be some hard conversations maybe.”²⁹

83. Pan ofynnwyd a oedd yn ddigon eglur ar hyn o bryd pwy a fyddai'n gyfrifol am y CDU, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon:

“I don't think so at present. Because I think, often, these cases will be very specific to the specific case; so, it will be very difficult to articulate that, I think, in a code. But I do think there needs to be—. I suppose our members' fear would be: when you have those sorts of conversations about what is or what isn't reasonable, at what point and who makes that ultimate decision? What it can't be is a push-back to schools. It can't be that because, from my point of view, irrespective, in a way, of what the school or local authority is saying, it's the needs of the child at the centre that is the key part. Actually, somebody has to take responsibility for the additional learning needs provision for that child.”³⁰

84. Soniodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau y gallai hyn droi'n 'ping-pong' rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol fel a ganlyn:

“It's a theoretical possibility. One would hope, as a school leader, that your relationship with the local authority will be such that you could have those frank discussions. Quite often, it could be that a local authority would say, 'Well, we will do this for you, which will allow you to do that', and that's fine. The problem—what you don't want—is a sort of ping-pong: 'We can't deal with it, you do it', 'No, you deal with it', and that isn't good for the child.”³¹

²⁷ Tystiolaeth lafar, CLILC, [2 Mawrth 2017](#)

²⁸ Tystiolaeth Lafar, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, [8 Mawrth 2017](#)

²⁹ Tystiolaeth lafar, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, [8 Mawrth 2017](#)

³⁰ Tystiolaeth lafar, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, [8 Mawrth 2017](#)

³¹ Tystiolaeth lafar, y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, [8 Mawrth 2017](#)

85. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig Comisiynydd Plant Cymru yn awgrymu hyn:

“Another alternative, would be to clarify that the primary duty for ALP resides with the local authority, but maintain governing bodies’ responsibilities for coordinating provision and monitoring progress within the school setting. Such an approach would be consistent with the legal position between school governing bodies and local authorities, and could then allow for a clear mechanism for governing bodies to escalate concerns in order to promote collaborative and integrated working as required by the Wellbeing of Future Generations Act. Local authorities’ role within public service boards would mean they are effectively placed to influence securing additional provision required outside of the school setting.”³²

86. Esboniodd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth lafar:

“What we need to do is make sure that lines of responsibility are very clear and I think that the governing body in a school would have a vital role still to play here, but if that overall responsibility for provision for all schools still lay with the local authority, then you would avoid that potential dispute between governing bodies and local authorities.”³³

87. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon o blaid syniad y Comisiynydd Plant mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am CDU ym mhob achos.

“So, the duty sitting with the local authority, I think, is very, very important because, for whatever reason, at school level there will be occasions when that might be at risk. So, there has to be somebody who is the gatekeeper on behalf of the child and young person.”³⁴

88. Mae Llywodraethwyr Cymru yn pwysleisio bod y corff llywodraethu yn cyflawni “rôl strategol” ac maent yn poeni y bydd disgwyl i Lywodraethwyr wneud penderfyniadau heb fod ganddynt y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol. Mae Llywodraethwyr Cymru yn derbyn ei bod yn gwneud synnwyr i ysgolion fod yn gyfrifol am baratoir mathau symlaf o CDU, ac y dylai'r awdurdodau lleol ysgwyddo'r rhai mwy cymhleth, ond maent yn dweud mai'r hyn sy'n debygol o achosi problem yw penderfynu ymhle mae'r llinell honno a chytuno arni.

89. Yn eu hymateb i'r Pwyllgor dywedodd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yng Ngheredigion fod angen eglurder ynghylch pa bryd y byddai'r cyfrifoldeb am CDU yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ac y byddai cael meini prawf cenedlaethol yn help wrth benderfynu ynghylch hyn. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig Cydlynwyr AAA mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru yn dweud nad oes pwynt amlwg lle y byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo, sydd, yn ôl eu disgrifiad hwy, yn aneglur iawn.

Cynnwys Seicolegwyr Addysg

90. Mae'r Cod drafft yn cynnwys sawl cyfeiriad at rôl seicolegwyr addysg (SA) yn llywio penderfyniadau ynglŷn ag ADY plentyn neu berson ifanc. Fe'u rhestrir yn un o'r asiantaethau a'r

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru, [ALN20](#)

³³ Tystiolaeth lafar, Comisiynydd Plant Cymru, [2 Mawrth 2017](#)

³⁴ Tystiolaeth lafar, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, [8 Mawrth 2017](#)

gweithwyr proffesiynol sy'n gallu helpu i adnabod ADY (para 6.43). Mae'r Cod drafft hefyd yn dweud y dylai fod ganddynt rôl benodol wrth benderfynu a ddylai ADY dysgwyr fod yn gyfrifoldeb i gorff llywodraethu'r ysgol/coleg ynteu i'r awdurdod lleol.

91. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, soniodd y Gymdeithas Seicolegwyr Addysg (CSA) am rôl hollbwysig SA ym mhob achos cymhleth (gan gynnwys gweithio gyda sawl asiantaeth) gan ofyn am gydnabod rôl y SA ar wyneb y Bil ac yn y Cod. Soniodd y Gymdeithas hefyd am y gwahaniaeth rhwng y gofynion ar gyfer cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol o ran ymgysylltu â SA. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gymdeithas:

“With the current legislation and code of practice, it’s expected that, before a referral is made to a local authority to have a statutory assessment, there will have been an educational psychology involvement...

under the current proposals, there’s certainly no mention of educational psychologists on the face of the Bill. There is mention of educational psychologists in the draft code of practice, where it says that, if a child is referred to the local authorities, so that the local authority would take responsibility for the IDP, then the local authority must engage with an educational psychologist. Prior to that though, it says that schools should be encouraged to seek the advice of an educational psychologist, not that they must do, which is really what they’re expected to do now.”³⁵

92. Ni fydd angen cynnwys SA ym mhob achos ADY. Nid yw'r Cod drafft ond yn dweud y dylai ysgol ystyried ymgynghori â SA cyn cyfeirio achos at awdurdod lleol (para 9.2.9). Serch hynny, mae'r Cod drafft yn dweud ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgysylltu â SA ar ôl i gorff llywodraethu ysgol neu goleg gyfeirio achos atynt.

93. Pan ofynnwyd a ddylai fod yn ofyniad ar i ysgolion geisio cyngor gan SA, dywedodd y Gymdeithas:

“Yes, basically. And I think we’re concerned because it seems as if, actually, you’re reducing the rights that children and young people have had since 1981 [the Education Act 1981], of having that access to a specialist professional, who has the holistic approach to looking at children in schools, but bringing in other aspects of their development as well.”³⁶

Ymateb y Gweinidog

94. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn ymwybodol o'r ddadl nad oes digon o eglurder ynglŷn â phwy a fydd yn gyfrifol am CDU wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ond nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hyn ei hun. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd y mater hwn wedi codi wrth dreialu CDU, dywedodd:

“Ie, rydw i wedi gweld y dystiolaeth, felly. Nid yw wedi dod ataf i fel rhan o'r trafodaethau yr ydw i wedi'u cael, mae'n rhaid dweud. Nid yw e wedi bod *issue* lle mae'r system yma yn cael ei gweithredu – yn sir Gâr, er enghraifft. Rydych

³⁵ Tystiolaeth Lafar, Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg, **16 Mawrth 2017**

³⁶ Tystiolaeth Lafar, Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg, **16 Mawrth 2017**

chi'n ymwybodol bod y system yma wedi cael ei threialu fanna, ac nid ydw i wedi'i weld e fel *issue*. Rydw i'n gwybod ei fod e wedi cael ei godi felly.”³⁷

95. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd ei fod yn fodlon ar y trefniadau yn y Bil ac nad oedd yn cytuno ag awgrym y Comisiynydd Plant mai awdurdodau lleol a ddylai fod yn bennaf gyfrifol am bob CDU:

“Rydw i'n credu y buasai hynny'n newid y cydbwysedd yn ormodol i ffwrdd o ysgolion ac nid ydw i'n meddwl bod angen gwneud hynny. Nid ydw i'n gweld tystiolaeth bod angen symud y cydbwysedd felly.. (...)”

Rydw i'n fodlon gyda'r sefyllfa bresennol, fod gan ysgolion y cyfrifoldeb o gynllunio darpariaeth. Rydw i yn meddwl mai dyna'r ffordd gorau i'w wneud ef. Nid ydw i eisiau gweld yr awdurdodau lleol yn cymryd yr holl gyfrifoldeb i ffwrdd o'r ysgolion. Rydw i'n credu y buasai hynny yn newid y cydbwysedd sydd gyda ni ar hyn o bryd rhwng athrawon, ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac eraill sydd eu hangen.”³⁸

96. Pan ofynnwyd iddynt am y dewisiadau sydd ar gael i awdurdodau lleol os byddant yn teimlo nad yw sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyfran briodol o achosion ADY, atebodd y Gweinidog:

“Mae'n bosibl i wneud rheoliadau o dan adran 34 i alluogi hynny i ddigwydd pan fod angen iddo ddigwydd, ond buasai'n well gen i fod gennym ffordd o weithredu ar draws y sectorau sydd yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y gwahanol sectorau a sefydliadau. Wrth gwrs, ble mae pobl yn meddwl nad ydynt yn cael y fath o degwch sydd ei angen arnyn nhw, mae ganddyn nhw yr hawl i fynd i dribiwnlys, a hefyd os nad yw'r system ei hun yn gweithio - a dyma rwy'n credu yw craidd eich cwestiwn- mae gen i wrth gwrs, fel Gweinidog, yr hawl i ymyrryd.”³⁹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

97. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod y Bil yn creu ansicrwydd o ran y cyfrifoldeb am Gynlluniau Datblygu Unigol. Er bod yr Aelodau'n gyffredinol fodlon bod adran 10(2)(a) o'r Bil wedi'i ddrafftio'n briodol, roeddent yn cytuno y gellid cryfhau'r Cod er mwyn cynnig rhagor o eglurder ynghylch y mater hwn. Yn benodol, gallai fod mwy o eglurder ynghylch yr amgylchiadau pan fydd corff llywodraethu ysgol neu goleg yn hytrach na'r awdurdod lleol yn gyfrifol am CDU.

98. Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw'r Bil yn ddigon clir am yr hyn a fydd yn digwydd pe na bai awdurdod lleol a SAB yn cytuno pwy oedd yn gyfrifol am CDU dysgwr. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw Sefydliadau Addysg Bellach o dan reolaeth awdurdodau lleol, mae'n pryderu am y diffyg cyfarwyddiadau neu gyfarwyddyd y gallai awdurdodau lleol eu cynnig i sefydliad addysg bellach ac y gallai hyn arwain at sefyllfa lle y gallai sefydliad addysg bellach gyfeirio achos at yr awdurdod lleol, ond na fyddai gan yr awdurdod lleol bŵer i'w gyfeirio yn ôl petai'n meddwl bod hynny'n briodol.

99. Mae'r Pwyllgor yn croesawu barn y Gweinidog sef, lle na fydd sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyfran briodol o achosion ADY, y bydd ganddo'r pŵer i ymyrryd o dan adran

³⁷ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

³⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

³⁹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

34 o'r Bil, sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â throsglwyddo CDU. Nid yw'n glir, fodd bynnag, pa bryd y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn eto, gan egluro o dan ba amgylchiadau y byddai'r pwerau hynny'n cael eu defnyddio.

100. Ochr yn ochr â'r pwerau yn adran 34, ystyriodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ddulliau eraill a gallai awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru eu defnyddio i ymyrryd lle na fyddai sefydliad addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am CDU, ac a ellid ychwanegu amodau ariannu at y cynnig grant y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i sefydliadau addysg bellach at y diben hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod memorandwm ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg bellach yn nodi amodau'r grantiau a'r egwyddorion rheolaeth ariannol y mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn y cyllid eu dilyn. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cynnig grant a dogfen amodau cyllido i sefydliadau addysg bellach yn fuan ar ôl rhoi gwybod iddynt am eu dyraniadau. Bydd hwn yn dweud pa ddarpariaeth addysgol y bydd gofyn i'r sefydliad addysg bellach ei chynnig yn gyfnewid am yr arian hwnnw.

101. Mae'r amodau hyn ar lefel gymharol uchel ac nid yw'n glir sut y gellid defnyddio'r amodau hyn i gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros achosion ADY. Nid yw'n glir ychwaith sut y byddai defnyddio amodau o'r fath yn effeithio ar gategoreiddio sefydliadau addysg bellach gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio amodau arian grant i sicrhau bod sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros CDU os tybir bod hynny'n briodol.

102. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2002, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau os bydd corff llywodraethu sefydliad addysg bellach naill ai heb lwyddo i gyflawni unrhyw ddyletswydd a osodwyd ar ei gyfer drwy Ddeddf Cynulliad, neu'n gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol gyda golwg ag arfer unrhyw bŵer neu gyflawni unrhyw ddyletswydd a orfodir o dan Ddeddf Cynulliad.

103. Roedd y Pwyllgor, yn yr un modd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn poeni y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ysgwyddo mwy o Gynlluniau Datblygu Unigol na'r hyn a ragwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac ystyried lefel yr achosion a gyfeirid gan ysgolion neu lle y byddai rhieni'n gofyn i'r awdurdod lleol ymyrryd yn unol ag adran 26 o'r Bil. Gallai hyn fod yn arwyddocaol iawn gan y gallai achosi mwy o oblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol nag a ragwelir. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog adolygu hyn o fewn 12 mis i gyflwyno'r system newydd yn llawn er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol o ran pwy sy'n gyfrifol am CDU.

104. Ystyriodd y Pwyllgor yn ofalus yr awgrym gan y Comisiynydd Plant y dylai'r brif ddyletswydd ar gyfer pob CDU fod yn nwylo'r awdurdod lleol ym mhob achos. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod rhanddeiliaid eraill o blaid hyn, teimlid na fyddai hyn yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol ac ysgolion neu golegau yn y drefn honno.

105. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried cyfraniad Seicolegwyr Addysg o dan y fframwaith newydd a sefydlir gan y Bil. Roedd y Pwyllgor yn poeni am awgrym Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg y gallai fod gan blant a phobl ifanc lai o hawliau nag a fu ganddynt ers Deddf Addysg 1981, sydd wedi rhoi'r hawl benodol iddynt fanteisio ar y proffesiwn arbenigol hwnnw.

106. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog ystyried a oes angen i'r Cod gynnwys cyfeiriad mwy penodol at gyfraniad SA ac a ddylid cryfhau'r Cod i roi dyletswydd ar ysgolion i geisio cyngor seicolegydd addysg mewn achosion cymhleth neu cyn iddynt gyfeirio unrhyw achos at yr awdurdod lleol. Rydym yn gwybod y gellid dadlau mewn ffordd debyg am weithwyr proffesiynol eraill megis

Therapyddion Lleferydd a Iaith a Therapyddion Galwedigaethol. Serch hynny, rydym wedi sôn yn benodol am SA oherwydd bod y Cod drafft yn cyfeirio'n benodol at eu rôl yn cynghori am achosion lle nad oes sicrwydd pwy ddylai fod yn gyfrifol.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gryfhau'r Cod er mwyn cynnig mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol. Yn benodol, dylai fod mwy o eglurder ynghylch o dan ba amgylchiadau y bydd awdurdod lleol yn hytrach na'r corff llywodraethu yn gyfrifol am CDU.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ystyried ymhellach y diffyg darpariaeth yn y Bil i awdurdodau lleol gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog egluro yn ystod dadl Cyfnod 1 sut ac o dan ba amgylchiadau y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 34 o'r Bil a / neu bwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2002.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio amodau arian grant i sicrhau bod sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros CDU lle ystyrir bod hynny'n briodol.

Argymhelliad 10. O fewn deuddeng mis i gyflwyno'r system newydd yn llawn, dylai'r Gweinidog adolygu lefel y CDU sy'n gyfrifoldeb, neu sy'n dod yn gyfrifoldeb, i awdurdod lleol, gan gynnwys yr effaith ar adnoddau'r awdurdod lleol, er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o ran pwy sy'n gyfrifol am CDU.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ystyried a oes angen i'r Cod gynnwys cyfeiriad mwy penodol at gyfraniad seicolegwyr addysg ac a ddylid cryfhau'r Bil neu'r Cod i roi dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i geisio cyngor seicolegydd addysg cyn cyfeirio achos at yr awdurdod lleol.

07. Templed ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol

Y cefndir a safbwynt y Bil

107. Mae Pennod 11 o'r Cod drafft yn rhoi manylion y cynnwys y bydd yn rhaid ei gynnwys mewn CDU. Er nad yw'r Cod yn mynd cyn belled â darparu templed, nid yw'r manylion sydd ynddo ymhell iawn o fod yn dempled. Mae'r Cod drafft hefyd yn dweud y bwriedir i CDU fod yn ddogfen hyblyg ond mae'n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol. O safbwynt ymarferol, bydd yn rhaid i CDU gofnodi pa ADY sydd gan y dysgwr a pha ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Y penawdau a'r cynnwys sy'n orfodol mewn CDU, ac sy'n ofynnol o dan y Cod drafft yw:

- Cyfrifoldeb am y CDU
- Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol;
- Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc,
- Cofnodi'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU;
- Disgrifiad o ADY y plentyn neu'r person ifanc;
- Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc;
- Deiliannau arfaethedig;
- Adran i gofnodi unrhyw drefniadau ar gyfer trosglwyddo;
- Rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed;
- Amserlen o ddigwyddiadau allweddol ym mywyd y dysgwr; a
- Llofnodion y plentyn neu'r person ifanc a / neu eu rhiant (rhieni), yn ogystal â'r sawl sy'n gyfrifol am gydlynw'r CDU.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

108. Roedd cytundeb bron yn unfrydol yn y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar y dylid cael templed cenedlaethol i Gymru gyfan ar gyfer y CDU, a fyddai'n elfen hollbwysig o wella safon y gefnogaeth. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd yn y trafodaethau yn nigwyddiad y Pwyllgor i rhanddeiliaid a'r digwyddiad gyda rhieni a gofawyr a drefnwyd gyda SNAP Cymru.

109. Mae rhanddeiliaid yn credu y byddai defnyddio templed yn sicrhau cysondeb ledled Cymru a phetai dysgwr ag ADY yn symud o un awdurdod lleol i un arall, byddai modd iddo fynd â'i CDU gydag ef. Byddai hefyd yn help i sicrhau cysondeb rhwng gwahanol oeddrannau a chyfnodau allweddol. Byddai defnyddio templed hefyd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y sector iechyd, oherwydd bydd bwrdd iechyd lleol fel rheol yn gweithio ar draws ardaloedd nifer o awdurdodau lleol ac felly byddai'r cysondeb yn sgil defnyddio templed o fudd. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai hefyd yn help i bobl ddilyn y system newydd gan ei gwneud yn haws o lawer cyflwyno CDU.

110. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd nad yw defnyddio templed o reidrwydd yn golygu dilyn dull 'un maint i bawb', gan awgrymu y dylai cynnwys CDU fod yn bersonol ac wedi'i deilwra i'r dysgwr unigol ond o fewn templed safonol.

111. Awgrymodd Estyn y byddai cael templed CDU cyffredin yn help wrth ddatblygu'r gweithlu yn y maes hwn. Dywedodd:

“We think that a common IDP template would be helpful. It will help ensure consistency. It will be supportive, so people know that whichever school they’re working in, and whichever local authority, that it’s the same template as they used before. So, I think some of those factors that have been thought through at this point, I think we would think will be supportive.”⁴⁰

Cludiant

112. Clywodd y Pwyllgor rywfaint o dystiolaeth am yr effaith y gall anghenion dysgu teithwyr ei chael ar ofynion cludiant dysgwyr, gan gynnwys sut y gellid ystyried hyn yn rhan o CDU. Rhoddodd yr NUT enghraifft o ddysgwr ag awtistiaeth a allai gael anhawster gydag amserlenni bysiau a thrin arian, gan awgrymu y byddai angen i’r awdurdod lleol drefnu tacsï i’w gludo i’r ysgol.⁴¹ Soniwyd hefyd petai angen i ddysgwr fynd i ysgol arbennig, yna y dylai’r awdurdod lleol dalu am gludiant oherwydd mai dyna fyddai’r ysgol addas agosaf i’w cartref, sef y prawf o dan Fesur Teithio i Ddysgwyr (Cymru) 2008.

113. Cyfeiriodd rhanddeiliaid a oedd yn ymgyrchu i anghenion meddygol gael sylw mwy penodol yn y Bil at gludiant yn y cyd-destun ehangach hwn. Dywedodd Diabetes UK wrth y Pwyllgor:

“Even just taking part in the normal school day; even the school bus, the school transport. There are issues at every stage, unfortunately.”⁴²

114. Soniodd y Dr Justin Warner, paediatregydd a diabetolegydd o Goleg Brenhinol Pediatrig a Iechyd Plant am y peryglon i ddisgyblion â chyflyrau meddygol penodol yn ystod y daith o’u cartref i’r ysgol:

“A child with diabetes, wherever they are—at home or at school, or on a school bus—are at risk of acute complications, one of those being low blood sugars. Without urgent action, it results in that child having a seizure, being taken to hospital and being excluded then from that school day. And quite the reverse: if they’ve got high blood sugar, their inability to concentrate. So, access to proper school transport, where they are being looked after during that period of time—it may only be 15 to 20 minutes, but it’s vitally important.”⁴³

115. Cafwyd enghraifft debyg gan yr Ymgyrch Anaffylacsis gan grynhoi barn rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth am anghenion meddygol y dylai cludiant i’r ysgol gael ei gynnwys mewn CDU:

“It’s the same for anaphylaxis. In fact, we’ve had parents who’ve had to take their children out of school because there isn’t adequate home-to-school transport, because there isn’t anyone trained on that transport to administer the adrenaline in case of an emergency. And whilst the risk is low, it relies on the child not eating anything, or not taking the risk, and you can’t rely on a child, a young child, to take that level of risk. So, it’s a difficult one with home-to-school transport. Ideally, it would be fantastic if it was covered, because even if the school have got it perfectly right, and the child is perfectly adequately cared for

⁴⁰ Tystiolaeth Lafar, Estyn, **8 Mawrth 2017**

⁴¹ Tystiolaeth Lafar, NUT, **8 Mawrth 2017**

⁴² Tystiolaeth Lafar, Diabetes UK, **16 Mawrth 2017**

⁴³ Tystiolaeth Lafar, Dr Justin Warner, **16 Mawrth 2017**

in school, getting to and from the school can actually be the obstacle that stops them going to school.”⁴⁴

116. Ychwanegodd Diabetes UK:

“That would be massively helpful, definitely. I try and help the parents by using the learner travel Measure in Wales, and there’s a very, very brief reference to disability in it, which isn’t medical conditions management, but that’s the nearest thing. But it’s inadequate—it doesn’t help me at all in assisting families.”⁴⁵

117. Serch hynny, cyfeiriodd CLILC a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (CCAC) at y trefniadau ar wahân sydd ar waith ar gyfer cludiant o’r cartref i’r ysgol. Dywedodd Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg Sir Gâr, gan gynrychioli CCAC, wrth y Pwyllgor:

“I think there’s other legislation about home-to-school transport, which hopefully will cover that requirement. We have systems and processes in place where, if the child has some special needs and they do need that, they do get that transport. I’m not concerned about that; I think the current legislation we have does cover that, from my personal view.”⁴⁶

118. Byddai angen mynd i’r afael â rhai o’r problemau sy’n wynebu plant a phobl ifanc wrth eu cludo i’r ysgol yn berthnasol i gyflyrau meddygol nad ydynt o anghenraid o fewn cwrpas ADY drwy’r canllawiau Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae’r canllawiau’n dweud:

“Er enghraifft, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol drefnu cludiant o’r cartref i’r ysgol ar gyfer dysgwr, neu ddarparu hebryngwyr sydd wedi eu hyfforddi’n briodol ar gyfer teithiau o’r fath i hwyluso presenoldeb dysgwr.”⁴⁷

Ymateb y Gweinidog

119. Yn y Cod drafft, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn ystyried creu templed safonol ar gyfer CDU yn ogystal â’r posibilrwydd o CDU electronig.

120. Yn ei dystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Gweinidog at y gofynion presennol ar gyfer cynnwys gwybodaeth mewn CDU, sydd hefyd yn cael eu rhagnodi yn y Cod drafft, gan ddangos bod y templed yno mewn gwirionedd i bob pwrpas. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn agored i fynd gam ymhellach a’r syniad o greu templed Cymru gyfan ar gyfer CDU, cyn belled â’i fod cynnig digon o hyblygrwydd. Dywedodd:

“Rwyf yn agored i ystyried hynny. Nid wyf yn meddwl ei fod yn syniad gwael. Beth rwyf yn awyddus i sicrhau yw bod yna ddigon o hyblygrwydd mewn unrhyw fath o dempled rydym yn ei ddewis i alluogi’r arbenigwyr yma, neu bwy bynnag sy’n delio â hynny, si sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn ei hun ac nad ydym yn mynd drwy ryw broses o dicio bocsys. Rwyf yn

⁴⁴ Tystiolaeth Lafar, Ymgyrch Anaffylacsis, **16 Mawrth 2017**

⁴⁵ Tystiolaeth Lafar, Diabetes UK, **16 Mawrth 2017**

⁴⁶ Tystiolaeth Lafar, CLILC, **2 Mawrth 2017**

⁴⁷ Cefnogi dysgwyr gydag angheion gofal iechyd

awyddus iawn i sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd, ond nid wyf yn anghytuno â beth sydd wedi cael ei ddweud wrth y pwyllgor aboutu cael dempled.”⁴⁸

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

121. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn helaeth yn ystod Cyfnod 1 y gwaith craffu y dylid cael templed cenedlaethol Cymru gyfan ar gyfer CDU. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn help i sicrhau cysondeb ar draws Cymru ac y byddai modd i ddysgwr sydd ag ADY ac sy'n symud o ardal un awdurdod lleol i un arall fynd â'i gynllun gydag ef. Byddai hefyd yn help i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol oedrannau a chyfnodau allweddol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno hefyd y byddai defnyddio templed yn arbennig o ddefnyddiol i'r sector iechyd.

122. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai unrhyw dempled ar gyfer CDU gael ei seilio ar fformat safonol, ond dylai fod yn bersonol ac wedi'i deilwra ar gyfer y dysgwr unigol. Ni ddylai ddod yn ymarfer ticio blychau.

123. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol, o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion dysgwyr anabl a dysgwyr ag anawsterau dysgu, a chyhoeddi eu polisi cludiant ar gyfer y dysgwyr hynny. Bydd dysgwr sydd ag ADY mewn addysg orfodol yn gymwys i gael teithio am ddim neu i gael trefniadau cludiant yn cael ei asesu o dan y Bil a bydd yn amrywio a dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Nid oes ddyletswydd ar hyn o bryd i ddarparu cludiant am ddim neu gymorth gyda threfniadau cludiant i ddysgwyr meithrin na dysgwyr ôl-16. Er bod cyfeiriad at gludiant o'r cartref i'r ysgol eisoes wedi'i gynnwys yn y Cod drafft, nid yw'n dweud dim am sut yr ymdrinnir â materion cludiant.

124. Mae'r Pwyllgor yn poeni nad oes digon o ystyriaeth wedi bod i faterion ynghylch cludiant wrth ddatblygu'r Bil ac nad yw'n glir sut ac ymhle y bydd cludiant yn cael ei ystyried yn rhan o broses y CDU.

125. Er bod y Pwyllgor yn sylweddoli na fyddai anghenion teithio dysgwyr ar hyn o bryd yn rhan o CDU oni fydda'r Bil yn cael ei ddiwygio, mae'n credu y byddai'n ddymunol i Lywodraeth Cymru ystyried eto sut y gellid cynnwys teithio er mwyn i'r dysgwr fynychu'r ysgol neu'r SAB sydd fwyaf priodol ar ei gyfer ac sy'n diwallu ei anghenion orau.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ddatblygu templed Cymru gyfan ar gyfer CDU ar fformat safonol ond gan ganiatáu ar gyfer cynnwys personol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cynnwys anghenion teithio dysgwyr mewn CDU.

⁴⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

08. Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y cefndir a safbwynt y Bil

126. Mae Adran 54 o'r Bil yn mynnu bod gan bob ysgol a gynhelir yn y brif ffrwd, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY). Mae ysgolion arbennig yn cael eu heithrio o'r gofyniad hwn oherwydd disgwylir i bob aelod o'r staff yn yr ysgolion hyn rhain fod yn canolbwyntio ar ADY. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hanfodol dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) ym mhob lleoliad (neu grŵp o leoliadau) er mwyn sicrhau cysondeb a safonau uchel drwy gyfrwng gwaith cydlynu a chynllunio effeithiol.

127. Bydd swydd y Cydlynnydd ADY yn disodli rôl bresennol anstatudol Cydlynwyr AAA, sydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn cael ei dehongli'n wahanol o'r naill leoliad ac awdurdod i'r llall. Mae Adran 54 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r cymwysterau a / neu'r profiad y mae'n rhaid i bobl feddu arnynt er mwyn bod yn Gydlynnydd ADY. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd yn ofynnol i Gydlynwyr ADY feddu ar gymhwyster Meistr. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n dod gyda'r Bil yn dweud, er mwyn cefnogi ymarferwyr addysgu mewn lleoliadau addysg, y datblygir cymhwyster ar lefel Meistr i'w defnyddio gan Gydlynwyr AAA presennol (a Chydlynwyr ADY yn y dyfodol).⁴⁹

Tystiolaeth rhanddeiliaid

128. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gynigiodd sylwadau am Gydlynwyr ADY yn credu y dylid gweld y rôl yn rhan o dîm uwch reolwyr yr ysgol. Roeddent hefyd yn tueddu i gredu ei bod yn bwysicach bod Gydlynwyr ADY yn aelodau o'r tîm uwch reolwyr nag iddynt feddu ar gymhwyster Meistr.

129. Dadl awdurdod lleol Conwy oedd bod angen ymagwedd ysgol gyfan ac roedd yn amheus ynghylch model yr arbenigwr yn yr ysgol ar gyfer y Cydlynnydd ADY. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig Conwy, roedd y cymhwyster Meistr i bob golwg yn gynnig costus nad oes dim tystiolaeth i'w gefnogi ar hyn o bryd.

130. Ar y cyfan, mae llawer o randdeiliaid wedi bod yn amheus ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i wneud cymhwyster Meistr yn ofynnol ar gyfer y rôl. Nododd Cyngor Sir Wrecsam y byddai ysgolion bach yn straffaglu i sicrhau bod gan eu Cydlynwyr ADY gymhwyster Meistr, ond roedd yn cytuno â'r egwyddor o sicrhau hyfforddiant a chymwysterau i Gydlynwyr ADY. Roedd yn argymhell na fyddai angen i'r cymhwyster sydd ei angen fod ar lefel Meistr, ond y gallai fod yn fodiwl ar y lefel hon. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn teimlo mai cymwysterau Meistr yw'r llwybr cywir, gan ddweud:

“Not all school staff currently in a SENCo or SENCo type role are necessarily Qualified Teacher Status (QTS). This would be a major cost implication for schools in addition to workforce implications... There is recognition that although training is necessary for the ANLCos we do not feel that a Masters qualification is necessarily the right pathway.”⁵⁰

131. Roedd Rhondda Cynon Taf yn croesawu hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr ADY ond roeddent yn credu y byddai gwneud cymhwyster Meistr yn ofynnol yn achosi problemau o ran recriwtio, costau i

⁴⁹ Memorandwm Esboniadol

⁵⁰ Tystiolaeth Lafar / Ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, [ALN12](#)

ysgolion a throsiant staff. Roedd tystiolaeth hefyd yn awgrymu gallai fod problemau o ran recriwtio digon o Gydlynwyr ADY, yn enwedig os bydd gofyn iddynt gael cymhwyster Meistr. Roedd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Annibynnol ac Ysgolion Arbennig Nas Cynhelir yn honni bod eu profiad yn Lloegr yn peri iddynt deimlo'n ansicr ynglŷn ag a fydd modd darparu digon o nifer o Gydlynwyr ADY â'r cymwysterau priodol o fewn amserlen dderbyniol.

Ymateb y Gweinidog

132. Cadarnhaodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw ei gwneud yn ofynnol i Gydlynwyr ADY feddu ar gymhwyster Meistr. Fodd bynnag, awgrymodd mai dyhead tymor hir oedd hwn ac ni fyddai o reidrwydd yn atal y rheini nad oes ganddynt radd Meistr ond sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad addas rhag cyflawni'r rôl. Dywedodd:

“We don't expect that to be overnight, of course. We don't anticipate that the Bill receives Royal Assent on Monday and all ALNCOs will have a Master's on Tuesday. That's not our intention. Clearly, we would need to implement this in a way that is sensible and which takes account of the time needs of the workforce and we will need to plan it. (...)

I think it would be an appalling arrogance for me to assume that that experience doesn't exist because somebody doesn't have a Master's degree. I think that would be an appalling assumption to make. We value the experience and the knowledge of the workforce. We are working with the workforce, I hope, sufficiently well to ensure that we do have a graduated approach that recognises and respects the expertise and the experience that already exists in the workforce, and that we move over a reasonable period of time to a situation whereby we have these qualifications and this qualification structure in place. But it's not something that's going to happen overnight; it's something that will happen with the workforce and not to the workforce. It is something that we will ensure respects, appreciates and values the knowledge and expertise that already exists.”⁵¹

Gwybodaeth Ychwanegol

133. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad hwyr gan Bennaeth ysgol arbennig ynglŷn â dynodi Cydlynwyr ADY mewn ysgolion arbennig. Mae'r cyflwyniad yn dweud, ar ôl cynhadledd Cymru gyfan ddiweddar i Bennaethiaid Ysgolion Arbennig, gofynnwyd am farn Penaethiaid am safle'r Cydlynwyr ADY mewn Ysgolion Arbennig. Mae'r cyflwyniad yn dweud hefyd fod y rhan fwyaf helaeth o bennaethiaid Ysgolion Arbennig a ymatebodd i hyn, neu a ddaeth i gynhadledd Cymru Gyfan Penaethiaid Ysgolion Arbennig, yn dymuno cael Cydlynwyr ADY mewn Ysgolion Arbennig. Dyma'r prif resymau a roddwyd am hyn:

- Y prif reswm oedd y ddadl ynghylch cynhwysiant oherwydd y byddent am fod yr un fath â phob sector arall yng Nghymru.
- Roeddent hefyd yn teimlo y byddent am allu manteisio ar y cyllid ar gyfer hyfforddiant.
- Nid oeddent am rwystro'u staff rhag dilyn llwybr gwahanol at y tîm arwain.

⁵¹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

- Teimlai rhai mai cyfrifoldeb o fath cydlynnydd oedd hwn ac y gallai fod yn wahanol fath o gydlynnydd ADY mewn Ysgol Arbennig.
- Roeddent hefyd am allu mynd i gyfarfodydd Cydlynwyr ADY yn y brif ffrwd fel cynrychiolydd cydradd.
- Roeddent yn teimlo y gallai Cydlynwyr ADY weithio ar draws Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

134. Roedd y cyflwyniad yn dweud hefyd mai pwyntiau trafod oedd yr uchod i gyd, oherwydd bod yr Ysgolion Arbennig a oedd yn erbyn cael Cydlynnydd ADY dynodedig i gyd yn teimlo'u bod yn cyflawni'r rôl hon eu hunain fel Penaethiaid.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

135. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol y bydd Cydlynwyr AAA yn ei chwarae yn y system AAA bresennol, ac mae'n croesawu'r bwriad o gyflwyno rôl y Cydlynnydd ADY ar sail statudol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei bod yn hanfodol dynodi Cydlynnydd AAA ym mhob lleoliad i sicrhau cysondeb a safonau uchel trwy gydlynw a chynllunio effeithiol.

136. Mae'r Pwyllgor yn croesawu dyheadau'r Gweinidog o ran ceisio sicrhau bod Cydlynwyr ADY yn gymwys hyd at lefel Meistr, ond mae'n poeni y gallai hyn arwain at golli pobl hynod fedrus a phrofiadol sy'n gweithio fel Cydlynwyr AAA ar hyn o bryd nad oes ganddynt radd meistr ac na fyddant o bosibl yn ennill cymhwyster o'r fath yn y dyfodol. Nid yw'r yw gofynion ynghylch cymwysterau wedi'u cynnwys yn y Bil ei hun ond bydd gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud rheoliadau yn eu cylch. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai cymhwyster Meistr fod yn ddymunol yn hytrach nag yn ofynnol i Gydlynwyr ADY, gan alluogi'r rheiny sydd heb gymhwyster o'r fath i weithio, neu i barhau i weithio, yn y rôl honno.

137. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y byddai'n ddymunol ystyried cymwysterau neu setiau sgiliau eraill, ar lefel debyg i gymhwyster Meistr, yn ofniad priodol ar gyfer Cydlynnydd ADY. Gallai hyn annog pobl o wahanol broffesiynau i wneud cais am fod yn Gydlynwyr ADY.

138. Mae'r Pwyllgor hefyd yn poeni y gallai rôl ehangach y Cydlynnydd ADY, effeithio ar y llwyth gwaith, gan arwain at oblygiadau o ran adnoddau a chapasiti. Yn ogystal â hyn, gallai fod yn fwy anodd cynnal adnoddau a chapasiti petai gofyn cael cymhwyster Meistr. Gallai'r problemau hyn achosi problemau penodol mewn ysgolion llai, lle bydd Cydlynnydd ADY yn aml yn gwasanaethu mwy nag un lleoliad. Mae'r Pwyllgor, felly, yn credu y dylai'r Gweinidog adolygu effaith rôl newydd y Cydlynnydd ADY ar adnoddau a chapasiti o fewn 12 mis ar ôl cyflwyno'r system newydd yn ei chyfanrwydd.

139. O ran y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd am Gydlynwyr ADY mewn ysgolion arbennig, ni allai'r Pwyllgor ei hystyried yn llawn oherwydd iddi gyrraedd yn hwyr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio, ers ystyried y Bil drafft, fod ysgolion arbennig wedi'u tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y byddai'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynnydd ADY yn berthnasol iddynt. Mae'r ME yn dweud bod y penderfyniad hwn i bob golwg wedi'i wneud ar y sail bod yr holl staff mewn ysgolion arbennig yn athrawon ADY arbenigol ac yn gydlynwyr DdY. Serch hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu esboniad pellach gan y Gweinidog am y rheswm dros dynnu ysgolion arbennig oddi ar y rhestr, yn enwedig ac ystyried y pryderon a fynegwyd yn y cyflwyniad hwyr.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ailystyried ei ymagwedd tuag at gymwysterau ar gyfer Cydlynwyr ADY, a'i gwneud hi'n glir wrth symud ymlaen, y dylai cymhwyster Meistr fod yn ddymunol yn hytrach nag yn ofynnol.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ystyried a fyddai'n ddymunol ystyried bod cymwysterau a setiau sgiliau eraill, ar lefel debyg i gymhwyster Meistr, yn briodol ar gyfer Cydlynnydd ADY.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog adolygu effaith rôl newydd y Cydlynnydd ADY ar adnoddau a chapasiti o fewn 12 mis ar ôl cyflwyno'r system newydd yn ei chyfanrwydd.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog roi esboniad pellach ynglŷn â pham mae ysgolion arbennig wedi'u tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y byddai'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynnydd ADY ar eu cyfer yn berthnasol iddynt.

09. Y blynyddoedd cynnar

Y cefndir a safbwynt y Bil

140. Un o nodau craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yw sefydlu un system ar gyfer pawb rhwng 0-25, sy'n adnabod ADY plentyn o'r crud ac yn darparu ar eu cyfer.

141. Mae'r diffiniad o ADY fymryn yn wahanol ar gyfer plentyn o dan 3 oed. Tybir bod gan blentyn ADY os bydd ei anhawster neu ei anabledd dysgu'n golygu bod angen darparu addysg o unrhyw fath ar eu cyfer. Mae hyn yn cydnabod na fydd plant o dan 3 oed fel rheol yn defnyddio darpariaeth addysg. (Y prawf ar gyfer plant 3 oed a hŷn yw ei bod yn rhaid iddynt fod ag angen addysg sy'n ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei darparu'n gyffredinol ar gyfer plant eraill o'r un oed neu'n wahanol i'r ddarpariaeth honno.)

142. Y diffyg manylder a'r diffyg o ran cynnwys sector y blynyddoedd cynnar oedd un feirniadaeth ar y Bil drafft. Estynnodd Llywodraeth Cymru'r dyletswyddau yr oedd y Bil drafft yn eu gosod ar gyfer ysgolion meithrin a gynhelir gyda golwg ar ADY i ddarparwyr nas cynhelir hefyd, ond dim ond lle y bydd y rhain yn cael arian gan lywodraeth leol ar gyfer lleoedd meithrin. Mae darparwyr o'r fath felly'n cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Cod ADY. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr annibynnol nad ydynt yn cael arian gan y wladwriaeth gydymffurfio â'r Cod.

143. Mae Pennod 7.1 y Cod drafft yn rhoi manylion sut y dylid adnabod ADY plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir. Mae Pennod 9.1 yn cynnwys dyletswyddau ar awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY a sut mae paratoi CDU.

Adran 57 - Atgyfeirio o'r maes iechyd

144. Oherwydd na fydd gwasanaethau addysg fel rheol yn ymwneud â phlentyn yn y blynyddoedd cynnar, mae'r Bil yn rhoi rôl benodol i gyrff iechyd adnabod ADY. Mae adran 57 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd hysbysu rhieni'r plentyn os byddant yn meddwl bod gan blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY neu fod ganddo anghenion o'r fath yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi'r disgrisiwn i gyrff iechyd ddod â hyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol os ydynt yn fodlon bod hyn er lles gorau'r plentyn. Rhaid i awdurdodau lleol wedyn benderfynu a oes gan y plentyn ADY oni fydd eithriadau penodol. Mae'r Cod drafft (para 7.1.33) yn dweud y caiff cyrff iechyd ddarparu gwasanaethau diagnostig a chymorth o fath arall os bydd CDU yn cael ei baratoi wedyn.

145. Mae hyn yn newid y sefyllfa gyfreithiol bresennol. Fel y dogfennwyd ym mharagraff 4.36 o'r Cod Ymarfer AAA presennol, o dan adran 332 o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i gyrff iechyd hysbysu'r awdurdod lleol priodol, yn ogystal â'r rhiant (rhieni) lle byddant yn llunio'r farn bod gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol AAA.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

146. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a oedd yn sôn am sut mae'r Bil yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar yn credu bod diffyg ffocws ar yr oedran cyn-ysgol a diffyg manylion ynghylch hyn. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau am bobl ifanc ôl-16 (gweler Pennod 10) gyda llawer o rhanddeiliaid yn teimlo bod y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar blant o oedran ysgol.

147. Clywyd ystod eang o safbwyntiau am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar yn ystod yr amrywiol ymarferion casglu dystiolaeth a gynhaliwyd gan y Pwyllgor. Dyma grynodedeb o farn y rhanddeiliaid:

- Mae'r ffordd mae'r Bil yn diffinio ADY yn ei dehongli'n unig yng nghyd-destun yr hyn a ddisgwylir gan blant pan fyddant yn cyrraedd yr oedran ysgol. Diffiniad cul o ddysgu y hwn nad yw'n cydnabod sut y bydd plant bach yn datblygu. Drwy seilio'r diffiniad o ADY ar gyd-destun addysg ffurfiol, mae risg y gall anghenion y plant o ran cael eu hysgogi, eu hannog a'u rhyngweithio cymdeithasol (hanfodol yn natblygiad ymennydd plant ifanc) gael eu hanwybyddu neu eu hanghofio (gweler hefyd Bennod 4 – Diffinio ADY)
- Dylai'r diffiniad o ADY yn y blynyddoedd cynnar gyfeirio'n benodol at ddatblygiad plant yn ogystal ag at addysg / dysgu.
- Mae perygl na fydd y Bil yn caniatáu i blant gael gafael ar gymorth ar gyfer eu datblygiad nad yw'n gwbl addysgiadol ei natur.
- Ychydig o gyfeirio sydd at leoliadau gofal plant nas cynhelir a'u swyddogaethau wrth ymdrin â phlant ag AAA.
- Bydd angen plentyn fel rheol yn cael ei adnabod yn gyntaf pan fydd yn mynychu meithrinfa ddydd neu gylch chwarae. Yn y Bil, nid yw'n glir beth fyddai'r llwybr atgyfeirio ar gyfer y plant hyn a pha gyfrifoldebau sydd ar y darparwyr gofal plant.
- Nid oes darpariaeth i alluogi gwasanaethau yn y blynyddoedd cynnar i gyfeirio plentyn yn uniongyrchol at yr awdurdod lleol i gael ei asesu os byddant yn tybio bod gan y plentyn ADY. Dylai fod gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal plant yr hawl i gyfeirio plentyn at yr awdurdod lleol am asesiad ar gyfer ADY.
- (dywed paragraff 7.1.35 o'r Cod drafft yn dweud y dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr eraill addysg feithrin a gofal plant fel eu bod hwythau hefyd yn gallu adnabod ADY ac adrodd yn eu cylch.)
- Nid yw rôl gweithwyr proffesiynol gofal plant a'r blynyddoedd cynnar wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Unigol yn glir. Er mai'r awdurdod lleol fydd yn ysgwyddo'r ddyletswydd, mae gwaith partneriaeth a dull cydgysylltiedig yn allweddol.
- Mae angen hybu hyfforddiant, gwybodaeth ac anghenion cymorth a dylai hynny fod ar gael ac yn hygyrch i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar ehangach, y tu hwnt i staff mewn ysgolion yn unig.
- Nid yw'r Bil i bob golwg yn darparu ar gyfer penodi Cydlynwyr ADY i weithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, dim ond mewn ysgolion a cholegau.

Adran 57 - Atgyfeirio o'r maes iechyd

148. Mae rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Estyn, wedi awgrymu y dylid cryfhau adran 57 i'w gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd roi gwybod bob tro i'r awdurdod lleol pan fydd yn amau bod gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY, gyhyd â bod hynny er lles y plentyn. Dangosodd Estyn fod awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i gynllunio'r ddarpariaeth pan fydd yr holl wybodaeth sydd ar gael ganddynt.

149. Dywedodd CLILC hefyd mai â'r gwasanaethau iechyd (ymwelwyr iechyd) y bydd plant yn yr ystod oedran 0-2 yn dod i gysylltiad yn bennaf. Felly, bydd gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldeb ond efallai na fyddant bob tro'n gwybod am ddysgwyr sydd ag angen eu cefnogaeth.

150. Pan ofynnwyd a ddylid disodli'r pŵer dewisol yn adran 57 â ddyletswydd, dywedodd Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor:

“I guess, if there’s any opportunity for local interpretation, then that does create weakness, doesn’t it? So, yes, essentially, I would agree with you, that that probably—. If it’s left discretionary, then there’s always that risk. Whether it’s resources or other issues that impact on that decision, then I suppose, potentially, it creates that risk, yes.”⁵²

151. Pan ofynnodd y Pwyllgor iddynt, ni allai'r un o gynrychiolwyr y tri bwrdd iechyd feddwl am ddim amgylchiadau pan na fyddai er lles pennaf y plentyn i gorff iechyd roi gwybod i'r awdurdod lleol pan fyddai'n poeni bod gan blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY.

Ymateb y Gweinidog

Y farn bod diffyg ffocws ar y blynyddoedd cynnar

152. Gwrthododd y Gweinidog y ddadl nad yw'r Bil yn canolbwyntio yn ddigonol ar y blynyddoedd cynnar:

“I’m not convinced by that evidence. This is a zero-to-25 Bill, and all its different sections should apply equally, but appropriately, to the entirety of that age range. If there are areas, parts or clauses of this Bill that the committee does not believe sufficiently address the needs of learners in those settings, I would be interested to hear. I’ve heard the comment made, but I haven’t seen any evidence that substantiates that comment.”⁵³

Adran 57 - atgyfeirio o'r maes iechyd

153. Cadarnhaodd y Gweinidog a'i swyddogion fod adran 57 o'r Bil yn newid y sefyllfa bresennol. Eglurodd cyfreithiwr Llywodraeth Cymru a oedd gyda'r Gweinidog wrth y Pwyllgor mai'r rheswm dros roi'r pŵer i gyrff iechyd hysbysu'r awdurdod lleol yn hytrach na'i gwneud yn ddyletswydd iddynt wneud hynny oedd er mwyn cynnwys camau diogelu rhag datgelu gwybodaeth feddygol.

154. Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn mai anaml ac annhebygol iawn y byddai'r sefyllfa'n codi lle na fyddai hysbysu'r awdurdod lleol er lles gorau'r plentyn. Roedd hefyd yn rhagweld na fyddai newid o ddyletswydd i hysbysu i ddisgresiwn i atgyfeirio yn ei gwneud yn llai tebygol y byddai cyrff iechyd yn tynnu sylw'r awdurdod lleol at achosion.

155. Nid yw'r Gweinidog na'i swyddogion wedi esbonio'n llawn pam mae angen newid y gyfraith o ddyletswydd i hysbysu i ddisgresiwn i gyfeirio, ac eithrio cyfeiriad byr at gyflwyno Deddf Hawliau Dynol 1998 ers gwneud y ddeddfwriaeth bresennol yn 1996. Fodd bynnag, mae adran 23 o Fesur Plant a Theuluoedd 2014 yn ei gwneud yn ofynnol yn Lloegr i gyrff iechyd ddwyn y mater i sylw awdurdodau lleol, sy'n codi cwestiwn ynghylch perthnasedd yr agwedd hawliau dynol.

156. Dywedodd y Gweinidog y gallai'r Cod gyhoeddi canllawiau pellach ar weithredu adran 57 ac y byddai'n ystyried hyn ymhellach ar ôl cwblhau gwaith craffu Cyfnod 1.

⁵² Tystiolaeth Lafar, Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan, [16 Mawrth 2017](#)

⁵³ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

157. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r pryderon eang a fynegwyd yn y dystiolaeth bod y ffordd mae ADY yn cael ei diffinio yn y Bil ar gyfer plant o dan yr oedran ysgol gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ystyried yr hyn a ddisgwylir gan blant ar ôl iddynt gyrraedd oedran ysgol, ac efallai na fydd hyn yn cydnabod sut y bydd babanod yn datblygu. Mae'r Pwyllgor yn poeni y gallai seilio'r diffiniad o ADY ar gyd-destun addysg ffurfiol, olygu bod anghenion y plant o ran eu hysgogi, eu hannog a'u rhyngweithio cymdeithasol gael eu hanwybyddu neu eu hanghofio.

158. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod ddweud yn glir bod angen i asesiadau ar gyfer ADY mewn perthynas â phlant o dan yr oedran ysgol gorfodol ystyried sut mae plant bach yn datblygu, gan gynnwys yr anghenion hyn.

159. Mewn perthynas ag Adran 57 o'r Bil, nid oedd y Pwyllgor yn derbyn esboniad y Gweinidog am pam mae'r Bil yn ceisio dileu'r gofyniad sydd ar gyrff iechyd ar hyn o bryd i ddwyn unrhyw bryder sydd ganddynt bod gan blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY at sylw'r awdurdodau lleol, gan ddisodli'r gofyniad hwnnw â phŵer dewisol. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog y gallai'r Cod gyhoeddi canllawiau pellach ar weithredu adran 57, ond mae'n credu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i osod dyletswydd ar gyrff iechyd yn y cyswllt hwn. Wrth gasglu hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r ddarpariaeth gyfatebol yn adran 23 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol yn Lloegr i gyrff iechyd ddwyn y mater i sylw awdurdodau lleol.

160. Roedd y Pwyllgor yn bryderus wrth glywed gan randdeiliaid sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar nad oes llwybr atgyfeirio clir ar gyfer gwarchodwyr plant a'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant pan fyddant yn poeni bod gan blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y gweithwyr proffesiynol hyn mewn sefyllfa dda i helpu i adnabod ADY ac mae angen mecanwaith clir a dealladwy iddynt gyfeirio achosion at awdurdodau lleol. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar gyrff iechyd i roi gwybod i rieni a phŵer i hysbysu'r rhieni am bryderon ond nid ar ddarparwyr y blynyddoedd cynnar. Mae'r Cod drafft (para 7.1.35) yn dweud y dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr er mwyn iddynt hwythau hefyd allu adnabod a chofnodi ADY ond mae hyn yn gofyn am fwy o fanylion ac ystyriaeth.

Argymhelliad 18. Dylai'r Cod nodi'n glir bod angen i asesiadau ar gyfer ADY mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol ystyried sut mae plant bach yn datblygu, gan gynnwys dysgu drwy chwarae, a'u hanghenion o ran cael eu hysgogi a'u hannog a rhyngweithio'n gymdeithasol.

Argymhelliad 19. Dylid diwygio Adran 57 o'r Bil i osod dyletswydd ar gyrff iechyd i dynnu sylw awdurdodau lleol at unrhyw bryder sydd ganddynt bod gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Argymhelliad 20. Dylai'r Bil neu'r Cod ddarparu llwybr clir i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar atgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch y ffaith y gall fod gan blentyn dan eu gofal ADY. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried unrhyw atgyfeiriadau mewn ffordd debyg i'r ffordd y byddant yn ymateb i atgyfeiriadau gan gyrff iechyd.

10. Ôl-16

Y cefndir a safbwynt y Bil

161. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer un system ADY newydd cyn-16 ac ôl-16, a fydd yn disodli'r systemau AAA ac AAD presennol.

162. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dros 16 oed nad ydynt yn yr ysgol yn cael ei nodi yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 (Deddf 2000), sy'n ymdrin â chynllunio ac ariannu addysg ôl-16. Deddfwriaeth ar wahân yw hon i'r ddeddfwriaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddiffinio AAA (Deddf Addysg 1996). Mae Deddf 2000 yn defnyddio'r term Anawsterau a/neu Anabledau Dysgu (AAD) yn hytrach nag AAA. Fodd bynnag, mae'r diffiniad yn ei hanfod yr un fath ag ar gyfer AAA.

163. Mae gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf 2000 i adnabod AAD dysgwyr 16-19 oed. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn drwy gcontractio Gyrfa Cymru i asesu dysgwyr â datganiadau AAA yn eu blwyddyn olaf o addysg orfodol. Canlyniad yr asesiad hwn yw adroddiad sy'n nodi anghenion addysg a hyfforddiant unigolyn, yr addysg neu'r hyfforddiant ôl-16 sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny, a'r ddarpariaeth sydd ei hangen. Gelwir yr adroddiad hwn yn Gynllun Dysgu a Sgiliau (CDS). Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i drefnu i asesu unrhyw ddysgwr o dan 25 oed, hyd yn oed os nad yw erioed wedi cael datganiad.

164. Os oes modd diwallu anghenion AAD dysgwr yn y brif ffrwd, bydd y sefydliad addysg bellach (SAB) yn darparu hyn drwy ddefnyddio rhan o'i gyllideb gyffredinol. Cyn 2015-16 gallent hefyd wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid atodol neu eithriadol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi yn sgil diwallu anghenion cymhleth, er bod y gyllideb hon wedyn wedi'i throsglwyddo i ddyraniadau i sefydliadau addysg bellach o dan y Fframwaith Cynllunio a Chyllido ôl-16 newydd. Pan fydd angen llety arbenigol neu breswyl ar ddysgwr, bydd Gyrfa Cymru yn paratoi ac yn cyflwyno cais unigol i Lywodraeth Cymru a fydd wedyn yn penderfynu ynghylch y cyllido, gan gynnwys unrhyw drafodaeth am gyllido ar y cyd ag awdurdodau lleol a/neu fyrddau iechyd.

165. Mae'r trefniadau ar gyfer AAD dysgwyr ôl-16 yn gymhleth ac wedi bod yn destun adolygu sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog a adroddodd yn 2010. Cafodd y bwriad o drosglwyddo'r ddyletswydd oddi wrth Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol ei gynnwys i ddechrau ym Mil Addysg (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd) ond fe'i tynnwyd yn ôl drwy welliant.

166. Mae Adran 9 yn gosod yr un ddyletswydd ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SAB) i benderfynu a oes gan ddisgyblion/myfyrwyr ADY lle y tynnir hynny at eu sylw neu ei bod yn ymddangos iddynt fel arall y gall fod ganddynt ADY. Os bydd corff llywodraethu ysgol neu SAB yn penderfynu bod gan ddisgybl/myfyriwr ADY, mae adran 10 o'r Bil ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar ei gyfer (ac eithrio o dan amgylchiadau penodol). Felly, byddai pob dysgwr ag ADY yn cael yr un math o gynllun statudol ni waeth faint yw ei oedran ac ni waeth a ydyw mewn ysgol, yn y chweched dosbarth mewn ysgol neu mewn SAB.

167. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd hyn yn golygu bod dysgwyr mewn AB sydd ar hyn o bryd â phartneriaethau strategol lleol ar wahân yn fwy cydradd â'u cymheiriaid yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud hefyd y bydd yn gwella'r pontio rhwng addysg yn yr ysgol ac addysg ôl-16.

168. Un newid sylweddol o dan y Bil, y bwriedir iddo hwyluso cyfnod pontio mwy effeithiol, yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth arbenigol ôl-16 oddi wrth Weinidogion Cymru i

awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio i gynllunio a gwneud darpariaeth, yn ogystal â rhoi cymhellion i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer yr unigolyn y tu hwnt i 16 oed mewn ffordd nad ydynt o reidrwydd yn gorfod ei wneud ar hyn o bryd.

169. Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal trafodaethau ynglŷn â sut i drosglwyddo swm cymesur o arian i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw i dalu am y cyfrifoldebau newydd am ddarpariaeth arbenigol ôl-16. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod hyn yn codi lluo o anawsterau, a bod rhai awdurdodau lleol mewn perygl o fod ar eu colled yn ariannol. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion penodol ynglŷn â hyn mhennod 16: Goblygiadau Ariannol ac Adnoddau.

170. Dim ond os bydd pobl ifanc 16-25 mewn addysg bellach y mae'r Bil yn eu cynnwys o fewn y fframwaith ADY newydd. Nid yw'n cynnwys y rheini sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith, er enghraifft prentisiaethau.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

171. Mae'r Pwyllgor wedi clywed barn amrywiol iawn yn y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Cafwyd trafodaeth fanwl hefyd am agweddau ôl-16 y Bil yn y digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd ar 26 Ionawr. Dyma grynodedb o'r safbwyntiau a fynegwyd yn y digwyddiad i randdeiliaid:

- Y gobaith yw y bydd y Bil yn gwella'r pontio i addysg ôl-16. Dylai newidiadau megis cael rhestr o golegau AB sy'n arbenigwr cymeradwy helpu.
- Bydd darparu rhagor ar gyfer 18-25 yn gosod gofynion ar y gweithlu ac adnoddau. Mae amheuan ynghylch sut y byddai cymorth ar gyfer ADY yn cael ei ddarparu i'r grŵp oedran hwn.
- Mae'r Bil yn 'colli cyfle' i helpu pobl ifanc sydd ag ADY i fynd i hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16.
- Ni ddylid eithrio dysgu seiliedig ar waith er eu bod yn deall y gallai estyn y dyletswyddau i'r sector preifat wneud y Bil yn fwy cymhleth.
- Yn gyffredinol, nid oes gan AB ddigon o adnoddau, sy'n golygu y gallai plentyn gael cymorth digonol yn yr ysgol ac yna bod hyn yn diflannu wrth iddo fynd i AB. Mae'r pontio'n ddi-fwlch pan fydd disgyblion yn symud o Gyfnod Allweddol 4 i'r Chweched Dosbarth ond os byddant yn mynd i ysgol wahanol neu i goleg AB, rhaid i'r broses ddechrau o'r dechrau o'i chwyr unwaith eto.
- Mae'n beth da bod colegau addysg bellach yn cael eu cynnwys, ond mae rhai'n poeni nad oes ganddynt staff sydd â'r sgiliau digonol i weithredu'r gofynion. Mae perygl hefyd y bydd awdurdodau lleol ac AB yn brwydro â'i gilydd dros bwy sy'n gyfrifol am ddysgwyr unigol.
- Mae'n rhaid i'r Cod ddarparu digon o wybodaeth am sut i reoli'r broses wrth i ddysgwyr groesi'r bont i fyd oedolion. Dylai blynyddoedd olaf CDU yn ystod addysg ysgol statudol gynnwys cynlluniau ar gyfer y posibilrwydd o drosglwyddo i gyflogaeth yn ogystal â pharhau mewn addysg.

Addysg bellach

172. Mae Colegau Cymru, y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r 14 o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn credu bod gwir angen diweddarau'r ddeddfwriaeth ynghylch AAB/ADY a'i bod yn hen bryd gwneud hynny. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, gwnaeth Colegau Cymru y pwyntiau canlynol.⁵⁴

- Mae dyletswyddau newydd ar gyfer sefydliadau addysg bellach sy'n cyflwyno newidiadau mawr. Bydd gofyn cryn baratoi ar gyfer hyn.
- Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar hyn o bryd wedi arfer cynnwys SABau wrth gynllunio ac yn eu gwaith hyfforddi a phrosiect. Mae angen i hyn newid.
- Mae angen gwella'r drefn rhannu gwybodaeth yn fawr.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â phwy sy'n talu am beth o ran gwasanaethau arbenigol. Mae angen cryfhau rôl y sector iechyd.
- Ni fydd y trefniadau pontio i ddysgwyr sydd ag ADY ac sy'n cofrestru mewn colegau'n digwydd yn ddigon cynnar.
- Bydd y cyfrifoldebau ar golegau'n creu pwysau ar y gweithlu. Bydd nifer fawr o ddysgwyr sydd â hawl i gael CDU yn golygu y bydd gofyn cael mwy o staff arbenigol, gan gynnwys staff pontio arbenigol.
- Mae Colegau Cymru yn tynnu sylw at y risg y bydd gwahanol brosesau, gwaith papur a fformatau'n cael eu defnyddio wrth lunio CDU ar draws gwahanol awdurdodau lleol oni ddefnyddir templed cyffredin.
- Nid oes fawr o wybodaeth wedi'i rhoi i sefydliadau addysg bellach ynghylch cyllid ar gyfer gweithredu. Bydd gofyn i SABau gyflawni tasgau a dyletswyddau ychwanegol gyda nifer mawr (heb ei gadarnhau eto) o ddysgwyr sydd ag ADY.
- Bydd costau ynghlwm wrth strwythur staffio newydd, gan gynnwys rôl newydd y Cydlynnydd ADY.

173. Mewn tystiolaeth lafar, datgelodd Colegau Cymru mai dim ond Coleg Gwent o blith y sector AB a oedd wedi cael unrhyw ran o gwbl yn nhreialu'r CDU. Roeddent hefyd yn feirniadol o faint o gyllid gweithredu sydd wedi bod ar gael i addysg bellach, gan awgrymu bod y rhan fwyaf wedi cael ei ddyrannu i ysgolion ac awdurdodau lleol.⁵⁵

Dysgu seiliedig ar waith

174. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid wedi galw am estyn darpariaethau'r Bil i'r rheini y tu hwnt i addysg bellach. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor:

“If you look at the principle behind the Bill, then I think it would be difficult to see why that group of learners wouldn't be included.”⁵⁶

175. Yn wir, dywedodd Estyn ei bod yn braidd yn gamarweiniol honni bod y Bil yn cynnwys pobl 0-25 oed er nad yw ond yn cynnwys y rheini sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol sydd mewn addysg

⁵⁴Tystiolaeth Ysgrifenedig, Colegau Cymru, [ALN34](#)

⁵⁵Tystiolaeth Lafar, Colegau Cymru, [16 Mawrth 2017](#)

⁵⁶Tystiolaeth Lafar, Estyn, [8 Mawrth 2017](#)

bellach. Dim ond tua un o bob bump o gyfanswm y boblogaeth 16 i 25 oed sydd mewn addysg bellach.

176. Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (Y Ffederasiwn) yn credu y dylai'r fframwaith ADY newydd fod ar gael hefyd i bobl ifanc sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith. Ysgrifenasant:

“We think that this provision should also be accessible to Apprenticeship learners and that the types of support available should be diverse to meet the needs of all FE Training options to include work-based learning.

NTfW feels that work based learning merits inclusion in the Bill to reflect provision for those learners who opt for an alternative route to their career development in the post 16 compulsory education system.”⁵⁷

177. Yn ei dystiolaeth lafar, soniodd y Ffederasiwn am y goblygiadau yn sgil trin dysgu seiliedig ar waith yn wahanol o ran yr ymdrechion sydd ar waith i sefydlu parch cydradd.

“We’re working alongside Welsh Government to progress the aim of creating parity of esteem between vocational learning and more academic routes. We feel that parity of esteem should start from 0 to 25, so you’re building that parity of esteem right through an individual’s learning, and so the omission of work-based learning looks at where that parity of esteem ends then. Does it end after they’ve left school? It should continue from 0 to 25, and so it’s building that esteem from 0 to 25, so that those learners who traditionally or naturally choose a vocational route feel that it is on par with academia—that they’re not choosing a less standard route. They’re choosing a route that is on par with academia. Therefore, the inclusion of work-based learning, the environment of work-based learning, means that the learner has that parity of esteem, that they’re not choosing a route that is not a viable route or considered to be a less valuable route than that for people who choose academia.”⁵⁸

178. Hefyd, dywedodd y Ffederasiwn mai'r dysgwyr sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth yn aml (gan gynnwys anawsterau dysgu) sy'n dilyn y llwybr dysgu seiliedig ar waith yn hytrach na'r llwybr addysg academaidd. O safbwynt y Ffederasiwn felly, mae angen cynnwys dysgwr o'r fath.

179. Dywedodd y Ffederasiwn fod y sector dysgu seiliedig ar waith yn brofiadol iawn yn cefnogi dysgwyr ag ADY a bod llawer o enghreifftiau o'r gwahanol fathau o gefnogaeth a roddir i ddysgwyr yn ei gynllun Hyfforddeiaeth. Mae hefyd yn dweud y gall darparwyr dysgu seiliedig ar waith wneud cais ar hyn o bryd am Gymorth Dysgu Ychwanegol sydd ag angen cymorth o'r fath yn ôl Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, dywedodd y Ffederasiwn nad yw'r broses na'r mecanwaith ariannu yn syml. Mae'n dweud nad yw ADY yn cael ei gyllido'n briodol o dan y contract dysgu seiliedig ar waith.

180. Mae Llywodraeth Cymru wedi sôn am y potensial i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ddarparu cymorth yn wirfoddol yn hytrach nag ar sail statudol, er bod y Ffederasiwn i bob golwg yn amau a fyddai hyn yn ddigonol, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

⁵⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, **ALN45**

⁵⁸ Tystiolaeth Lafar, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, **16 Mawrth 2017**

“What we have found is, the omission of work-based learners gives the assumption that it doesn’t apply to them—you know, the Bill doesn’t apply. At a recent event that was co-ordinated by Welsh Government, one of the questions was, ‘What about the settings outside of the establishment?’, and the omission, sometimes, when you’re working, trying to get people to have that transitional support outside of traditional routes, means that some people feel that it’s nothing to do with them.”⁵⁹

Ymateb y Gweinidog

Addysg bellach

181. Wrth ateb cwestiynau am fater penodol y diffyg pŵer i awdurdodau lleol gyfarwyddo SAB i ddarparu ADY, cyfeiriodd y Gweinidog at y pwerau gwneud rheoliadau sydd ar gael i Weiniogion Cymru o dan adran 34 o’r Bil (gweler adran 6 o’r Adroddiad hwn). Yn anffodus, ni chafodd y Pwyllgor amser i archwilio’n fwy manwl beth yw natur y berthynas rhwng llywodraeth leol ac AB ac a yw hyn wedi’i sefydlu’n ddigonol er mwyn i’r agweddau hyn ar y Bil weithio.

182. Cadarnhaodd y Gweinidog a’i swyddogion y bydd y dyletswyddau ar SABau tuag at unrhyw un o’u dysgwyr sydd ag ADY yn berthnasol ni waeth pa mor ddwys fydd y cwrs a astudir. Dywedodd pennaeth rhaglen ddeddfwriaethol ADY Llywodraeth Cymru:

“If a learner is enrolled with an FEI, then they will fall within the Bill, and they will be entitled to an IDP if they have ALN, regardless of how long they’re in that setting for. I guess there is an element of proportionality there, and most learners who arrive at an FEI will probably arrive with their IDP, which the FEI will then review and take on. So, there’s some operational detail to work through there, but the basic principle is that they will fall within the scope of the Bill.”⁶⁰

183. Gan sôn am i ba raddau y bu colegau’n rhan o’r cynlluniau peilot, dywedodd yr un swyddog:

“Coleg Gwent has been directly involved in the work that we’re doing. They sit on our strategic implementation group, for example, but also ColegauCymru do, as well, so there is a broader range of FEIs involved as well now. In terms of the original pilots that we ran a few years ago, FEIs weren’t involved in those, but they are now much more involved in the engagement that we’re doing.”⁶¹

Dysgu seiliedig ar waith

184. Y prif reswm a gynigiwyd gan y Gweinidog yn ei dystiolaeth dros beidio â chynnwys dysgu seiliedig ar waith yn y fframwaith ADY newydd oedd y byddai hyn yn estyn y Bil i’r sector preifat ac mai Bil addysg i ddarparwyr addysg yw hwn:

“The reason it isn’t included in the Bill, of course, is that work-based training takes place, almost by definition, within a private business, and the provisions

⁵⁹ Tystiolaeth Lafar, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, **16 Mawrth 2017**

⁶⁰ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

⁶¹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

of this Bill have not been extended outside of the education sector in that way.
(...)

Nid yw [dysgu seiliedig ar waith] yn rhan o'r dyletswyddau yn y Bil yma, oherwydd mi fuasai hynny, wedyn, yn meddwl ehangu'r Bil i symud i ffwrdd o'r system addysg ac ymyrryd yn yr economi ehangach, ac nid yw'r Bil amboutu hynny.

Mae gennym ni'r grym y tu fewn i'r system i newid y sefyllfa yn y sector cyhoeddus sydd ddim yno ar gyfer y sector preifat.”⁶²

185. Fe wnaeth y Gweinidog, er hynny, awgrymu y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cefnogi pobl ifanc sydd ag ADY ar sail wirfoddol. Dywedodd:

“However, I must say that we have spoken to work-based learning providers over the period of time since the publication of the Bill, and I would hope and anticipate that, whilst those providers will not have statutory duties to perform and to deliver upon, there will be an ability for work-based learners to support apprentices or other people with the needs that they have in order to continue their learning. So, I hope that we will be able, by creating a new framework—a statutory framework—for the statutory sector, to also lead to a culture change.
(...)

Mae hynny'n meddwl, ambell waith, ein bod yn trio newid y diwylliant ac nid jest newid y gyfraith.”⁶³

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

186. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn codi pryderon difrifol ynghylch a yw'r berthynas bresennol rhwng awdurdodau lleol a'r sector addysg bellach yn ddigon da i wneud i ddarpariaethau'r Bil weithio'n effeithiol ac er lles y dysgwyr. Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon bod darpariaethau'r Bil yn ddigonol i sicrhau y bydd anghenion dysgwyr sydd ag ADY yn cael eu diwallu, yn enwedig yn y cyfnod pontio anodd i addysg bellach.

187. Mae'r Pwyllgor yn poeni hefyd nad yw colegau addysg bellach wedi cael eu cynnwys yn ddigonol nac yn y gwaith peilot nac wrth gynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd, ac mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud rhagor i ymgysylltu â'r sector Addysg Bellach drwy gydol y cyfnod hwn.

188. Mae'r Pwyllgor yn nodi cadarnhad y Gweinidog y bydd dyletswyddau SAB tuag at unrhyw un o'u dysgwyr sydd ag ADY yn berthnasol ni waeth pa mor ddwys fydd y cwrs a astudir, ac y byddai gan ddysgwyr ag ADY yr hawl i gael CDU, ni waeth am faint y byddant yn y lleoliad hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn credu, fodd bynnag, bod angen pwysu a mesur pa mor gymesur yw'r dull hwn er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr ym mhob sefyllfa yn y ffordd fwyaf effeithiol.

189. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd gan lawer o randdeiliaid y dylai'r fframwaith ADY gael ei estyn i gynnwys dysgu seiliedig ar waith, a ddarperir y tu allan i leoliad SAB, yn hytrach na bod y dysgu hwnnw'n cynnig cymorth yn wirfoddol yn unol ag awgrym y Gweinidog. Yn

⁶² Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

⁶³ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

aml, y dysgwyr sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth, gan gynnwys anawsterau dysgu, sy'n dewis y llwybr dysgu seiliedig ar waith, a dylai'r system newydd arfaethedig gynnwys dysgwyr o'r fath.

190. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai estyn dyletswyddau i'r sector preifat wneud y Bil yn fwy cymhleth. Serch hynny, bydd cwmnïau preifat sy'n darparu dysgu seiliedig ar waith yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cynlluniau ac nid yw'n glir pam mae'r rhain yn cael eu heithrio o gwmpas darpariaethau'r Bil, ond nad yw meithrinfeydd preifat sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru/awdurdodau lleol yn cael eu heithrio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod nad oes ymgynghori wedi bod â'r sector hyd yn hyn ynglŷn ag unrhyw estyniad. Byddai angen hefyd i unrhyw estyniad i'r sector preifat fod yn gymesur, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi dysgwyr ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog ystyried eto pa mor ymarferol yw hyn.

191. Er na chodwyd y peth yn benodol mewn tystiolaeth yn ystod Cyfnod 1, mae Aelodau wedi clywed bod lleoedd arbenigol mewn colegau weithiau'n cael eu dyrannu i gydweddu orau â chyllidebau'r SAB/awdurdodau lleol, ac nad ydynt ym mhob achos yn diwallu anghenion y dysgwr gystal ag y gellir. Gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau wrth i awdurdodau lleol asesu ADY dysgwr, gan benderfynu ar y ddarpariaeth sydd ei hangen a chyllido'r ddarpariaeth honno. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen camau diogelu mwy clir er mwyn sicrhau ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth ddarparu lle mewn coleg, benderfynu er lles gorau'r dysgwr.

192. Mae Pennod 2 o'r Cod drafft yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a ddylai fod yn sail i gynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY. Un o'r egwyddorion hynny yw y dylai pawb sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag ADY gydweithio er lles y plentyn neu'r person ifanc - ac y dylai hyn gynnwys lleoliadau mewn colegau. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai fod gwell camau diogelu i sicrhau ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth benderfynu pa ddarpariaeth arbenigol a gynigir i ddysgwr ôl-16, wneud y penderfyniad hwnnw er lles gorau'r plentyn neu'r person ifanc.

Argymhelliad 21. Dylid ymestyn y fframwaith ADY yn y Bil i gynnwys dysgu seiliedig ar waith.

11. Cydweithredu a chynnwys y sector iechyd

Y Cefndir a safbwynt y Bil

Dyletswyddau i fyrddau iechyd

193. Ers ystyried y Bil drafft, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cryfhau geiriad y ddyletswydd fwyaf arwyddocaol i gyrff iechyd, sef y ddyletswydd sy'n eu harwain i ddarparu gwasanaethau. Mae Adran 18 o'r Bil yn gosod y gofynion canlynol ar gyfer gyrff iechyd:

- Pan fydd awdurdod lleol yn gofyn i gorff iechyd wneud hynny, rhaid iddo' ystyried a oes unrhyw driniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc.'
- Os bydd y corff iechyd yn gweld bod angen triniaeth neu wasanaeth perthnasol o'r fath, mae'n rhaid iddo'i sicrhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

194. 'Rhagor o gydweithredu' yw un o ddeg nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil a bwriedir i hyn helpu i gyflawni'r amcan hwn:

- 'proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol'.

195. Mae Adran 58 o'r Bil yn dweud, pan fydd awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth neu gymorth arall gan gyrff eraill (megis byrddau iechyd) wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau ADY, er enghraifft asesu anghenion dysgwr neu baratoi CDU i ddiwallu ADY dysgwyr, rhaid i'r corff gydymffurfio â'r cais hwnnw, oni fyddai gwneud hynny:

- yn anghydnaws â'u dyletswyddau hwy eu hunain, neu
- yn cael effaith andwyol mewn modd arall ar y ffordd y byddant yn arfer eu swyddogaethau.

196. Mae'r ddyletswydd i helpu'n debyg i'r gofynion presennol ar gyfer AAA. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth yn newydd ac wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â methiant cyrff i rannu gwybodaeth mor effeithiol ag y dylent. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd canllawiau clir yn y Cod yn ategu hyn.

Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig

197. Mae Adran 55 o'r Bil yn gorfodi dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi Swyddog Clinigol Dynodedig. Rhaid i'r rôl newydd hon gael ei chyflawni gan aelod o staff sy'n ymarferydd meddygol cofrestredig, neu nyrs gofrestrdig neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

198. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg:

- yn sicrhau bod modelau gwasanaeth priodol o fewn pob bwrdd iechyd;
- yn darparu arweinyddiaeth o fewn y bwrdd iechyd er mwyn gallu bodloni'r dyletswyddau perthnasol;
- yn cysylltu â phartneriaid fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; ac
- yn ysgogi a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol er lles plant ag ADY.

199. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn awgrymu na fydd Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg yn cyfrannu fel mater o drefn wrth asesu ac adolygu CDU penodol, ac eithrio yn rhinwedd eu hymarfer clinigol arferol, ond y byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyfrannu mewn ffordd briodol. Mae Pennod 12 o'r Cod drafft yn rhoi rhagor o wybodaeth am rôl arfaethedig y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg a'i brif gyfrifoldebau.

200. Mewn llythyr at y Pwyllgor,⁶⁴ eglurodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg fod yn un gyfan gwbl strategol. Ni ddylent 'gyfrannu at ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o ddydd i ddydd; rhaid sefydlu'r swyddogaethau gweithredol hyn fel rhan o'r gwasanaeth cyfan'. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai byrddau iechyd hefyd gael cydlynedd iechyd ar waith i gyfeirio pobl at y gweithwyr iechyd proffesiynol cywir a bod yn bwynt cyswllt i ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a phlant a phobl ifanc.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

201. Cydweithio aml-asiantaeth yw un o'r materion mwyaf pwysig i randdeiliaid ac mae wedi cael ei amlygu'n gyson mewn tystiolaeth fel un o'r rhwystrau mwyaf rhag sicrhau darpariaeth effeithiol o dan y system bresennol.

202. Mae'r dyfyniad canlynol o ymateb Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil drafft (Tachwedd 2015) yn crynhoi'r farn am y problemau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar y pryd:

“At the present time the weakness in collaboration that has plagued the effectiveness of the current SEN and LDD assessment and support systems is likely to be imported into the new system and the Tribunal is concerned that this will undermine its overall effectiveness.”⁶⁵

203. Beirniadwyd y dyletswyddau yn y Bil drafft i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydweithredu, yn enwedig y gofynion sydd ar fyrddau iechyd i ddarparu ar gyfer ADY, gan y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar a Phlant yng Nghymru am eu bod yn rhy wan ac nad ydynt yn ddigonol i sicrhau bod y sector iechyd yn cyfrannu ac yn cymryd rhan.

Dyletswyddau i gyrff iechyd

204. Yn y digwyddiad i randdeiliaid ar 26 Ionawr, dywedodd y rhai a oedd yno mai'r broblem fwyaf cyffredin a'r rhwystr pennaf yw lle na fydd gwasanaethau addysg yn gallu defnyddio'r ddarpariaeth iechyd na dylanwadu arni ac na fydd y cyrff iechyd yn ymgysylltu'n ddigonol.⁶⁶ Er bod y dyletswyddau i gyrff iechyd wedi cael eu cryfhau ers y Bil drafft, y farn yw nad ydynt yn mynd yn ddigon pell o hyd. Roedd llawer o'r dystiolaeth ysgrifenedig yn cefnogi hyn.

205. Roedd Gwasanaethau Addysg a Seicoleg Plant Sir Gâr yn dal i boeni nad yw'r dyletswyddau i gyrff iechyd i bob golwg yn ddigon cryf yn y Bil a bod angen eu geirio mewn ffordd sy'n sicrhau ymrwymiad gan y maes iechyd. Roedd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn credu nad yw'r Bil o hyd yn gorfodi asiantaethau i gydweithio ac nad yw adran 18 yn ddigon cadarn.

⁶⁴ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [21 Mawrth 2017](#)

⁶⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig am y Bil ADY drafft (Tachwedd 2015), [Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)

⁶⁶ Digwyddiad i Randdeiliaid, 26 Ionawr 2017, [Crynodeb o'r Dystiolaeth](#)

206. Roedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam yn poeni y bydd cyrff iechyd yn gallu diosg eu cyfrifoldebau drwy drwy ddileu rhwymedigaethau i ddarparu ar sail CDU (o dan adran 19 (6)), sy'n golygu eu bod yn dal i allu dewis darparu gwasanaethau neu beidio.

207. Nid yw'r dyletswyddau cryfach yn y Bil yn tawelu meddwl Afasic y bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu'n gallu manteisio ar asesiadau iechyd priodol.

208. Crynhowyd y cyfyng gyngor a allai wynebu awdurdodau lleol fel hyn gan CLILC:

“At the end of the day, there still isn't real parity between health and local authorities. And there's the point we've made about what happens if a local authority refers a case to the health board, and the health board considers that there is no relevant treatment or service that would help the learner. Where do you go from there? Is that the end of it? Can the authority then say, 'We've asked them and they say no'. Or is it effectively deemed to be an education need, and the authority has to be provide and pay for it?”⁶⁷

209. Cafwyd enghraifft o'r ansicrwydd ynglŷn ag a wnaiff y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dyletswyddau iechyd fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd:

“I think this goes back to what we were discussing earlier, really, about having speech and language therapy provision. At the moment, several local authorities buy that service from health or pay a service level agreement—we pay a considerable sum. That is a health need. In the future, do I say, 'Okay, you provide that for the 100 pupils you're providing for now, and I don't have to pay for it.'? So, I think that's an area we need to investigate and kind of tease out.”⁶⁸

210. Mae Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector yn dal yn feirniadol ynghylch cadernid y dyletswyddau i'r sector iechyd. Dywedodd SNAP Cymru wrth y Pwyllgor:

“There is a huge lessening of entitlement here around health, and it is of great concern, really. We are not imagining that health professionals can participate in the whole process, but we do know that families are going to be disappointed where there is a significant need for health input into the person-centred planning process.”⁶⁹

211. Nododd Estyn y gall fod diffyg cyfatebiaeth rhwng y penderfyniadau clinigol a'r hyn y mae rhieni'n dymuno'i gael:

“I think there will always be, on occasion, a mismatch between a clinical decision about a health need and a health service that need to be provided, and perhaps a parent's or a child's or an education professional's views about what might help to meet the needs of that child.”⁷⁰

⁶⁷ Tystiolaeth Lafar, CLILC, **2 Mawrth 2017**

⁶⁸ Tystiolaeth Lafar, Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin (CCAC), **2 Mawrth 2017**

⁶⁹ Tystiolaeth Lafar, SNAP Cymru, **22 Mawrth 2017**

⁷⁰ Tystiolaeth Lafar, Estyn, **8 Mawrth 2017**

212. Mae'r sector iechyd yn amlwg yn ymwybodol o anghysondeb o'r fath - y bwch rhwng y disgwyliad a'r hyn a ddarperir - ac yn teimlo bod geiriad adran 18 yn rhy eang. Pwysleisiodd Cydffederasiwn y GIG mai mater o farn glinigol bob tro yw gwasanaethau iechyd o reidrwydd. Dywedodd ei bod yn rhaid i egwyddorion gofal iechyd darbodus felly gael eu hadlewyrchu yn y Bil er mwyn i'r ddeddfwriaeth hon fod yn gyson â'r ffordd y bydd dyletswyddau eraill yn cael eu rhoi i gyrrff iechyd. Roedd Cydffederasiwn y GIG yn dymuno gweld adran 18(4) yn cynnwys y geiriau: 'yn seiliedig ar angen clinigol'.

213. Roedd gan y Cydffederasiwn rai amheuon hefyd am y term "budd" ym meini prawf adran 18. Dywedodd fod ei union ystyr yn amwys oherwydd, mewn cyd-destun iechyd, y gall triniaethau fod o fudd heb fod yn glinigol effeithiol.

214. Yn ei dystiolaeth lafar, ymhelaethodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar hyn drwy ddweud:

"I think the way that it's worded at the moment, it says, 'may be of benefit'. Lots of things may be of benefit, but is it evidence based and whose decision is it whether it is of benefit or not? I think it opens up a conversation that parents may think it's of benefit, schools may actually think it's of benefit, and as a clinician, we may actually be saying, 'Well, there is no evidence to support that'."⁷¹

215. Ychwanegodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

"It's who considers it likely to be of benefit? It's how much understanding of what is benefit and what knowledge base you have behind that, which is why I think it's so important for the health professionals involved in the decision to say, 'Actually, we need to explore this further.' To take up the end point, it would be totally unacceptable to not provide a service if there was a clinical evidence for us and a clinical need. So, you can't justify it on lack of resources if there is clinical evidence and need to do so. But, we already see a system where the expectation of assessment and, actually, diagnosis—. Education is one of the few places where telling a child, 'Actually, there isn't a long-term condition here,' which should be good news, will lead to an appeal against it, because it disappoints people that they will no longer therefore be able to obtain the one-to-one they'd hoped they would get with the diagnosis. It's an unusual situation."⁷²

Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig

216. Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn croesawu rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn y byrddau iechyd. Fodd bynnag, gofynnodd llawer am ragor o fanylion am sut y byddai'n gweithio'n ymarferol ac roeddent yn awyddus i ddeall y rhaniad rhwng natur strategol a gweithredol y rôl.

217. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at oblygiadau'r rôl o ran adnoddau. Adleisiwyd hyn yn nhystiolaeth lafar Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

⁷¹ Tystiolaeth Lafar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, **16 Mawrth 2017**

⁷² Tystiolaeth Lafar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, **16 Mawrth 2017**

“It’s a bigger workload than is anticipated in the Bill, and when you look at the resource required to deliver the job—yes. When you look at managing joining the systems, north Wales have got six local authorities, we’ve got five local authorities, Hywel Dda have got three. There are lots of linkages to do, and local authority childcare as well as education has to be part of that job. So, the resource, and actually how much time, I think has been underestimated in the supporting papers so far.”⁷³

218. Roedd llywodraeth leol yn croesawu rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig gan obeithio y byddai’n gwella’r cydweithio. Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynrychioli CCAC ochr yn ochr â CLILC, wrth y Pwyllgor:

“I think, for us, it’s having one designated person who we can go straight to for any challenges or issues we have with provision from health. At the moment, we might go to different heads of service or departments, and it is quite challenging sometimes to get the right person within the health service to have an influence. But I am concerned about, maybe, one of these roles in a huge health board like Hywel Dda, which spans quite a large geographical area. There are issues there, I think, which we need to kind of investigate, in the sense of whether it is one role. Or do you have three or whatever? I don’t know. And also about access to those officers as well and how that is managed.”⁷⁴

219. Nododd CLILC fod y cynnydd diweddar o ran datblygu rôl y Swyddog Arweiniol Cinigol Addysg ers y Bil drafft yn galonogol.

“We know that so much work has been done in the interim on the DECLO role that it feels that it has been strengthened, if you see what I’m saying. Maybe the terminology in the Bill hasn’t strengthened, but what underpins the Bill and how the DECLO role will work has already been strengthened. Because we’ve seen the work that has been done—the pilots that are now going on in Betsi Cadwaladr and Aneurin Bevan to pilot that role. I think, maybe, it’s just a kind of mindset, that we feel it’s been strengthened.”⁷⁵

220. Serch hynny, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrth y Pwyllgor mai dim ond yn awr yr oedd y cynlluniau peilot yn cael eu sefydlu, a bod hyn yn achosi pryder iddynt, oherwydd bod rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg eisoes wedi’i chynnwys yn y Bil. Soniodd BIP Aneurin Bevan hefyd am eu model dwy haen ar gyfer y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg (a ddisgrifiwyd yn ddiweddarach mewn llythyr oddi wrth y Gweinidog, dyddiedig 21 Mawrth, 2017).⁷⁶ Dywedodd BIP Aneurin Bevan wrth y Pwyllgor:

“We’re actually looking at separating out those two strategic roles and delivery roles and things like that, to looking at how school health nurses might be able to do the practical—making sure the service works for the child, and then an overarching role for co-ordinating the local authorities and social services. (...)

⁷³ Tystiolaeth Lafar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, [16 Mawrth 2017](#)

⁷⁴ Tystiolaeth Lafar, Cyfarwyddwr Addysg Sir Gâr (CCAC), [2 Mawrth, 2017](#)

⁷⁵ Tystiolaeth Lafar, CLILC, [2 Mawrth 2017](#)

⁷⁶ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [21 Mawrth 2017](#)

We're splitting the role, so there would be somebody who'd be doing the strategic overview role, and somebody who's making sure that the information is gathered in a way that allows the individual education plans to be meaningful and useful for the children.”⁷⁷

Ymateb y Gweinidog

Dyletswydd Adran 18

221. Mae'r Gweinidog yn credu bod adran 18 yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng seilio penderfyniadau am ymyriadau iechyd ar farn glinigol a sicrhau'r cyfraniad a'r mewnbwn digonol gan y sector iechyd. Mae hefyd yn credu bod y term 'yn debygol o fod o fudd' yn briodol. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“There needs to be a focus on the clinical needs of the child or the young person concerned, and that is what must drive the decisions taken by medical staff in the national health service—what the clinical needs of that child are. Now, I don't believe that the current test is too high or too low. It talks about 'of benefit' to the individual child or young person concerned. (...)

[Section 18] is a significant and stronger duty than has appeared in previous iterations of the Bill, and reflects the changes that have been made as a consequence of previous conversations and consultations on this Bill. And I think what I would really emphasise to the committee is that it is not 'will be of benefit'; it is 'likely to be of benefit'. So, the test is not one that would be overwhelmingly difficult to prove; 'likely to be of benefit' sets the bar probably at where it needs to be in terms of likely to be of benefit.”⁷⁸

222. Nid oedd y Gweinidog yn cytuno â barn y GIG bod angen i adran 18 gyfeirio'n benodol at gyrff iechyd yn llunio barn o'r fath ar sail angen clinigol. Dywedodd:

“I don't understand on what other basis those decisions would be taken. I can understand people who are saying, 'On what other basis or alternative basis would a decision be taken by a member of medical staff, except clinical need? (...)

On what basis would you start to qualify or define decisions? And, of course, when you start qualifying things, what do you do? You don't just qualify in; you qualify out. I would say, 'Be careful for what you wish' to some people making these arguments.”⁷⁹

Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig

223. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg yn un strategol:

“The role of the DECLO, or the designated lead ... will provide a strategic role. (...)

⁷⁷ Tystiolaeth Lafar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, **16 Mawrth 2017**

⁷⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

⁷⁹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

I think that's right and proper, because we're talking here about how a health board organises its resources, organises its people and organises its services in order to deliver what is required to that individual child or young person. So, we're not looking at somebody who actually does that delivery. We're looking for someone who's qualified to do that delivery, but we are looking at a person then, or a designated lead, who would be able to ensure that those services are provided where and how they should be provided. So, I see it very much as a strategic planning role. We know that's missing at the moment, and I hope that this will fill the gap.”⁸⁰

224. Roedd llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor, dyddiedig 21 Mawrth 2017 yn esbonio ymhellach:

“Mae'r Grŵp [Arbenigwyr Iechyd] wedi cynghori y dylid cryfhau ymhellach y rôl sydd wedi'i nodi yn y drafft presennol o'r Cod drwy egluro cyfrifoldebau strategol y rôl. Mae'r Grŵp wedi argymhell bod yn rhaid rhoi rôl y SACDA i unigolyn sy'n uniongyrchol is na lefel y Bwrdd er mwyn gallu cyfeirio materion sy'n codi i lefel y Bwrdd, er mwyn iddo fod â digon o ddylanwad dros benderfyniadau'r Bwrdd a'r annibyniaeth i hyrwyddo ADY, ac er mwyn iddo fonitro i ba raddau y cydymffurfir â dyletswyddau statudol y Bwrdd.

Mae'r Grŵp yn glir na ddylai'r SACDA gyfrannu at ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o ddydd i ddydd; rhaid sefydlu'r swyddogaethau gweithredol hyn fel rhan o'r gwasanaeth cyfan.”⁸¹

225. Roedd llythyr y Gweinidog yn codi pwynt newydd hefyd, pwynt nad oes cyfeiriad ato yn y Bil nac yn y dogfennau ategol. Mae a wnelo hyn â “chydlynnydd iechyd” a dywedodd y dylai “byrddau iechyd sicrhau bod cydlynnydd iechyd yn ei le ar y lefel leol briodol er mwyn cyfeirio dysgwyr a'u rhieni at y gweithwyr iechyd proffesiynol cywir a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a phlant a phobl Ifanc”. Dyma'r rôl ddwy haen y cafwyd esboniad yn ei chylch gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gweler paragraffau uchod). Pan ofynnwyd am rôl y cydlynnydd iechyd, dywedodd y Gweinidog:

“Some of those roles already exist and are being performed within health boards at the moment. So, it won't be involving additional costs.”⁸²

226. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) ac yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau ar ôl Cyfnod 2. Gan ymateb i sylwadau'r byrddau iechyd bod yr AERh yn tanamcangyfrif y goblygiadau o ran costau ac adnoddau a fyddai'n codi yn sgil rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg, dywedodd y Gweinidog yn ei lythyr ar 11 Ebrill:

“Derbyniaf fod angen rhoi ystyriaeth i'r manylion gweithredol; mae'r rôl hon yn agwedd allweddol ar y system newydd a rhaid inni gael hynny'n iawn. Dyma'r rheswm dros gynllun peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd drwy'r Grŵp Arbenigwyr Iechyd i gyd-ddatblygu manylion y rôl.. (...)”

⁸⁰ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

⁸¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [21 Mawrth 2017](#)

⁸² Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrif gorau yw'r costau a'r goblygiadau o ran adnoddau, yn seiliedig ar feddylfryd ar adeg benodol. Bydd y rhain yn cael eu pwysu a'u mesur wrth i'r manylion gweithredol a manylion y rôl gael eu llunio.”⁸³

227. Roedd y Gweinidog a'i swyddogion yn cydnabod ei bod wedi cymryd mwy o amser nag yr oeddent wedi'i obeithio i roi'r cynlluniau peilot ar waith ar lefel ymarferol, ond bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu'r polisi yn gyntaf cyn dechrau ar y cynlluniau peilot. Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

“The pilots are in a scoping phase at the moment, and we would hope to see practical piloting on the ground in the next financial year. We'll be monitoring that very closely. It will be a feedback group rather than an extended pilot with an evaluation at the end. (...)

It's a fluid pilot that will help us to develop the role. The expert group is telling us at the moment that our original thinking may not have been quite right, and that they see the role as being a two-way linkage between the health boards and the co-ordinators across the different parts of the health system.(...)

The precise intention of the pilot is to establish the boundaries of the role of the DECLO and how it can have the most practical impact on ensuring the strategic co-ordination of all partners within health working at a strategic level in partnership with local authorities and education providers. (...)

The code will help to set out what the requirements of the DECLO role will be. It won't be a job description as such, but it will set out what our expectations for that role will be within each health board, yes.”⁸⁴

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

228. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai mwy o gydweithredu yw un o ddeg nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil. Cyfeiriwyd yn gyson yn y dystiolaeth at y diffyg cydweithredu rhwng asiantaethau a bod hynny'n un o'r rhwystrau pennaf rhag sicrhau darpariaeth effeithiol o dan y drefn bresennol. Mae'n hanfodol nad chaiff y diffyg cydweithredu yn y system bresennol ei drosglwyddo i'r i'r system newydd a dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

229. Cafwyd beirniadaeth helaeth ar y dyletswyddau yn y Bil drafft i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydweithredu, yn enwedig y gofynion sydd i fyrddau iechyd ddarparu ar gyfer ADY, am eu bod yn rhy wan ac am nad ydynt yn ddigonol i sicrhau bod y sector iechyd yn cyfrannu ac yn cymryd rhan. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud i gryfhau'r Bil, mae'r Pwyllgor yn poeni bod llawer o randdeiliaid yn dal i gredu nad yw'r dyletswyddau i gyrrff iechyd yn ddigon cryf yn y Bil.

230. O ran adran 18(4), mae'r Pwyllgor wedi ystyried cais cyrff y GIG ar am gynnwys y geiriau 'seiliedig ar angen clinigol' yn yr adran honno. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn y Gweinidog nad oes angen manylu yn adran 18(4) drwy gyfeirio at hyn, gan ei fod yn fodlon y dylai penderfyniadau dan yr adran hon bob tro fod yn seiliedig ar angen clinigol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod geiriad adrannau 18(4) a 18(5) yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng rhoi gwerth ar farn

⁸³ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [11 Ebrill 2017](#)

⁸⁴ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

glinigol proffesiynau iechyd ynghylch pa driniaethau neu wasanaethau sy'n debygol o fod o fudd ac yn rhoi'r cyfrifoldeb i gyrff iechyd sicrhau'r ymyriad hwnnw ar ôl gweld bod ei angen.

231. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ar y cyfan fwriad y Bil i sefydlu rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg. Er nad yw manylion y Bil na'r dogfennau sy'n cyd-fynd â hi'n gwneud hynny'n glir, roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Gweinidog am egluro bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg fod yn rôl hollol strategol, ac na ddylent fod yn ymwneud â'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod diffyg manylder o hyd am natur y rôl, yn enwedig sut y bydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys rôl y cydlynnydd iechyd newydd (gweler paragraffau canlynol).

232. Mae'r Pwyllgor yn poeni bod rôl y 'cydlynnydd iechyd' a grybwyllir yn llythyr y Gweinidog ar 11 Ebrill 2017 wedi codi cysyniad newydd nad oedd wedi'i gynnwys yn y Bil nac yn y dogfennau ategol. Mae hyn yn awgrymu y dylai fod gan bob bwrdd iechyd gydlynnydd iechyd ar waith i gyfeirio pobl at y gweithwyr iechyd proffesiynol cywir a bod yn bwynt cyswllt i ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a phlant a phobl ifanc. Er y byddai'r Pwyllgor yn croesawu hyn, credwn y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei gylch yn y Cod, ac yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys y costau manwl yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol (gweler hefyd adran 16: Goblygiadau ariannol ac adnoddau).

233. O ran cynlluniau peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg a gychwynwyd, mae'r Pwyllgor yn hynod bryderus na chafodd y rhain eu cynnal yn gynharach o lawer, er mwyn helpu i lywio manyleb rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyfle wedi'i golli i gael golwg bwysig ar natur y rôl a sut y byddai'n gweithio a sut y byddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r Bil er mwyn helpu i'w llunio.

234. Mae'r Pwyllgor yn poeni bod cynlluniau peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg yn dal i fynd drwy'r cam cwmpasu ar hyn o bryd ac nad yw Llywodraeth Cymru ond yn gobeithio gweld cynllun peilot ymarferol ar lawr gwlad tan ryw bryd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru roi amlinelliad manwl o gynlluniau peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg, yn ogystal ag amserlen fwy manwl. Dylai unrhyw ganfyddiadau yn sgil y cynlluniau peilot fod ar gael cyn Cyfnod 3 y Bil, er mwyn helpu i roi gwybod i'r Cynulliad am broblemau a allai godi gyda rôl arfaethedig y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg cyn y Cyfnod diwygio hwnnw.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog weithio i sicrhau na fydd y diffyg cydweithredu sydd yn y system AAA bresennol yn cael ei drosglwyddo i'r system ADY newydd.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog egluro natur rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn well, yn enwedig sut y bydd yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys rôl y cydlynnydd iechyd newydd.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am rôl 'cydlynnydd iechyd' yn y Cod ADY, ac yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2 gan gynnwys costau manwl yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog roi amlinelliad manwl o gynlluniau peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig, yn ogystal ag amserlen fwy manwl. Dylai unrhyw ganfyddiadau yn sgil y cynlluniau peilot fod ar gael cyn Cyfnod 3 y Bil.

12. Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth

Y cefndir a safbwynt y Bil

235. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn cydnabod mai casgliad adolygiadau blaenorol oedd bod y system bresennol o ddatganiadau statudol gan awdurdodau lleol a darpariaeth anstatudol o dan arweiniad ysgolion yn system gymhleth, ddryslud a gwrthwynebus.

236. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd cyflwyno CDU statudol i bob dysgwyr ag ADY yn cael gwared ar y rhaniad artiffisial a dadleuol sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn dileu un o'r prif bethau sy'n achosi tyndra gwrthwynebus.⁸⁵ Un o'i phrif amcanion ar gyfer y Bil yw sefydlu system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Gwybodaeth a chyngor

237. Mae Adran 7 o'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY. Rhaid iddynt roi gwybod i restr o bobl a bennir yn adran 7(2) am eu trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor. Mae paragraff 4.9 o'r Cod drafft yn darparu canllawiau am yr effaith y bwriedir i'r wybodaeth a'r cyngor ei chael, yn ogystal â'i bod yn "gywir" ac "niwtral".

238. Yn wahanol i wasanaethau ddatrys anghydfodau ac eiriolaeth, nid oes yn rhaid i'r broses darparu gwybodaeth a chyngor fod yn annibynnol. Fodd bynnag, os bydd awdurdodau lleol yn penderfynu comisiynu cyngor a gwybodaeth gan gyrrff allanol, mae'r Cod drafft yn nodi rhai egwyddorion comisiynu (para 4.19). Er enghraifft, awdurdodau lleol o hyd fydd yn gyfrifol am safon gyffredinol y gwasanaeth a dylent sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn.

Osgoi anghytundeb a'i ddatrys

239. Mae Adran 61 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi anghytundebau a'u datrys rhwng y plentyn/person ifanc a/neu'r rhiant, a'r ysgol/y coleg neu'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybr at help i ddatrys anghytundeb gan bobl annibynnol. Rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo'r defnydd o'r trefniadau y maent yn eu rhoi ar waith gan esbonio i'r plentyn/person ifanc a/neu'r rhiant na fydd cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau o'r fath yn effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

240. Mae paragraff 18.4 o'r Cod drafft yn rhestru nifer o safonau y mae disgwyl i awdurdodau lleol eu cyflawni yn eu trefniadau ar gyfer osgoi anghytundeb a'i ddatrys.

241. Mae'n rhaid i staff awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chyflwyno'r trefniadau hyn ddeall y system ADY yn fanwl ac ni ddylai fod ganddynt ddim budd personol yng nghanlyniad unrhyw anghytundebau posibl (para 18.5). Dylai'r cymorth annibynnol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei drefnu ddod o ffynhonnell brofiadol, wybodus a chymwys ac ni ddylai'r trefniant arwain at ddim budd personol i'r darparwr ac ni ddylai fod ganddo gysylltiad blaenorol â'r dysgwr (para 18.29).

242. Os bydd dysgwr a/neu ei deulu yn penderfynu peidio â defnyddio'r gweithdrefnau datrys anghytundeb a drefnir gan yr awdurdod lleol, ni fydd hynny'n effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

⁸⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.114

Gwasanaethau eiriolaeth

243. Mae Adran 38 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, er mwyn darparu cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc y maent yn gyfrifol amdano, gan gynnwys yr opsiwn o ddarparu cynrychiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod gofyniad yn y Cod ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod teuluoedd ac eraill sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa'n gwybod bod gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gael. Roedd hyn ar wyneb y Bil drafft, ond mae Llywodraeth Cymru wedi egluro yn y Memorandwm Esboniadol y byddai'n well ymdrin â hyn drwy'r Cod.

244. O dan adran 62 o'r Bil, rhaid i awdurdodau lleol gyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eiriolaeth annibynnol at ddarparwr gwasanaeth eiriolaeth annibynnol. Mae paragraff 18.45 o'r Cod drafft yn dweud sut y gall eiriolwr helpu plentyn neu berson ifanc yn y sefyllfa honno. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau eiriolaeth yn briodol a bod eu hansawdd yn ddigon da.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

245. Cafwyd beirniadaeth eithaf cryf ar y maes hwn yn ystod y digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd ar 26 Ionawr. Isod, ceir crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd yn y digwyddiad i randdeiliaid: Mae a wnelo'r sylwadau'n gyffredinol â darparu gwybodaeth a chynngor, gwasanaethau datrys anghydfodau ac eiriolaeth annibynnol:

- Mae'r rhanddeiliaid yn credu nad yw'r Bil yn mynd yn ddigon pell i wneud y system yn llai gwrthwynebus. Bydd pobl yn dal i deimlo mai rhieni yn erbyn yr awdurdodau lleol yw hi. Ar hyn o bryd, mae rhieni yn gweld y system yn 'frwydr' ac yn teimlo bod angen iddynt fod yn barod i ymladd.
- Mae angen i deuluoedd gael gwybodaeth, cyngor a chymorth eiriolaeth cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'n hanfodol bod y cyngor hwn yn annibynnol. Mae rhieni yn fwy tebygol o dderbyn penderfyniadau nad ydynt yn eu hoffi o bosibl os daw'r penderfyniad hwnnw o ffynhonnell annibynnol, gredadwy.
- Nid yw teuluoedd yn gwybod ymhle mae gwybodaeth a chynngor ar gael. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth yn y sector ôl-16, sydd yn debyg i 'dwill du'. Dylai rhieni allu cael gafael ar ganllawiau sy'n egluro'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan CDU. Byddai hyn yn eu galluogi i ddeall eu hawliau'n well a'r opsiynau sydd ar gael iddynt os os byddant yn poeni am yr ysgol neu'r camau a gymerir gan eu hawdurdod lleol a'r penderfyniadau a wneir am eu plentyn.
- Mae angen eiriolaeth ar rieni yn ogystal ag ar blant, yn enwedig gan y bydd rhieni plant sydd ag ADY weithiau hefyd ag ADY eu hunain.
- Roedd y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn ergyd fawr i deuluoedd o ran cael gafael ar eiriolaeth a chynrychiolaeth. Mae rhai'n poeni am y gallu ig ael gafael ar gynrychiolaeth gyfreithiol yng Nghymru sy'n arbenigo yn system Cymru. Mae angen i'r system newydd fod yn fwy rhagweithiol wrth gynnig cyngor a gwybodaeth annibynnol.
- Mae angen i awdurdodau lleol ddarparu mwy o wybodaeth am beth yw'r gyfraith a beth yw hawliau dysgwyr sydd ag ADY a'u teuluoedd. Yr allwedd i osgoi cwynion yw gweithio gyda'r teuluoedd o'r dechrau'n deg, ond mae hyn yn golygu amser.
- Dylai eiriolaeth i gefnogi teuluoedd fod ar gael o ffynhonnell annibynnol o'r cychwyn cyntaf i osgoi anghytundeb drwodd at y camau datrys anghydfod. Mae angen i deuluoedd gael

cefnogaeth o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys pan fyddant yn mynd gerbron tribiwnlysoedd.

246. Un o'r pwyntiau cryfaf a wnaeth rhanddeiliaid oedd y dylai eiriolaeth annibynnol fod ar gael i rieni, yn ogystal ag i'r dysgwyr eu hunain. Ysgrifennodd Cynghair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA):

“The Bill does not explicitly provide for the provision of advocacy for parents, this in spite of the Code informing that ‘The child, child’s parent or young person should be enabled to participate as fully as possible in the decision making processes’. As the duty is extended to a ‘case friend’ it would seem incongruous not to apply the duty in relation to parents. As such we have concerns both that those most vulnerable will not be heard and that very young children, or children who lack sufficient capacity to understand (as set out in section 75 of the Act) may not have appropriate parental representation.”⁸⁶

247. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, a oedd yn rhan o banel dystiolaeth TSANA, wrth y Pwyllgor:

“If local authorities and bodies know that parents have this access to advocacy then that kind of helps to police things itself. Similarly, if they know that there are mechanisms in place to monitor the appeals that are going through, and that there’s some kind of redress on them if they do things wrong, then they’re going to do things right in the first instance. So, we need to make sure that appropriate monitoring mechanisms are built in, but also we need to nail the code down to make sure that we get proper advocacy, proper information and advice to families, because if local authorities know that that’s in place, then they’re going to do things right, early on, first.”⁸⁷

248. Dywedodd CLILC y byddai awdurdodau lleol yn ystyried pa drefniadau sydd ganddynt ar waith ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd, a sut y dylai'r rhain barhau o dan y drefn newydd:

“All local authorities will have to look at what arrangements they’ve got both for providing information and advice and for dispute resolution in the light of the Bill and in the light of the extended age range, because clearly they’ve not had to do that for post-16 before, so they all need to look at that and decide what arrangements will best suit their needs. There may be some where it all works very well and they’re happy to continue with the parent partnership arrangements, even though it won’t be a requirement as such. That will be something that they’ll have to look at as they come to implementation.”⁸⁸

249. Esboniodd SNAP Cymru bwysigrwydd eiriolaeth annibynnol fel rhan o gyfuniad o wasanaethau i deuluoedd, gan ddweud:

“If I could explain, if you were working with a family, there will be—not often, but on occasions—within the family, a difference of opinion between child and

⁸⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TSANA, [ALN75](#)

⁸⁷ Tystiolaeth Lafar, Panel TSANA - Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, [22 Mawrth 2017](#)

⁸⁸ Tystiolaeth Lafar, CLILC, [2 Mawrth 2017](#)

parent. So, the importance of having someone outside of that is clear. So, our practice has been that we would bring someone in from another region to work with the child and then you would continue working with the family. Because you cannot isolate one issue from the other. This is a family we're talking about and you need to look at the whole issue holistically. So, within that, advocacy is only one of the tools.”⁸⁹

250. Pwysleisiodd SNAP Cymru hefyd bwysigrwydd rhoi mecanweithiau osgoi anghytundeb ar ar waith cyn gynted byth ag sy'n bosibl:

“I can't stress how important it is to understand that, unless we work on the avoidance of disagreement at a much earlier stage and give that the status that it requires, then it could be very costly. (...)

It's really disappointing to me that, after all this time, too much emphasis is being put on formal disagreement resolution and formal advocacy, instead of looking at things in a very holistic way and taking early intervention. There doesn't have to be something wrong. Where there is a parental concern or a young person is unhappy, you need to be in there resolving issues, before they become deep rooted and require costly forms of advocacy, tribunals and formal disagreement resolution.”⁹⁰

Ymateb y Gweinidog

251. Fel y dywedwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu cryn dipyn ar y dybiaeth y bydd llai o anghytundeb a llai o anghydfodau wrth iddynt ariannu'r Bil ac ar ei rhagamcanion y bydd y diwygiadau'n niwtral o ran cost.

252. Mae SNAP Cymru a rhanddeiliaid eraill wedi dadlau y dylai'r wybodaeth a'r cyngor y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu darparu o dan adran 7 fod yn annibynnol, yn ogystal â'r gwasanaethau datrys anghydfodau a'r gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a gaiff eu cyflwyno'n ddiweddarach pan fydd gwrthdaro eisoes efallai wedi codi.

253. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn fodlon ar yr agweddau hyn ar y Bil, er i un o'i swyddogion gadarnhau:

“Information and advice can be provided. As long as it is consistent and balanced advice, then that could be provided by the local authority; it doesn't have to be an independent. When we get into a dispute situation, then there are aspects of the Bill that allow for independent advice or advocacy and so forth, depending on the escalation. But at the information point, it's not necessarily independent.”⁹¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

254. Un o amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yw sefydlu system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau. Mae'r Pwyllgor yn nodi

⁸⁹ Tystiolaeth Lafar, Panel TSANA - SNAP Cymru, [22 March 2017](#)

⁹⁰ Tystiolaeth Lafar, Panel TSANA - SNAP Cymru, [22 March 2017](#)

⁹¹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

y bydd y bwriad o gyflwyno CDU statudol i bob dysgwyr sydd ag ADY yn help i gael gwared ar y rhaniad artiffisial a dadleuol sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan ddileu un o'r prif bethau sy'n achosi tensiwn gwrthwynebus. Mae'r Pwyllgor felly'n poeni am y feirniadaeth eithaf cryf a gafwyd yn y dystiolaeth ynghylch hyn.

255. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Adran 7 o'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY. Rhoddir gwerth mawr ar ddarparu cyngor cyffredinol, neu wybodaeth i hyrwyddo'r system a sut y mae'n gweithio. Rydym hefyd yn nodi bod y Cod yn cynnig canllawiau ynglŷn â darparu'r wybodaeth hon, gan gynnwys y dylai fod yn 'gywir' ac yn 'niwtral'.

256. Mae'r Pwyllgor yn poeni, yn wahanol i'r drefn ar gyfer datrys anghydfod ac eiriolaeth, nad oes angen i'r drefn ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor fod yn annibynnol, ond mae'n derbyn y gall awdurdodau lleol benderfynu comisiynu cyngor a gwybodaeth annibynnol o dan yr egwyddorion comisiynu sydd yn y Cod drafft. Mae'r Pwyllgor yn credu, serch hynny, y dylai gwybodaeth a chyngor annibynnol fod ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni ar y cyfle cyntaf.

257. Un o'r prif bethau a oedd yn poeni'r rhanddeiliaid oedd y dylai eiriolaeth annibynnol fod ar gael i rieni, yn ogystal ag i'r dysgwyr eu hunain. Nid yw'r Bil yn darparu'n benodol ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth i rieni (oni fyddant yn gyfeillion achos), er bod y Cod yn dweud y dylid galluogi'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosesau penderfynu. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ddyletswydd i ddarparu eiriolaeth annibynnol yn cael ei hestyn i gyfaill achos ac felly'n cytuno â'r farn y dylai adran 62 o'r Bil gael ei diwygio i gynnwys rhieni hefyd.

258. Mae'r Pwyllgor yn poeni hefyd bod adran 62 (4) o'r Bil yn dweud y caiff trefniadau a wneir gan awdurdod lleol gynnwys darpariaeth ar gyfer talu i unrhyw berson, neu yng nghyswllt unrhyw berson, sy'n cyflawni swyddogaethau'n unol â'r trefniadau a wneir o dan yr adran honno. Mae'r Pwyllgor yn poeni y gallai hyn arwain at godi ffioedd ar y rhai sy'n gofyn am wasanaethau eiriolaeth annibynnol, ac yn credu y dylai gwasanaethau o'r fath gael eu darparu yn rhad ac am ddim ar gyfer y rhai sy'n eu defnyddio. Er efallai nad dyma fwriad polisi Llywodraeth Cymru, mae'r ffordd y mae adran 62 (4) wedi'i drafftio yn golygu y gallai hyn ddigwydd.

259. Mae'r Pwyllgor yn meddwl hefyd fod darparu gwybodaeth a chyngor yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau allweddol addysg dysgwr, a thrwy gydol cyfnodau allweddol y broses ADY a'r cyfnodau pontio allweddol, gan gynnwys wrth groesi'r bont at ddod yn oedolyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod gael ei gryfhau er mwyn hybu darparu gwybodaeth a chyngor yn ystod cyfnodau allweddol hyn bod y gwasanaeth hwnnw ar gael yn rhwydd ac yn hwylus i blant, i bobl ifanc ac i rieni.

Argymhelliad 26. Dylid diwygio adran 62 o'r Bil i sicrhau bod yn rhaid i awdurdod lleol hefyd ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i rieni nad ydynt yn gyfeillion achos.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil a/neu'r Cod yn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor annibynnol ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni ar y cyfle cyntaf.

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog sicrhau nad yw'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn golygu ei bod yn bosibl codi tâl ar y rheini sy'n gofyn am y gwasanaeth.

Argymhelliad 29. Dylid cryfhau'r Cod er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth a chyngor yn ystod cyfnodau allweddol addysg dysgwr, yn ystod cyfnodau

allweddol y broses ADY, a thrwy gyfnodau pontio allweddol a bod y gwasanaeth hwnnw ar gael yn rhwydd ac yn hwylus i blant, i bobl ifanc ac i rieni. Dylai hyn gynnwys yr adegau pan fydd pobl ifanc yn gadael y system addysg.

Argymhelliad 30. Dylai'r Bil a/neu'r Cod sicrhau bod gwybodaeth annibynnol a chyngor yn cael eu cynnig i blant, i bobl ifanc ac i rieni bob tro y bydd CDU yn cael ei adolygu, neu pan ddaw cynllun i ben, yn hytrach na dim ond pan fydd awdurdod lleol yn dechrau ymgysylltu â theulu.

13. Hawliau plant

Y cefndir a safbwynt y Bil

260. Mae'r Bil a'i ddogfennau ategol yn rhoi cryn bwyslais ar roi lle canolog i fuddiannau'r plentyn neu'r person ifanc, gan ddefnyddio model cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Croesawyd y dull hwn yn gyffredinol gan randdeiliaid ac roedd llawer yn pwysleisio bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y diwygiadau hyn yn iawn.

261. Mae Adran 6 o'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau roi sylw:

- a) I safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc;
- b) I bwysigrwydd bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw;
- c) I bwysigrwydd bod yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

262. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chyingor am ADY a CDY i blant a phobl ifanc (yn ogystal â'u rhoi i rieni ac arweinwyr ysgolion). Yn ôl y Cod drafft: 'Bydd angen i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu o dan y Cod hwn gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses, gan wrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau' (para 22). Mae fersiwn ddrafft y Cod hefyd yn cael ei hategu gan nifer o "egwyddorion cyffredinol", gan gynnwys "dylai pawb sy'n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc".

Deddfwriaeth ynglŷn â hawliau plant

263. Yn 2011, pleidleisiodd y Cynulliad yn unfrydol o blaid Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), ac wrth wneud hynny, hi oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i basio deddfwriaeth benodol ynghylch hawliau plant. Roedd y Mesur yn cryfhau ac yn adeiladu ar ymagwedd Llywodraeth Cymru at lunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, sef ei seilio ar hawliau. Roedd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i hawliau a rhwymedigaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol.

264. Daeth y Mesur i rym yn rhannol ym mis Mai 2012 gan olygu ei bod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gynllunio a datblygu polisi neu ddeddfwriaeth newydd, neu wrth adolygu neu newid deddfwriaeth neu bolisi presennol. Ar 1 Mai 2014, estynnwyd y ddyletswydd hon i holl swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

265. Mae adran 7(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁹² yn cynnwys dyletswydd ar unigolion perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn. Nid yw hyn yn berthnasol i Weinidogion Cymru sydd yn hytrach yn dod o dan Fesur 2011.

⁹² [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

Tystiolaeth rhanddeiliaid

266. Cafwyd cais cryf gan y Comisiynydd Plant am osod dyletswyddau i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ar wyneb y Bil hwn. Dywedodd y Comisiynydd fod hyn yn rhoi cyfle i hawliau plant fwrw gwreiddiau dyfnach mewn deddfwriaeth, polisi ac arfer yng Nghymru.

267. Adleisiwyd tystiolaeth Comisiynydd Plant Cymru yn ymateb nifer i'r ymgynghoriad ysgrifenedig sef bod cyfle wedi'i gollu wrth beidio â chynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar wyneb y Bil.

268. Mae Barnardo's yn credu bod cyflwyno'r Bil heb y dyletswyddau hyn yn anghyson i bob golwg. Mae Afasic yn cytuno, gan ddweud bod sylw dyladwy i'r Confensiwn yn hanfodol i'r Bil hwn.

269. Roedd Grŵp Monitro'r Confensiwn yng Nghymru'n adlewyrchu teimladau nifer o randdeiliaid yn ei sylw:

“Not only can we see no reason why a duty of due regard to the UNCRC and the UNCRDP is not explicit on the face of the Bill, but we believe the Bill would be better and more likely to deliver its principles and aims for its inclusion.”⁹³

270. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Comisiynydd Plant:

“there has probably not been a greater opportunity to further the Welsh Government's duties to pay due regard to children's rights than in this piece of legislation. Since the National Assembly got primary legislation powers, it's probably, in my view, the biggest piece of legislation that's focused on children and their fundamental rights, solely. (...)

this gives a fantastic opportunity, and really a vital opportunity, to absolutely cement Wales's commitment to children's rights through this legislation. (...)

I think that the strengthening would be that it would be empowering for children and young people. It really fits the ethos and aims of the Act to move away from a system that, clearly, is experienced by children and parents as disempowering, as being one that puts up barriers and acts as a sort of gatekeeping—keeping children away from exercising their rights to a full education and to fulfil their potential. (...)

I think that it would go such a long way to fulfilling some of the calls from the UN committee on the rights of the child, from the concluding observations last year. It would be a very positive and proactive response from Wales to the UN committee's recommendations.”⁹⁴

Ymateb y Gweinidog

271. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd wedi'i argyhoeddi gan y ddadl y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd i gyrrff perthnasol roi sylw dyladwy i'r Confensiwn. Mae'n credu bod y ddyletswydd

⁹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Grŵp Monitro'r Confensiwn yng Nghymru, [ALN60](#)

⁹⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru, [2 Mawrth 2017](#)

gyffredinol i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn sydd ar bob un o Weinidogion Cymru yn ddigonol a dywedodd wrth y Pwyllgor:

“It was very clear to me, as a Member of that committee [that considered the 2011 Measure], that once it is on the face of one piece of legislation, putting an enduring duty on Ministers and the delivery of public services, we will not have to go through this process of slavishly placing the same duty into every piece of legislation subsequent to it. It was very, very clear to me, as a member of that committee, that we wanted to move away from that box-ticking exercise and have a piece of legislation that was broad, all-encompassing and enduring, and that would deliver on the ambitions of the UNCRC, both in terms of subsequent legislation but also in terms of the delivery of services. (...)

I don't think it's a good way of legislating. I think we need to be very clear about having a statute book that is robust, that is transparent, that is accessible, and that means ensuring that when we do pass [legislation] we respect them and that we work on the basis of them, rather than trying to repeat them in subsequent Bills and pieces of legislation.”⁹⁵

272. Yn ei lythyr ar 11 Ebrill, cadarnhaodd y Gweinidog ei safbwynt gan ddweud nad yw wedi'i argyhoeddi o gwbl y byddai diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd sylw dyladwy'n cryfhau'r ffocws ar hawliau plant yn y Bil. Ychwanegodd:

“Hefyd mae un ffaith yr wyf yn teimlo'n gryf amdani, sef bod y Cynulliad eisoes wedi deddfu ar y pwynt hwn ac, yn briodol, wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion. Cyfrifoldeb Llywodraethau yw sicrhau bod eu cyfreithiau'n cydymffurfio â'r Confensiwn. Gellir hyd yn oed dweud bod y Llywodraeth, wrth drosglwyddo dyletswyddau sydd wedi'u hanelu at Wladwriaethau i ymarferwyr rheng flaen, yn esgeuluso ei dyletswyddau o dan y Confensiwn. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallaf ei gefnogi.”⁹⁶

273. Roedd llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ar 11 Ebrill hefyd yn ateb y cwestiwn ynglŷn ag a oedd yn barod i ystyried dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dywedodd

“Mae'r Bil yn adlewyrchu egwyddorion cyffredinol erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a darpariaethau eraill (gan gynnwys erthygl 24 ar addysg) sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwn (...)

Nid yw cyfeiriad penodol at y Confensiwn hwn ar wyneb y Bil yn angenrheidiol nac yn briodol.. (...)

Mae dadleuon tebyg o ran y Confensiwn yn berthnasol yma. Nid wyf yn argyhoeddedig ei bod yn briodol i weithwyr proffesiynol ar y rheng flaen fod yn destun dyletswydd o'r fath, gan fod y Confensiwn wedi'i gyfeirio at Wladwriaethau.”⁹⁷

⁹⁵ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

⁹⁶ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [11 Ebrill 2017](#)

⁹⁷ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [11 Ebrill 2017](#)

Rhagor o Ohebiaeth gan y Comisiynydd Plant

274. Ysgrifennodd y Comisiynydd Plant at y Prif Weinidog ar 31 Mawrth 2017 i ddweud ei bod yn siomedig iawn wrth glywed tystiolaeth Alun Davies am fater gosod dyletswydd sylw dyladwy ar gyrff a fydd yn gweithredu'r Bil.⁹⁸ Dywedodd y Comisiynydd fod y Gweinidog yn ffeithiol anghywir wrth ddweud bod y ddyletswydd bresennol sydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg.

275. Mae'r Comisiynydd yn dyfynnu enghraifft Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) sy'n cynnwys dyletswydd ar unigolion perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf honno i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn. Mae'n dweud y byddai'n anghyson i ddyletswydd o'r fath fod yn berthnasol i un grŵp o weithwyr proffesiynol ond nid i grŵp arall, neu i beidio â bod yn berthnasol yng nghyd-destun ADY. Ysgrifennodd y Comisiynydd:

“Due regard to the UNCRC should not, and does not start and end with Ministerial functions.”

Ymateb y Prif Weinidog

276. Ymatebodd y Prif Weinidog i'r Comisiynydd Plant ar 8 Mai 2017 gan egluro safbwynt Llywodraeth Cymru.⁹⁹ Cadarnhaodd y Prif Weinidog, er bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn yn absoliwt o hyd, nad yw'n cytuno bod hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn ym mhob prif deddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc. Gyda golwg ar y Bil, nid oedd y Prif Weinidog yn credu y byddai ychwanegu dyletswydd i roi sylw dyladwy ar ddarparwyr gwasanaethau'n arwain at well canlyniadau.

277. Mewn perthynas â'r Bil, nid oedd y Prif Weinidog yn credu bod rhoi dyletswydd sylw dyledus ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau yn arwain at well canlyniadau. Mae'r Prif Weinidog yn dweud hefyd:

“If we were to place a due regard duty directly on those exercising functions under the Bill, we risk distracting frontline practitioners from supporting learners by creating layers of red tape and bureaucracy...”

278. Mae llythyr y Prif Weinidog yn dweud hefyd bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil wedi hybu hawliau plant, a bod darpariaethau penodol yn y Bil yn adlewyrchu erthyglau pwysig a pherthnasol y Confensiwn. Roedd llythyr y Prif Weinidog hefyd yn cynnwys tabl yn dangos sut mae darpariaethau penodol y Bil yn mynd i'r afael ag erthyglau perthnasol y Confensiwn. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod y Confensiwn wedi'i anelu at lywodraethau ac mai eu swyddogaeth hwy yw rhoi ar waith y bensaerniaeth genedlaethol angenrheidiol o ran polisi a deddfwriaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

279. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr iawn y pwyslais yn y Bil ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef ar roi buddiannau'r plentyn neu'r person ifanc yng nghanol y llwyfan, ac roedd yn credu mai defnyddio model “cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn” yw'r ffordd iawn o'i chwmpas hi, a bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y diwygiadau'n iawn. Pwysleisir hyn drwy ddarpariaethau

⁹⁸ Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg at y Prif Weinidog, **31 Mawrth 2017**

⁹⁹ Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at Gomisiynydd Plant Cymru, **8 Mai 2017**

adrannau 6 a 7 o'r Bil sy'n gosod gofynion i'r rheini sy'n arfer swyddogaethau roi sylw dyladwy i blant a phobl ifanc neu eu cynnwys yn y broses benderfynu.

280. O ran a ddylai'r Bil gynnwys cyfeiriad penodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Comisiynydd Plant Cymru a rhanddeiliaid eraill, y collid cyfle drwy bpeidio â sicrhau bod ymrwymiad cyffredinol Cymru i hawliau plant yn bwrw gwreiddiau ar wyneb y Bil.

281. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod barn y Gweinidog bod dyletswydd gyffredinol eisoes ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn, yn rhinwedd Mesur 2011. Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd, fel y dywedir yn llythyr cyntaf y Prif Weinidog ar y Comisiynydd Plant, fod nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n adlewyrchu erthyglau pwysig a pherthnasol y Confensiwn. Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw adlewyrchu erthyglau perthnasol y Confensiwn yn narpariaethau'r Bil yr un fath â gosod dyletswydd ar y rheini sy'n gweithio yn y maes, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw'r erthyglau perthnasol mewn cof wrth wneud unrhyw benderfyniadau o dan y Bil ac a fyddai'n atgyfnerthu'r Confensiwn mewn ffordd nad yw'r Bil yn ei wneud.

282. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hollbwysig i'r Confensiwn hidlo drwy bolisiau at y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni ar 'lawr gwlad', a'u bod yn deall egwyddorion y Confensiwn wrth gyflawni dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor yn credu felly y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd benodol i gyrff perthnasol roi sylw dyladwy i erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

283. O ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod y Bil eisoes yn adlewyrchu egwyddorion cyffredinol y Confensiwn hwnnw, ond mae'n credu bod hyn unwaith eto'n cynnig cyfle i gryfhau ymrwymiad y Cynulliad i bobl anabl drwy sicrhau bod hawliau eto'n bwrw gwreiddiau o fewn y ddeddfwriaeth. Mae'r cais am gynnwys y Confensiwn hwn o fewn y Bil, ym marn y Pwyllgor, yn gryfach yn sgil y ffaith nad yw wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru yn yr un modd ag y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

284. Wrth argymhell y dylid cyfeirio'n benodol at y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y Bil, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r datganiad a'r amod a wnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch Erthygl 24 o'r Confensiwn ac yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn eto wrth ddrafftio unrhyw welliant.

Argymhelliad 31. Dylid diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd benodol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Argymhelliad 32. Dylai'r Bil gynnwys dyletswydd benodol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

14. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Y cefndir a safbwynt y Bil

285. Cafodd Bil drafft 2015 ei feirniadu oherwydd y diffyg sylw a roddwyd i'r Gymraeg ynddo. Yn y Bil a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r darpariaethau er mwyn i ddysgwyr ag ADY gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os honno yw eu dewis iaith. Mae adrannau 10 a 12 sy'n cyfeirio at baratoi a chynnal CDY gan gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol yn y drefn honno yn awr yn cynnwys gofyniad ei bod yn ystyried a dylid gwneud darpariaeth yn y Gymraeg ac, os felly, i nodi hyn yn y CDU.

286. Mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a nodir mewn CDY. Mae Adran 18 sy'n cynnwys y ddyletswydd i gyrff iechyd yn gosod gofyniad cyfochrog â honno a roddir ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ystyried a ddylid sicrhau darparu gwasanaeth yn Gymraeg ac, os felly, i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau hynny.

287. Wrth iddynt adolygu ADY yn eu hardal yn barhaus, yn unol ag adran 56, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ba mor ddymunol yw sicrhau bod darpariaeth ar gael yn Gymraeg.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

288. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y ddarpariaeth ADY yn faes lle mae darparu'n unol ag anghenion iaith unigolion yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth dan sylw.

289. Roedd tŷn y Bil yn cyffroi'r Comisiynydd ac mae'n ei weld yn fwy cadarn o lawer na'r Bil drafft. Fodd bynnag, mae'n credu y gellid cryfhau'r dyletswyddau yn y Bil ac yn dweud:

“- The requirements in sections 10 and 12 on school/college governing bodies and local authorities to decide when preparing an IDP if the ALN provision should be made available in Welsh implies that English is the default medium of provision and Welsh is the exception.

- Where Welsh language provision is identified in an IDP, the Bill sets duties on relevant persons to take all reasonable steps to ensure support through the medium of Welsh. This is not an absolute duty to provide Welsh language support and does not reflect the ambition and the challenge posed by the rest of the Bill. (Cymdeithas yr Iaith suggest the wording 'best efforts'.)

- The reference to 'desirability' in the section 56 duty on local authorities to keep overall ALN provision under review is not strong enough and needs to be tightened.”¹⁰⁰

290. O ran y darpariaethau yn adrannau 10 a 12 o'r Bil, dywedodd yr Uwch Swyddog Polisi yn swyddfa'r Comisiynydd:

¹⁰⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Comisiynydd y Gymraeg, [ALN13](#)

“Mi fyddai’n saffach, rwy’n meddwl, i aralleirio hynny i nodi y dylid penderfynu ai’r Gymraeg neu’r Saesneg ddylai iaith y ddarpariaeth fod.”¹⁰¹

291. Galwodd y Comisiynydd hefyd am ychwanegu unfed nod craidd ar ddeg i’r ddeddfwriaeth - darparu gwasanaethau ADY dwyieithog.

292. Y ddau brif fater arall sy’n ymwneud â’r Gymraeg sydd wedi codi o’r dystiolaeth yw:

- Y gwasanaethau ADY sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a gallu’r system i ateb y galw.
- I ba raddau y dylai gofynion y Bil fod yn realistig ac ystyried capasiti cyfredol y gweithleu ynteu a ddylid defnyddio’r ddeddfwriaeth i greu’r angen i gynyddu’r capasiti - y senario a elwir ‘yr iâr a’r wŷ’.

Ymateb y Gweinidog

293. Gwrthododd y Gweinidog yr awgrym bod y ffordd y mae adrannau 10 (5), 12 (5) ac 18 (5) wedi’u geirio yn awgrymu mai iaith ddiodyn y ddarpariaeth yw’r Saesneg yn hytrach na’r Gymraeg:

“Nid ydw i ac ni ddylai neb ddod i’r casgliad mai’r iaith yw’r iaith Saesneg ar wahân i’r iaith Gymraeg. Nid yw hynny yn y Bil. Nid yw’n dweud hynny yn y Bil. Rwy’n gwadu fod y dadansoddiad hynny’n bosibl, *frankly*- rwy’n gwadu’r posibiliad o hynny.”¹⁰²

294. Soniodd y Gweinidog am y problemau wrth nodi Cymraeg neu Saesneg yn y Bil oherwydd y gallai hynny hepgor ieithoedd eraill, er enghraifft iaith Arwyddion Prydain. Roedd hefyd yn amddiffyn defnyddio’r term “camau rhesymol” yn 10(6)(b), 12(6)(c) ac 18(5)(c), gan ddweud wrth y Pwyllgor:

“Mae’n lot cryfach, nag y mae pobl wedi awgrymu—

‘must take all reasonable steps’. ‘All reasonable steps’. Not ‘most reasonable steps’, ‘some reasonable steps’—‘all reasonable steps’.

Pob un cam sydd yn rhesymol i sicrhau bod yna ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg-pob un cam, a dyna beth y buaswn i’n disgwyl i’r darparwyr ei wneud.”¹⁰³

295. Roedd y Gweinidog yn derbyn y gellid cryfhau geiriad adran 56 ac roedd yn barod i ystyried awgrymiadau eraill.

296. O ran cynllunio’r gweithlu, dywedodd y Gweinidog:

“Beth yr ydw i’n awyddus iawn i’w wneud yw gosod amcanion clir ar gyfer gweithlu’r dyfodol. Byddaf i’n gwneud hynny trwy strategaeth y Gymraeg yn nes ymlaen yn y flwyddyn, ac rwy’n gobeithio y bydd y statws sydd gan y Gymraeg yn y Bil yma yn ddigon i sicrhau bod y plant sydd angen darpariaeth arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael hynny.. (...)”

¹⁰¹ Tystiolaeth Lafar, Comisiynydd y Gymraeg, **2 March 2017**

¹⁰² Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹⁰³ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

“Fy amcan i yw sicrhau bod gyda ni’r gweithlu i alluogi gwneud hynny. Rydym ni’n trafod hynny fel rhan o’r drafodaeth ar y strategaeth iaith yn ehangach. Ar hyn o bryd, rydw i’n meddwl bod beth sydd gyda ni yn y Bil yn ddigon i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael.”¹⁰⁴

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

- 297.** Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r gwelliannau i’r Bil ers drafft 2015, gan gynnwys cryfhau’r darpariaethau i ddysgwyr sydd ag ADY gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os honno yw eu dewis iaith.
- 298.** Mae’r Pwyllgor yn nodi pryderon Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â bod adrannau 10(5), 12(5) ac 18 (5) fel y maent wedi’u drafftio, yn awgrymu mai’r Saesneg yw cyfrwng diofyn y ddarpariaeth ac mai’r eithriad yw’r Gymraeg. Mae’r Pwyllgor hefyd yn nodi pryderon y Comisiynydd ynghylch geiriad adrannau 10 (6), 12 (10) ac 18 (5)(c), sy’n cyfeirio at bobl yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r Pwyllgor wedi ystyried hyn ac rydym yn gymharol fodlon ar eiriad yr adrannau.
- 299.** Fodd bynnag, dywedodd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos bod y pwyslais yn adrannau 10(5), 12(5) ac 18 (5)(c) ar ysgolion/SAB, awdurdodau lleol a chyrrff iechyd yn y drefn honno i benderfynu a ddylid darparu gwasanaeth yn y Gymraeg, ac yna i gymryd pob cam rhesymol i’w ddarparu yn y lle cyntaf. Mae’r Pwyllgor yn credu y dylid diwygio’r adrannau hyn i greu mwy o ragdybiaeth y dylai’r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â chais y dysgwr a/neu ei deulu. Byddai’r term ‘pob cam rhesymol’ yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau lle na fyddai hyn yn bosibl.
- 300.** Mewn perthynas ag adran 56 o’r Bil, mae’r Pwyllgor yn cytuno â Chomisiynydd y Gymraeg nad oedd y cyfeiriad at ddymunoldeb yn ddigon cryf a bod angen ei dynhau. Mae’r Pwyllgor yn credu y dylid dileu’r cyfeiriad hwn o adran 56, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i sicrhau bod ADY ar gael yn y Gymraeg ble bynnag y bo modd.
- 301.** Wrth i’r Pwyllgor ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn y Bil, gwelwyd bod posibilrwydd i ieithoedd eraill gael eu hepgor o CDU dysgwr, er enghraifft iaith Arwyddion Prydain. Mae’r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid estyn y ddarpariaeth sydd wedi’i chynnwys yn 56(3)(a) i gynnwys ieithoedd eraill, y gellid dros gyfnod eu cynnwys o fewn y darpariaethau’r Bil.
- 302.** Mae’r Pwyllgor wedi ystyried barn y Comisiynydd nad yw elfennau penodol o’r Bil yn adlewyrchu ei uchelgais a’r her i’r Gymraeg. Mae’r Pwyllgor yn cytuno â chais y Comisiynydd am ychwanegu unfed nod craidd ar ddeg ar gyfer y Bil er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ADY dwyieithog yn cael eu darparu.
- 303.** Mae sicrhau bod gwasanaethau ADY ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a gallu’r system i ateb y galw yn destun pryder gwirioneddol i’r Pwyllgor. Mae’r Pwyllgor yn cytuno y dylai gofynion y Bil fod yn realistig ac ystyried gallu presennol y gweithlu, ond mae’n credu y dylai’r Bil gynnwys darpariaethau penodol sy’n ei gwneud yn ofynnol, yn y dyfodol, i’r gweithlu allu cynnig darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob achos y gofynnir amdani. Dylai’r Gweinidog hefyd baratoi a chyhoeddi strategaeth i ddangos sut y byddai’r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu a’r amserlenni ar gyfer ei rhoi ar waith.

¹⁰⁴ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

Argymhelliad 33. Dylid diwygio adrannau 10(5), 12(5) ac 18(5)(c) er mwyn dileu'r hawl sydd gan y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a chyrff iechyd i benderfynu yn y lle cyntaf a ddylid cynnig darpariaeth yn Gymraeg. Os bydd dysgwr neu ei riant yn gofyn am ddarpariaeth Gymraeg, hyn ddylai fod yn fan cychwyn. Yna dylid gofyn i'r cyrff dan sylw gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn Gymraeg.

Argymhelliad 34. Dylid diwygio Adran 56 o'r Bil a'i chryfhau i ddileu'r cyfeiriad at ddymunoldeb a sicrhau bod darpariaeth dysgu ychwanegol ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys yn hytrach y term "lle bynnag y bo modd".

Argymhelliad 35. Dylai'r Gweinidog ystyried a ellid ymestyn adran 56(3)(a) i gynnwys ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, y gellid dros gyfnod eu cynnwys yn narpariaethau'r Bil.

Argymhelliad 36. Dylai'r Gweinidog fabwysiadu unfed nod craidd ar ddeg i'r Bil er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ADY dwyieithog yn cael eu darparu.

Argymhelliad 37. Dylai'r Bil gynnwys darpariaethau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol, yn y dyfodol, i'r gweithlu allu cynnig darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob achos y gofynnir amdani. Dylai'r Gweinidog hefyd baratoi a chyhoeddi strategaeth i ddangos sut y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu a'r amserlenni ar gyfer ei rhoi ar waith.

15. Y Tribiwnlys

Y cefndir a safbwynt y Bil

304. Mae'r Bil yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, fel y'i gelwir ar hyn o bryd, yn 'Dribiwnlys Addysg Cymru'. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn adlewyrchu rôl y Tribiwnlys yn well gan ei fod yn gwrando hawliadau ynglŷn â gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n berthnasol i ysgolion yn ogystal ag achosion AAA/ADY. Mae adrannau 79-81 yn cadw at drefniadau ymarferol presennol y Tribiwnlys ar y cyfan ac nid yw'r Bil yn newid yn sylweddol y ffordd y bydd y Tribiwnlys yn gwrando apelau.

305. Mae adrannau eraill o'r Bil sy'n berthnasol i'r Tribiwnlys. Y bwysicaf, mae'n debyg, yw adran 69, sy'n dweud os bydd y Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn, ei bod yn rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw. Nid yw hyn yn estyn i gyrff iechyd (adran 19(8)) ac mae'r 'diffyg ddannedd' sydd gan y Tribiwnlys gyda golwg ar roi cyfarwyddyd i gyrff iechyd wedi cael ei feirniadu.

306. Mae gwefan y Tribiwnlys¹⁰⁵ yn nodi bod y broses gyfan, o'r adeg pan fydd y Tribiwnlys yn derbyn cais tan y bydd yn gwneud penderfyniad, fel rheol yn cymryd rhwng rhyw bedwar a phum mis.

307. O'i gymharu â hyn, o dan drefn gwneud iawn y GIG,¹⁰⁶ rhaid i gyrff y GIG gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi adroddiad interim o fewn 30 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i gorff y GIG roi gwybod i'r sawl sy'n mynegi'r pryder am y rhesymau dros beidio â gwneud hyn ac anfon yr adroddiad interim cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o fewn chwe mis. O dan amgylchiadau eithriadol, rhaid darparu adroddiad terfynol yr ymchwiliad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ddeuddeng mis fan hwyraf ar ôl y dyddiad yr hysbyswyd un o gyrff GIG Cymru am y pryder.

308. Cadarnhaodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad yw gweithdrefn gwneud iawn y GIG wedi'i defnyddio mewn unrhyw achos AAA/ADY.¹⁰⁷

Barn rhanddeiliaid

Cylch Gwaith dros gyrff iechyd

309. Mae gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) amheuan cryf am y diffyg o ran ei gylch gwaith presennol o dan y Bil dros benderfyniadau a gweithredoedd cyrff iechyd. Roedd rhanddeiliaid yn y digwyddiad ar 26 Ionawr 2017 yn poeni'n fawr am hyn ac mae'n bwnc sydd wedi codi mewn llawer o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.

310. Dyma sut y mynegwyd hyn gan Tribiwnlys :

“In such cases, as things stand at present, the SENTW hears cases, and makes a decision which the local authority is responsible for delivering. If the Tribunal has determined that additional support is required for educational purposes, then the LA must ask the LHB to deliver. If the LHB refuse to deliver then either the LA must seek private provision (which can cause delay in the

¹⁰⁵ [Gwefan y Tribiwnlys](#)

¹⁰⁶ Trafodir gwneud iawn yn [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) 2011](#), (Rhan 6, paragraffau. 25-33, Rhan 7 ar gyfer cyrff y GIG yn Lloegr) a [fersiwn ddiwygiedig 2013 sef Canllawiau Gweithio i Wella](#). Ymdrinnir â'r amserlen ar gyfer ymdrin â gwneud iawn yn y GIG Cymru ym mhara.26 'Ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys'.

¹⁰⁷ Llythyr oddi wrth Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a Sgiliau, [11 Ebrill 2017](#)

provision being made, is costly and difficult to regulate) or the needs of the child remain unmet, which is inequitable and damaging to their education. In such circumstances, SENTW has no power to enforce. Parents must complain to the Welsh Government.

SENTW regards this as a fundamental weakness in the current system.

Unfortunately it is a weakness that it appears is likely to reoccur in the new ALN system as a result of Section 19 (8) of the Bill. (...)

If the Tribunal has formed a decision (a legal judgment made, by those appropriately skilled to do so, on the basis of the expert evidence before it), and the LHB which should deliver that service can simply say that it does not consent then it undermines the whole purpose of having a Tribunal and is likely to result in the needs of the child/young person not being met.”¹⁰⁸

311. Roedd tystiolaeth nifer o randdeiliaid yn awgrymu bod cael dwy system apelio i deuluoedd lywio drwyddynt yn groes i egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r amcan o greu system decach a mwy tryloyw, sef yr hyn sydd i fod wrth wraidd y Bil hwn.

312. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor, yn hytrach nag ymestyn cylch gwaith y Tribiwnlys, y dylid gwneud rhagor i uno'r ddwy broses apelio. Nodwyd hefyd nad oes gan y Tribiwnlys yr arbenigedd o reidrwydd i wneud penderfyniadau am faterion iechyd:

“I think a better approach, in a way, would be trying to find a way to make the two processes more aligned in some way. I'm not sure that SENTW should be able to direct health. I think it would need to be composed in a very different way, with different expertise, if it was going to reach that point. I think there is more work to be done to try to align the two processes, to try and make it less frustrating for the families involved.”¹⁰⁹

313. Dywedodd Dr Justin Warner o Goleg Brenhinol Pediatrig ac Iechyd Plant wrth y Pwyllgor y byddai'n croesawu gweld cyrff iechyd yn dod o dan gylch gwaith y Tribiwnlys:

“Absolutely, yes. That's exactly what we would want. I think it would—. I always spend a lot of my time writing letters to try and support children and often get nowhere, but this system would protect consultants as well. It would protect lots of people on that pathway of trying to provide that child with the best healthcare they can get. So, absolutely, yes, I agree with you.”¹¹⁰

314. Mae byrddau iechyd yn poeni y gallai penderfyniadau gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael eu gwneud ar sail glinigol gael eu diystyru gan Dribiwnlys sydd heb yr arbenigedd hwnnw ym maes iechyd. Serch hynny, roedd y byrddau iechyd a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn gyfforddus â'r syniad y gallai Tribiwnlys Addysg Cymru gyfarwyddo'r cyrff iechyd, cyn belled ag y byddai gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwneud â phenderfyniadau'r Tribiwnlys. I'r GIG, rhaid iddi fod yn glir bod

¹⁰⁸ Tystiolaeth Lafar, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, **2 Mawrth 2017**

¹⁰⁹ Tystiolaeth Lafar, Estyn, **8 Mawrth 2017**

¹¹⁰ Tystiolaeth Lafar, Justin Warner, **16 Mawrth 2017**

penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylai cyrff iechyd ei ddarparu'n cael eu gwneud gan bobl sy'n deall gofal iechyd darbodus ac anghenion clinigol.

315. Os oes modd mynd i'r afael â chyfansoddiad y Tribiwnlys mewn modd sy'n gwarantu cyfraniad gweithwyr iechyd proffesiynol, byddai'r byrddau iechyd i bob golwg yn derbyn un Tribiwnlys ac un system apelio. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrth y Pwyllgor:

“I think having independent health people as part of the tribunal process is the way forward.

But health professionals need to have assurance that the basis on which that assessment is made is that it's been made by somebody who understands the health needs.”¹¹¹

Llwyth Gwaith

316. Oherwydd y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc y disgwylir iddynt gael CDU, mae nifer o ymatebwyr yn pryderu am yr effaith a gaiff hyn ar lwyth gwaith y Tribiwnlys Addysg, ac ystyried y cynnydd cyfatebol yn nifer yr achosion a allai arwain at anghydfod.

317. Dywedodd y Tribiwnlys wrth y Pwyllgor fod achosion ar gynnydd, o bosibl gan ragweld y diwygiadau newydd:

“The appeal numbers, year on year since the 2011-12 year, have been rising. Okay, we're not talking a huge amount of figures, but still, they are significant. I think, in 2011-12, there were 84 appeals and six claims, whereas in 2015, there were 118 appeals and 15 claims. We're also seeing, on a like-for-like basis, the current year also increasing.”¹¹²

318. Yn y dyfodol, roedd y Tribiwnlys yn rhagweld:

“If we follow England we'll get a lull while everything beds in and people try the system and see how it's working. Then, if there are problems with the system, and it's not working—the people-centred approach isn't working, the departments aren't coming together enough, and the individual plans aren't going forward—then I think we will definitely see a spike of 20 per cent.”¹¹³

Tystiolaeth y Gweinidog

Cylch Gwaith dros gyrff iechyd

319. Gwrthododd y Gweinidog y ddadl y dylai'r Tribiwnlys allu cyfarwyddo cyrff iechyd a bod cael dwy system ar wahân yn rhoi teuluoedd o dan anfantais:

“I disagree with that conclusion. I disagree with that analysis. The tribunal exists to determine what educational or training provision should be provided. I've seen no evidence at all, either to this committee or elsewhere, that it is in

¹¹¹ Tystiolaeth Lafar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, **16 Mawrth 2017**

¹¹² Tystiolaeth Lafar, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, **2 Mawrth 2017**

¹¹³ Tystiolaeth Lafar, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, **2 Mawrth 2017**

any way restricted in its ability to do that. If the evidence exists, I would like to see it. I haven't seen it yet.

I believe that it would be introducing far too much complexity into the system if you have two means of appeal. At the moment, we have a very clear redress system. We can have disagreements about the robustness of it, I accept that—there will be political disagreements—but we have a very clear system of redress within the National Health Service, and we will have a very clear system of redress within the education service. And I think trying to pretend that they're both the same thing, doing the same job in the same place, I think would create unnecessary complexity in the system.”¹¹⁴

320. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog faint o achosion cysylltiedig ag AAA/ADY y mae teuluoedd wedi mynd ar eu trywydd drwy weithdrefn gwneud iawn y GIG. Atebodd y Gweinidog, cyn belled ag y gŵyr Llywodraeth Cymru na fu dim achosion o'r fath. Pan holwyd ef a yw rhieni'n teimlo'u bod wedi'u grymuso ddigon i ddefnyddio proses y GIG, dywedodd y Gweinidog

“A general lack of awareness of the process is a likely explanation for this. Work to raise awareness of this right to redress and encourage families to use it where appropriate will form a key part of the awareness raising strand of the ALN transformation programme.”¹¹⁵

Llwyth Gwaith

321. Dywedodd y Gweinidog yn ei lythyr ar 11 Ebrill “nid oes unrhyw reswm dros gredu y byddai achosion Tribiwnlys yn codi cyn neu ar ôl gweithredu'r cynlluniau”.¹¹⁶ Mae hyn yn gwrth-ddweud barn y Tribiwnlys, a oedd yn cyfeirio at y profiad a gafwyd yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn dweud nad oes fawr o werth cymharu'r sefyllfa â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr oherwydd bod natur y diwygiadau'n wahanol iawn.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

322. Y pryder mawr a fynegwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei hun, yw nad yw penderfyniadau a gweithredoedd cyrff ieuchyd nac unrhyw bwerau i gyfarwyddo'r cyrff ieuchyd hynny yn dod o dan gylch gwaith y Tribiwnlys o gwbl yn rhinwedd y Bil, oherwydd o dan ddarpariaethau 19(8) dim ond os bydd yn cytuno i wneud hynny y mae'n rhaid i un o gyrff y GIG gydymffurfio ag unrhyw un o orchmynion y Tribiwnlys. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf â'r pryder hwn.

323. Mae'r system bresennol, a'r system a fyddai'n parhau o dan ddarpariaethau'r Bil, yn darparu ar gyfer dwy weithdrefn gwneud iawn ar wahân ar gyfer anghydfodau ynglŷn ag Angen Dysgu Ychwanegol (h.y. y Tribiwnlys a system gwynion a gwneud iawn y GIG). Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan nifer o randdeiliaid bod cael dwy system apelio i deuluoedd lywio drwyddynt yn groes i egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r amcan o greu system decach a mwy tryloyw, sef yr hyn sydd i fod wrth wraidd y Bil hwn. Mae'r Pwyllgor, felly, yn credu y dylid diwygio'r Bil er mwyn i benderfyniadau a gweithredoedd cyrff ieuchyd a'r pŵer i gyfarwyddo'r cyrff hynny o dan y Bil ddod o dan gylch gwaith y Tribiwnlys.

¹¹⁴ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

¹¹⁵ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [22 Mawrth 2017](#)

¹¹⁶ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol oes, [11 Ebrill 2017](#)

324. Wrth estyn cylch gwaith y Tribiwnlys i gynnwys cyrff iechyd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylai cyrff iechyd ei ddarparu gael eu gwneud gan bobl sy'n deall gofal iechyd darbodus ac anghenion clinigol. Rydym felly'n cytuno â phryderon y byrddau iechyd na ddylai penderfyniadau gweithwyr iechyd proffesiynol a wneir ar sail glinigol gael eu diystyru gan Dribiwnlys sydd heb yr arbenigedd iechyd hwnnw.

325. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, er mai 'tribiwnlys datganoledig' yw'r Tribiwnlys, fod y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei lywodraethu'n cynnwys nifer o swyddogaethau Gweinidogion y Goron. Felly, mae'n debygol y byddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i newid cyfansoddiad y Tribiwnlys a gwneud unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n angenrheidiol, a dylid gofyn am y cydsyniad hwnnw yn y ffordd arferol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai newid cyfansoddiad y Tribiwnlys er mwyn iddo gynnwys barn ac arbenigedd clinigol i raddau digonol.

326. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd y gallai llwyth gwaith y Tribiwnlys gynyddu yn sgil y nifer cynyddol o ddysgwyr y disgwylir iddynt gael CDU, a'r cynnydd cyfatebol yn y nifer o achosion a allai droi'n anghydfod. Er ei bod yn anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd lefel y cynnydd a all ddiwydd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried profiadau system y tribiwnlys yn Lloegr ers cyflwyno diwygiadau yno, er mwyn helpu i liniaru unrhyw effaith debyg y gallem ei hwynebu yng Nghymru.

Argymhelliad 38. Dylid diwygio'r Bil er mwyn i benderfyniadau a gweithredoedd cyrff iechyd a'r pŵer i gyfarwyddo cyrff iechyd mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ddod o dan gylch gwaith y Tribiwnlys. Os digwydd bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer unrhyw newidiadau, dylid gofyn am hyn yn y ffordd arferol.

Argymhelliad 39. Dylai'r Gweinidog ystyried sut y gellid newid cyfansoddiad y Tribiwnlys er mwyn iddo gynnwys barn ac arbenigedd clinigol i raddau digonol. Dylai'r Gweinidog hefyd ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau eraill i gyfansoddiad y Tribiwnlys er mwyn sicrhau cydbdwyseidd priodol rhwng arbenigedd iechyd ac arbenigedd addysgol.

Argymhelliad 40. Dylai'r Gweinidog ystyried profiadau system y tribiwnlys yn Lloegr ers cyflwyno diwygiadau yno, er mwyn helpu i liniaru unrhyw effaith debyg yng Nghymru.

16. Goblygiadau ariannol a goblygiadau ar gyfer adnoddau

Y cefndir a'r safbwynt yn y Bil

327. Mae'r crynodeb yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru adeg cyflwyno'r Bil (tudalennau 86-87) yn amcangyfrif, dros y cyfnod o bedair blynedd 2017-18 tan 2020-21, yr arbedid cost weinyddol net o £2.2 miliwn (arbed £14.2 miliwn drwy gyflwyno system ratach o'i chymharu â £12 miliwn o gostau pontio). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau pontio, ond nid yw'n cynnwys 'costau suddedig' sef £1.8 miliwn (costau sydd wedi'u hysgwyddo eisoes cyn rhoi'r Bil ar waith).

328. Ar ôl sylwi ar gamgymeriadau yn yr Asesiad gwreiddiol, cyhoeddodd y Gweinidog ddiweddariad gan gynnwys tablau manwl yn lle'r rhai yr oedd y gwallau hyn yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn yr Asesiad. Mae'r rhain yn awgrymu bydd cost y system ADY newydd yn awr yn ôl yr amcanestyniadau £3.19 miliwn yn llai y flwyddyn. Yn yr asesiad, amcangyfrifwyd mai £3.54 miliwn fyddai'r gost. (Y ffigurau hyn yw'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd y system newydd yn ei arbed, ond nid yw'n ystyried y costau pontio.)

329. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ail-gyfrifo'r gost gweinyddol net, sef y £2.2 miliwn a arbedid y cyfeirir ati uchod. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu ymgorffori'r newidiadau hyn ac unrhyw newidiadau eraill yn yr EM/ Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan gaiff ei ddiwygio ar ôl trafodion Cyfnod 2. Mae'n ymddangos, ar ôl gwneud y cywiriadau, mai'r gost weinyddol net a arbedid dros y cyfnod o bedair blynedd 2017-18 tan 2020-21 fyddai £809,630 (cyfartaledd o £202,408 y flwyddyn).

330. I grynhoi, felly, yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan y Gweinidog:

- Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd costau parhaus y system ADY newydd £3.19 miliwn yn llai y flwyddyn na chost y system bresennol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd llai o anghytundebau ac anghydfodau o dan y system newydd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld £12 miliwn o gostau pontio yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21. Felly, yn ystod y cyfnod hwn o bedair blynedd, mae'n ymddangos y llwyddir i arbedid tua £ 800,000 (ar gyfartaledd tua £200,000 y flwyddyn) ar gostau gweinyddol net.

Costau pontio

331. Mae'r costau pontio y bydd eu hangen i weithredu'r system newydd, yn cael eu cyfrifo dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21, sef £12 miliwn (cyfartaledd o £3 miliwn y flwyddyn). Bydd £9.4 miliwn o hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru:

- Bydd £7.0 miliwn ar ffurf grantiau pontio i'r sefydliadau yr effeithir arnynt.
- Bydd £2.4 miliwn yn gostau pontio i Lywodraeth Cymru

332. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld i ddechrau y byddai gweddill y costau pontio, sef £2.6 miliwn yn cael eu talu gan gyrrff cyhoeddus ar wahân i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r Bil a chyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi pecyn cyllid gwerth £20 miliwn i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil a'r rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. Dywedodd wrth

y Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror 2017 fod hyn yn disodli'r dyraniad cost £2.6 miliwn i gyrff cyhoeddus eraill.¹¹⁷

333. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid, rhoddodd y Gweinidog wybodaeth ychwanegol am y £20 miliwn.¹¹⁸ Ailadroddodd y Gweinidog yn ei lythyr at y Pwyllgor dyddiedig 11 Ebrill¹¹⁹ fod y £20 miliwn ar gyfer ariannu trawsnewid ADY drwyddi draw yn hytrach na dim ond y pontio o un system statudol i un arall drwy gyfrwng y Bil. Dywed y Gweinidog ei bod yn anodd gwahanu'r gweithgareddau hynny nad ydynt ond yn canolbwyntio ar roi'r fframwaith deddfwriaethol ar waith.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

334. Roedd llawer o randdeiliaid a soniodd am adnoddau yn teimlo y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y sawl sy'n ymwneud â rhoi'r Bil ar waith er mwyn iddo lwyddo. Dywedasant fod y rhan fwyaf o wasanaethau eisoes yn cael trafferth wrth geisio ariannu'r system bresennol sy'n llai cynhwysfawr. Dywedodd rhai'n blwmp ac yn blaen eu bod yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn orobeithiol wrth asesu bod y Bil yn gost niwtral.

335. Y rhesymau a nodwyd amlaf dros fod angen adnoddau ychwanegol oedd:

- bod angen gweithlu mwy i ddelio â'r dyletswyddau cydweithio newydd, cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r llwyth gwaith cynyddol wrth weinyddu rhagor o gynlluniau statudol y disgwylir y bydd gofyn amdanynt (yn fras o tua 12,000 i 105,000 o gynlluniau a hynny heb ystyried dysgwyr cyn ac ar ôl oedran ysgol statudol.);
- y gallu newydd i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch ADY 0 bydd angen rhagor o amser ac adnoddau i fynd i'r afael â hyn, ac
- ehangu'r ddarpariaeth statudol i blant 0-3 a dros 16 oed.

336. Mewn gwirionedd, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arbedion y mae'n rhagweld yn sgil llai o wrthdaro a nifer llai o anghytundebau i wrthbwysu costau pontio sefydlu'r system newydd. Felly, mae'n amcangyfrif y bydd y Bil yn arbed arian yn y tymor hir. Ym maes llywodraeth leol y farn gref yw bod y costau a arbedir yn ôl yr amcangyfrifon yn sgil llai o anghytundeb yn afrealistig ac wedi'u goramcangyfrif.

337. Pan ofynnwyd a yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif y costau i awdurdodau lleol o dan y drefn newydd, er enghraifft ymateb i geisiadau gan rieni i ailystyried ysgol neu benderfyniadau coleg am ADY, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“It's highly likely. I think the RIA overestimates the potential savings to local authorities by the fact that the Bill removes—. Well, there will be no disagreements or appeals in future about not having a statement, but there could still potentially be lots of other disagreements, (...)

It's probably inevitable that the system will be tested and if you look at the number of statemented children who had disagreements or took appeals about the content of their statement then, if you extrapolate that across, as you say, the extra 100,000-plus children in compulsory education, plus those in further

¹¹⁷ Tystiolaeth Lafar, Y Pwyllgor Cyllid, **8 Chwefror 2017**

¹¹⁸ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at y Pwyllgor Cyllid, **8 Mawrth 2017**

¹¹⁹ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **11 Ebrill 2017**

education, to whom the right of appeal will also be extended, which it currently isn't, then you are looking at quite a lot more cases. We don't know. (...)

I think the savings are overestimated. Now, I can't imagine that the new system will cost any less than the current system does. As to whether it will cost more, yes, that's potential—again, it'll be something that we would have to keep under review over transition.”¹²⁰

338. Mae awdurdodau lleol Caerffili, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf yn y drefn honno, yn credu bod disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran arbed costau yn yr Asesiad yn annhebygol o fod yn realistig, yn rhy optimistaidd ac yn oramcangyfrif sylweddol. Mae'r awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd estyn y ddarpariaeth hyd at 25 oed yn rhoi pwysau ar y capasiti ac nad yw'r costau ychwanegol wedi'u hystyried. Maent hefyd yn cyfeirio at y diwygiadau addysg eraill y mae llywodraeth leol eisoes yn gyfrifol am ei gweithredu, a'r disgwyliadau ychwanegol yn sgil y Bil hwn ar ben y rheini.

339. Dywedodd SNAP Cymru wrth y Pwyllgor fod yr Asesiad yn gorddatgan cost bresennol darparu gwasanaethau datrys anghydfodau, a'i fod yn sgil hynny'n goramcangyfrif faint o arbedion a sicrhed petai llai o anghytundebau ac apelau, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei ragweld. Dywedodd SNAP fod yr Asesiad yn dangos bod awdurdodau lleol yn gwario £2.8 miliwn y flwyddyn ar gaffael gwasanaethau datrys anghydfodau o dan y system bresennol, ond bod y ffigur gwirioneddol yn debycach i £800,000. Mae'r Asesiad yn dyfynnu data SNAP yn ffynhonnell ar gyfer ei ffigurau, er bod SNAP yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi 'camddeall' y data. Maent yn dadlau:

“All conclusions drawn from this grossly misrepresentative figure [the £2.8 million annual cost to local authorities of dispute resolution] cannot be considered sound.”¹²¹

340. Nid oes a wnelo arwyddocâd yr anghysondebau yn yr Asesiad gymaint â faint y mae SNAP yn ei gael neu beidio, ond â'r goblygiadau ar gyfer cadernid gweddill costio'r Bil gan Lywodraeth Cymru os yw'r costau sylfaenol wedi'u camgyfrif. Mae'n ymddangos bod yr arbedion eisoes wedi gostwng o £2.2 miliwn i £800,000 dros y cyfnod rhwng 2017-18 a 2020-2021 yn sgil y camgymeriadau yn yr asesiad gwreiddiol, y mae'r Gweinidog wedi hysbysu'r Pwyllgor yn eu cylch. Os bydd angen diwygio'r costau sylfaenol ar gyfer datrys anghydfodau, gallai hyn newid yr arbedion arfaethedig eto.

341. Adroddodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei bod yn debygol y gwelir cynnydd yn nifer yr achosion oherwydd y bydd teuluoedd yn awyddus i ddatrys problemau cyn i'r system newydd gael ei chyflwyno ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn dal yn ôl wrth iddynt ddisgwyl am y newidiadau. Dywedodd y Tribiwnlys y dylai fod cyfnod tawel wedyn wrth i'r system newydd fwrw gwreiddiau a theuluoedd yn gweld sut mae'n gweithio. Yna, petai problemau'n codi, gwelid cynnydd o ryw 20% o bosibl yn nifer yr achosion. Mae hyn i gyd yn seiliedig ar y profiadau yn Lloegr cyn ac ar ôl cyflwyno'r diwygiadau yno ym mis Medi 2014.

342. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig byr i Baroddrwydd awdurdodau ac ysgolion i gyflawni gofynion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd (ADY), sydd yn ôl yr arolygiaeth yn un o “gyfres” o adolygiadau tebyg dros y blynyddoedd nesaf.

¹²⁰ Tystiolaeth Lafar, CLILC, 2 Mawrth 2017

¹²¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, SNAP Cymru, ALN78

Trosglwyddo cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol ôl-16

343. Roedd llywodraeth leol yn poeni am drosglwyddo'r ddyletswydd bresennol sydd gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ADY arbenigol ôl-16. Roedd CLILC yn poeni, os bydd y cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar sail y boblogaeth yn hytrach nag ar sail yr union nifer o ddysgwyr ôl-16 sydd ag ADY arbenigol, na fyddai llawer o awdurdodau lleol yn gallu talu eu costau.

344. Dywedodd CLILC fod amrywiadau sylweddol yn y galw rhwng awdurdodau lleol a rhwng blynyddoedd, sy'n golygu bod unrhyw rannu ar y cwantwm cyllid presennol rhwng y 22 awdurdod yn debygol o fod yn annigonol ar gyfer yr hyn a fydd yn ofynnol gan rai awdurdodau.¹²²

345. Dywedodd Bro Morgannwg yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Supporting pupils into post 16 specialist provision is based on individual need and as a result can be very expensive. Currently [the Welsh Government] has responsibility for this but in the Bill this responsibility transfers to LAs. Funding for these placements will be allocated to LAs through a population distribution formula that does not allow fluctuations of need over time. The Welsh Government recognise that there is an “upward trend” in demand for such placements and an increase in numbers post transfer of funding could have significant financial implications for LAs.”¹²³

Ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid

346. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi gwneud gwaith craffu penodol ar wahân ar oblygiadau ariannol y Bil. Gosodwyd adroddiad craffu'r Pwyllgor Cyllid gerbron y Cynulliad ar 15 Mai 2017.¹²⁴ Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud 10 o argymhellion ynglŷn ag agweddau penodol ar y Bil.

Ymateb y Gweinidog

347. Roedd y Gweinidog yn bendant pan ymddangosodd am y tro cyntaf gerbron y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2017 nad ymarfer arbed costau yw'r Bil.

“The purpose of this legislation is not to reduce budgets, but to deliver a more robust system of support for people who need it. We are funding the transition. (...)

We're looking at delivering those savings, certainly, but what I don't want to do is to come to this committee and say, 'That is the reason why we're doing it; that is the purpose; that is the objective', because the objective is a far better system, not a cheaper system.”¹²⁵

348. Ailadroddodd Alun Davies y neges hon yn Y Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror 2017.¹²⁶

349. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi dau lythyr ynglŷn â'r wybodaeth ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Daeth y llythyr cyntaf, dyddiedig 7 Chwefror, ar ol i Lywodraeth Cymru sylwi ar wallau

¹²² Tystiolaeth Ysgrifenedig, CLILC, [ALN18](#)

¹²³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Cyngor Sir Bro Morgannwg, [ALN09](#)

¹²⁴ [Adroddiad y Pwyllgor Cyllid](#) am oblygiadau ariannol Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

¹²⁵ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [12 Ionawr 2017](#)

¹²⁶ Tystiolaeth Lafar, y Pwyllgor Cyllid, [8 Chwefror 2017](#)

mewn rhai o'r tablau yn yr Asesiad a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil. Daeth yr ail mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor am ddibynadwyedd costau datrys anghydfodau, yn dilyn tystiolaeth a gyflwynwyd gan SNAP Cymru.¹²⁷ Mae'r Gweinidog hefyd wedi ysgrifennu trydydd llythyr, at y Pwyllgor Cyllid, gan ddarparu rhagor o wybodaeth am y pecyn cyllid gwerth £20 miliwn a gyhoeddwyd ganddo i gefnogi rhoi'r Bil ar waith.¹²⁸ Daeth hyn yn sgil ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror 2017.

350. Roedd llythyr y Gweinidog ar 11 Ebrill (a oedd yn ymateb i wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor amdani) yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn dal i ragweld arbediad gweinyddol yn sgil y Bil.¹²⁹ Mae'n amcangyfrif y bydd hyn yn £3.19 miliwn y flwyddyn. Dyma'r arbedion a amcangyfrifir yng nghostau gweithredu'r system arfaethedig ac nid yw'n cynnwys costau pontio (gweler hefyd yr adran Cefndir uchod).

351. Gan ymateb i amheuon SNAP Cymru am y ffigurau sy'n cyfeirio at gostau datrys anghydfodau ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog yn dweud bod hyn yn "anffodus" oherwydd iddynt gael eu seilio ar ddata a ddarparwyd ac a wiriwyd gan SNAP. Dywed fod ei swyddogion wedi cyfarfod â SNAP a'u bod yn gweithio drwy'r goblygiadau ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Petai unrhyw newidiadau i'r arbedion cyffredinol yn sgil y Bil, addawodd y Gweinidog y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

352. Mae'r Gweinidog yn mynnu nad yw'r dyraniad o £20 miliwn yn tanamcangyfrif cost gweithredu'r Bil [gan Lywodraeth Cymru]. Dywed fod y £20 miliwn wedi ei anelu at yr agenda trawsnewid ADY ehangach yn hytrach na dim ond at weithredu'r Bil ei hun.

353. O ran y cwestiwn ynglŷn â sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu, mae'r Gweinidog yn rhagweld dyraniad grant yn hytrach na phroses ymgeisio am grant, er y bydd hynny'n cael ei seilio ar feini prawf clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir.

354. Dywedai llythyr y Gweinidog ar 11 Ebrill fod gwaith ar y gweill gyda phartneriaid i sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer y diwygiadau. Dywedai hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ar barodrwydd ac asesiadau i fesur lefel y parodrwydd hwnnw, yn ogystal ag adolygiad thematig Estyn.

Trosglwyddo cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol ôl-16

355. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror 2017:

"There are particular areas—for example, the transfer of funding to local authorities for further education placements—where we need to take decisions. At the moment, we have a budget available for that with Careers Wales. We will need to transfer that budget and then we need to take decisions. Do we ring-fence it? Do we simply put into the RSG? Now, I have no view on that at the moment, and I want to have that conversation with people, but I do have worries, quite honestly, because if you ring-fence a particular amount of money, that ring fence could end up being a cap and we don't want that. So, I think we need to have a conversation with local government about the sorts of financial structures that enable all local authorities to receive the sorts of resources they need."¹³⁰

¹²⁷ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [12 Ionawr 2017](#)

¹²⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [12 Ionawr 2017](#)

¹²⁹ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [11 Ebrill 2017](#)

¹³⁰ Tystiolaeth Lafar, Pwyllgor y Cyllid, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, [8 Chwefror 2017](#)

356. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi awgrymu y bydd y cyllid yn y Grant Cynnal Refeniw. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“These conversations are ongoing. They are a matter for the distribution sub-group. (...)

It's a complex matter and it's one where conversations are taking place.”¹³¹

357. Yn ei llythyr ar 11 Ebrill ychwanegodd y Gweinidog:

“The funding for specialist post 16 placements will be transferred to the Revenue Support Grant, which is appropriate as this is a transfer of funding, not a time specific grant. The details of this transfer are being discussed by the Distribution Sub Group.”¹³²

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

358. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch cadernid yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac ystyried bod angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cywiriadau i rai o'r ffigurau a bod rhai rhanddeiliaid yn amheus am yr amcangyfrif bod y Bil yn niwtral o ran cost a'i allu i sicrhau arbedion.

359. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan lawer o randdeiliaid bod Llywodraeth Cymru wedi goramcangyfrif yr arbedion drwy ragweld y bydd costau datrys anghydfodau'n is. Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai lefel yr arbedion hyn fod yn is hefyd ar ôl i Lywodraeth wneud gwaith gyda SNAP i egluro costau datrys anghydfodau ar hyn o bryd. Yng ngoleuni hyn, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei rhagdybiaeth y bydd y costau is ym maes datrys anghydfodau yn gwrthbwysu costau pontio eraill

360. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog wedi addo cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig i gynnwys unrhyw gywiriadau. Ac ystyried yr ansicrwydd ynghylch llawer o'r costau a geir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys ar ba sail y mae'r arbedion wedi'u hamcangyfrif, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto a chynnig eglurder ynglŷn â'i hamcangyfrifon o gostau ac arbedion cyn cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2.

361. Fel y nodwyd yn adran 11 o'r Adroddiad hwn (Cydwethredu â'r sector iechyd a'i gynnwys) mae'r Pwyllgor yn poeni bod rôl 'cydlynedd iechyd', fel y'i crybwyllir yn llythyr Gweinidog ar 11 Ebrill 2017 yn codi cysyniad newydd nad oedd wedi'i gynnwys yn y Bil nac yn y dogfennau a oedd yn cydfynd ag ef. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn yn y Memorandwm Esboniadol a baratour ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys manylion y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gweler Argymhelliad 21)

362. O ran trosglwyddo'r cyfrifoldeb, a'r cyllid cyfatebol, am y ddarpariaeth arbenigol ôl-16 i awdurdodau lleol, mae'r Pwyllgor yn cytuno â phryderon CLILC, sef os caiff yr arian ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar sail y boblogaeth yn hytrach nag ar union niferoedd y dysgwyr ôl-16 sydd ag ADY arbenigol, y bydd llawer o awdurdodau lleol yn methu â thalu eu costau. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr sydd ag ADY.

¹³¹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹³² Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **11 Ebrill 2017**

363. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog, drwy'r Is-grŵp Dosbarthu, ystyried dulliau amgen ar gyfer ariannu darpariaeth arbenigol ôl-16, gan gynnwys:

- a ddylai Llywodraeth Cymru gadw'r cyllid, gydag awdurdodau lleol wedyn adennill costau yn seiliedig ar y gwir nifer o ddysgwyr y darperir ar eu cyfer;
- a ddylai'r cyllid gael ei drosglwyddo ar ffurf grant ar wahân yn hytrach nag o fewn y Grant Cynnal Refeniw; neu
- a ddylid ystyried rhyw fodd arall o ddynodi'r cyllid angenrheidiol o'r grant cyffredinol sydd heb ei neilltuo y bydd pob awdurdod lleol yn ei gael drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

364. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaeth Pwyllgor Cyllid y Cynulliad i graffu ar y Bil. Mae'n hanfodol canolbwyntio craffu penodol ar yr elfennau ariannol hyn, ac mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Pwyllgor Cyllid wedi gwneud argymhelliad ar wahân am gyllido'r ddarpariaeth arbenigol ôl-16, ond yn credu y dylid ystyried hyn ochr yn ochr ag argymhelliad y Pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn.

Argymhelliad 41. Dylai'r Gweinidog edrych eto ar yr hamcangyfrifon ar gyfer costau ac arbedion a chynnig eglurder yn eu cylch cyn cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2.

Argymhelliad 42. Dylai'r Gweinidog, drwy'r Is-grŵp Dosbarthu, ystyried dulliau amgen o ariannu'r ddarpariaeth arbenigol ôl-16.

Argymhelliad 43. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid.

17. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

365. Mae'r Bil yn rhoi 32 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Rhestrir y rhain mewn tabl ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.¹³³

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

366. Mae un o'r pwerau a bennir yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru Iunio Cod Dysgu Ychwanegol, a fydd ynddo'i hun yn offeryn statudol. Mae Adran 4 o'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ac mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori yn ei gylch cyn iddo ddod i rym. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud Cod o dan weithdrefn negyddol y Cynulliad. Mae hyn yn golygu y bydd yn dod yn gyfraith oni fydd Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu ei wrthod, yn hytrach na bod gofyn cael eu cymeradwyaeth yn benodol.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

367. Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid sydd wedi cynnig sylwadau am y mater hwn wedi dweud y dylai'r Cod ADY gael ei wneud o dan weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, sy'n golygu ei bod yn rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn i Weinidog Cymru allu cyhoeddi'r Cod. Bydd hyn yn sicrhau lefel uwch o graffu arno a mwy bwysu a mesur.¹³⁴ Nid oes neb wedi dweud yn benodol ei fod yn fodlon iddo gael ei wneud o dan y weithdrefn negyddol. Mae hyn yn golygu y daw'n gyfraith oni wnaiff Aelodau'r Cynulliad benderfynu ei wrthod, yn hytrach na bod gofyn cael eu cymeradwyaeth yn benodol.

Ystyriaethau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

368. Mae Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad wedi craffu'n benodol ar y Bil ar wahân. Gosodwyd Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion am bwerau dirprwyedig y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad ar 24 Mai 2017.¹³⁵ Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwneud 12 o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n rhoi gweithdrefn uwchgadarnhaol ar waith i wneud y Cod ADY.

Ymateb y Gweinidog

369. Craffwyd ar waith y Gweinidog gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 27 Chwefror 2017 gyda golwg ar ddirprwyo pwerau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Bil. Dywedodd

“And if you take, for example, the code, I've given an undertaking to the Assembly committee that I'm very happy for them to examine the code, in addition to the statutory process of enactment of that piece of secondary legislation, to ensure that we have the fullest possible scrutiny available for Assembly Members.”¹³⁶

¹³³ [Y Memorandwm Esboniadol](#)

¹³⁴ Yn ôl y weithdrefn gadarnhaol, ni chaiff Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer eu wneud is-ddeddfwriaeth oni fydd y Cynulliad wedi pasio penderfyniad sy'n cymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth. Felly, bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad ar ffurf ddrafft, ac ni cheir ei rhoi ar waith nes i'r drafft gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

¹³⁵ [Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

¹³⁶ Tystiolaeth Lafar, Cyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [27 Chwefror 2017](#)

370. Dywedodd hefyd:

“What section 5 seeks to do is to outline a process that tries to strike a balance between two elements: first of all, a consultation with practitioners, with interest groups, with stakeholders, and, secondly, effective parliamentary scrutiny in this place. What we have sought to do in that section is to outline that the code needs to have, if you like, the fullest possible examination, both by Assembly Members here, but also by those people who will implement it and who will be delivering that code, as well, in practice. So, we’re trying to strike a balance between that level of public consultation, if you like, and effective parliamentary scrutiny. Now, I’ve given additional undertakings to the Children and Young People’s Committee that we will ensure that they have an opportunity to scrutinise the Bill as well. I recognise that isn’t covered in section 5 at present, but we are open to ensuring that the code does have the widest possible and most vigorous scrutiny available to us, and we’re happy to continue to work with the National Assembly to ensure that happens. (...)

As I’ve said, I’m content for the code to be subject to the most rigorous scrutiny that is required by the National Assembly. The old special educational needs code was delivered using different legislation at a different time, and was done in a different way, but I recognise that that’s no argument for doing things differently today. I would be content for the National Assembly, were it to be so minded, to determine a different process of scrutiny if that is what the National Assembly wishes to do. What we’re doing in section 5 is outlining what we believe is at the moment the most appropriate means of enacting this secondary legislation. But, clearly, if this committee believes it requires more vigorous scrutiny, then I’m happy to take those considerations on board.”¹³⁷

371. Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, pan ofynnwyd iddo a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon gwneud y Cod ADY o dan y weithdrefn gadarnhaol neu’r weithdrefn uwchgadarnhaol,¹³⁸ atebodd y Gweinidog:

“I think, considering what I’ve just said, it would be difficult for me to answer in anything except the affirmative.”¹³⁹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

372. Mae’r Pwyllgor yn poeni y bydd y Cod ADY, fel y’i disgrifir ar hyn o bryd yn y Bil, yn cael ei wneud drwy ddefnyddio’r weithdrefn negyddol. Y Cod fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rhai sy’n gyfrifol am gyflwyno’r system newydd, ac mae’r Pwyllgor yn credu y dylai’r Cod fod yn destun craffu ar y lefel uchaf bosibl cyn i’r Cynlluniad ei wneud.

373. Roedd y Pwyllgor yn falch bod fersiwn ddrafft o’r Cod wedi’i ddarparu yn ystod Cyfnod 1 er mwyn helpu i lywio’r gwaith craffu ar y Bil, ond roedd yn siomedig bod hyn yn cael ei ddarparu mor

¹³⁷ Tystiolaeth Lafar, Cyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, **27 Chwefror 2017**

¹³⁸ Mae cyfran fach iawn o is-ddeddfwriaeth yn dod o dan weithdrefnau penodol a bennir yn y ddeddf alluogi. Mae’r gweithdrefnau hyn yn cynnwys gweithdrefnau cadarnhaol cryfach (a elwir weithiau’n weithdrefnau uwch-gadarnhaol)

¹³⁹ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

hwyr yn y broses graffu. Mae'n bwysig nodi na chraffwyd ar y Cod ei hun yn ystod Cyfnod 1, gan fod y Gweinidog wedi'i ddarparu at ddibenion enghreifftiol yn unig.

374. Er mwyn sicrhau'r lefel uchaf o graffu, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod ddod o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'n fawr y cyfle i ystyried drafft terfynol y Cod cyn unrhyw ymgynghori statudol o dan y Bil.

375. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith y mae Pwyllgor Materio Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad wedi'i wneud. Maen hanfodol bod yr elfennau deddfwriaethol hyn yn destun craffu penodol a phwrpasol, ac mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog ystyried argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn llawn.

Argymhelliad 44. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod y Cod ADY yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Rhaid defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol hefyd wrth wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Cod.

Argymhelliad 45. Dylid rhoi copi i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o ddrafft terfynol y Cod er mwyn iddo'i ystyried cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad statudol sy'n ofynnol o dan y Bil.

Argymhelliad 46. Dylai'r Gweinidog ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn llawn.

18. Anghenion Meddygol mewn Ysgolion

376. Clywodd y Pwyllgor lawer o geisiadau'n ymwneud â'r dyletswyddau i ysgolion reoli anghenion meddygol disgyblion ac i hyn gael ei gynnwys o bosibl yn y Bil ADY. Daeth llawer o'r galwadau hyn cyn dyddiad cyflwyno'r Bil, gan gynnwys set gydlynol o gyflwyniadau i ymgynghoriad y Pwyllgor yn ystod haf 2016 ynglŷn â blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad.

377. Gan nad oedd mater penodol 'anghenion meddygol mewn ysgolion' yn rhan benodol o'r Bil adeg ei gyflwyno, ni chafodd y mater ei gynnwys yn benodol yn ymgynghoriad y Pwyllgor ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sylweddol wedi'i chyflwyno ynglŷn â'r mater hwn.

Y cefndir

378. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol yn 2010: Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai pwrpas hyn yn bennaf oedd rhoi cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol.

379. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft newydd, ac roedd y canllawiau hyn i fod i ddisodli fersiwn 2010. Roedd y ddogfen ymgynghori a oedd gyda'r canllawiau'n dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu i rywfaint o'r canllawiau fod yn statudol.

380. Ar 30 Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau terfynol, 'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd'. Darparwyd drafft cynnar o'r canllawiau gyfer y Pwyllgor ar Fawrth 21 cyn i'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor y bore canlynol. Mae'r ddogfen gyfan yn cael ei chyhoeddi fel canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, a oedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i wneud trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys eu hanghenion gofal iechyd.

381. Nid yw'r diffiniadau yn y Bil yn cwmpasu'n benodol anghenion meddygol y rheini sydd â chyflyrau fel diabetes, ac eithrio yn y ffordd y maent yn effeithio ar eu gallu i ddysgu, yn unol â'r diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Bil. Mae Pennod 6 y Cod drafft yn darparu canllawiau i gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut mae ADY yn cael ei diffinio a sut i ystyried anghenion gofal iechyd wrth gynnal asesiadau.

382. Mae'r Cod drafft yn dweud na fydd gan bob dysgwr sydd ag angen meddygol neu ofal iechyd ADY ac mae'n cyfeirio at 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG', sy'n becyn gofal a ddarperir gan y GIG ar gyfer yr unigolion hynny sydd ag anghenion cymhleth ac anghenion sy'n bennaf seiliedig ar iechyd. O dan y diffiniad o ADY yn y Bil, ni fydd cyflyrau meddygol, er enghraifft diabetes, epilepsi, neu anaffylaxis yn cael eu hystyried yn ADY os nad ydynt yn achosi anhawster dysgu llawer mwy sylweddol, neu os nad oes gan rywun anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag manteisio ar yr addysg neu'r hyfforddiant a gynigir yn gyffredinol.

383. Fodd bynnag, mae'r Cod drafft yn cydnabod y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu disgyblion i ddysgu ac y dylai hyn fod yn ffactor i'w ystyried wrth benderfynu a oes gan ddysgwr ADY:

“Mewn rhai achosion, gall anghenion gofal iechyd/cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau'r plentyn neu'r person ifanc a'r ffordd y mae'n gweithredu mewn ysgol neu leoliad addysg bellach. Gall yr effaith fod yn un uniongyrchol yn yr ystyr y gall gofal iechyd/cyflwr meddygol effeithio ar alluoedd gwybyddol y

plentyn neu'r person ifanc, ei alluoedd corfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Hefyd, gall yr effaith fod yn un anuniongyrchol, er enghraifft drwy amharu ar allu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn addysg yn sgil effeithiau annymunol triniaeth neu drwy'r effeithiau seicolegol y gall salwch difrifol neu gronig neu anabled eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu.”¹⁴⁰

384. Mae'r Cod drafft yn dweud os bydd gan ddysgwr ADY ac angen gofal iechyd y gellir cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y ddau mewn ffordd gydgysylltiedig:

“Mae ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn gallu llunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd â'u bod nhw, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall yn ymwneud â'r unigolyn. Hefyd, gall yr awdurdod lleol gynnwys y cynllun hwnnw yn y CDU. Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod modd cynllunio a chyflwyno darpariaeth mewn ffordd gydgysylltiedig ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â chynllun gofal iechyd unigol neu gynllun gofal iechyd parhaus a CDU: dylid adolygu'r CDU a'r gofal iechyd unigol neu'r pecyn gofal iechyd parhaus ar yr un pryd, gan integreiddio cynlluniau a/neu ddarpariaeth lle bo hynny'n briodol.”¹⁴¹

385. Nid yw'r Cod drafft yn darparu ar gyfer cymorth gydag anghenion gofal iechyd lle nad oes unrhyw bryderon bod gan ddysgwr ADY. Ymdrinnir â hyn drwy gyfrwng y canllawiau Cefnogi anghenion gofal iechyd mewn ysgolion.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

386. Fel yr amlygwyd eisoes, clywodd y Pwyllgor set gydlynol o gyflwyniadau yn ystod ei ymgynghori yn haf 2016 am flaenoriaethau'r Pumed Cynulliad a'r rheini'n galw am roi dyletswyddau statudol i ysgolion reoli anghenion meddygol y disgyblion, ac i hyn gael ei gynnwys o bosibl yn y Bil ADY. Soniodd llawer o dystion hefyd am y mater hwn pan fu'r Pwyllgor yn ymgynghori ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil.

387. Cafwyd cais cryf gan rhanddeiliaid, o dan arweiniad Diabetes UK a'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, ar i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys anghenion meddygol. Fodd bynnag, nid oedd bob tro'n gwbl glir sut yr oeddent am i hyn gael ei gyflawni, h.y.:

- a oeddent am i'r Bil gynnwys adran sy'n rhoi'r canllawiau ar wahân ynglŷn â Chfnogi anghenion gofal iechyd mewn ysgolion ar sail statudol (nid oes angen hyn erbyn hyn am fod lywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi'r canllawiau ar sail statudol); ynteu
- a oeddent am weld ehangu'r diffiniad o ADY ehangu i gynnwys anghenion meddygol yn benodol, ni waeth a ydynt yn effeithio ar ddysgu (os ydynt yn achosi anhawster sylweddol fwy o ran dysgu, byddent eisoes yn cael eu cynnwys o dan y diffiniad presennol yn y Bil).

388. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Diabetes UK y byddai'r ail opsiwn yn nes at yr hyn y mae'n galw amdano. Nid yw'n yn credu y byddai cyflyrau meddygol hirdymor fel diabetes o reidrwydd yn disgyn y tu allan i adrannau 2 a 3 ond mae'n teimlo ei bod yn rhy agored i'w ddehongli ac nad yw'n ddigon clir. Mae Diabetes UK yn credu bod rhoi'r peth ar glawr yn glir ar y cychwyn yn dileu'r holl ansicrwydd.

¹⁴⁰ Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

¹⁴¹ Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

389. Roedd yr Ymgyrch Anaffylacsis yn dweud bod cyflwyno dyletswydd statudol yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol gan ei fod yn galluogi'r sefydliad i gyfeirio rhieni a theuluoedd at y llwybr cywir - y ffordd y bwriedir i bethau fod.

390. Dywedodd Dr Justin Warner, pediatregydd a diabetolegydd o Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant y byddai'n gwbl briodol ehangu'r diffiniad o ADY i gynnwys cyflyrau meddygol.

391. Rhai o'r pwyntiau eraill a wnaeth Diabetes UK a sefydliadau eraill i gefnogi eu dadleuon oedd:

- Mae'r fframwaith AAA a'r mecanweithiau cyllido presennol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gefnogi anghenion meddygol er na fyddent yn cael eu hystyried yn AAA/ADY mewn gwirionedd. (Cadarnhawyd hyn gan Gyfarwyddwr Addysg Sir Gâr, yn cynrychioli CCAC) Bydd disodli'r fframwaith AAA presennol â system newydd sy'n seiliedig ar ADY mewn gwirionedd yn gwneud y sefyllfa'n waeth oherwydd efallai na fydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r llwybrau ariannu sydd ar gael eisoes.
- Mae'r canllawiau presennol yn annigonol. Nid yw ysgolion yn cadw atynt ac mae angen dyletswyddau statudol.
- Mae cymorth i ddisgyblion ar gyfer eu hanghenion penodol (boed y rheini'n addysgol ynteu'n feddygol) yn cael ei ddarparu gan yr un systemau, prosesau, asiantaethau, llifau ariannu a rolau staff. Bydd newidiadau systemig i unrhyw ran yn effeithio ar bawb sy'n cael budd o'r system honno, nid dim ond ar rai ohonynt. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y diwygiadau i ADY. Mae'r ymgyrchwyr yn credu y bydd y manteision a ddaw yn sgil y Bil ADY yn dod â'r union beth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau meddygol.
- Mae'r diffyg cyfeiriad penodol at anghenion meddygol yn y Bil yn anfon neges at blant, teuluoedd, ysgolion ac awdurdodau lleol bod plant sydd ag anghenion meddygol yn llai pwysig. Mae perygl i'r grŵp hwn golli eu blaenoriaeth.
- Ar hyn o bryd, mae'r gofal sydd ar gael i blant drwy Gymru'n amrywio o fan i fan. Mae plant sydd ag anghenion meddygol yn debygol o gael eu heithrio o weithgareddau ysgol gyfan ac mae angen i rieni ddod i'r ysgol yn ystod y diwrnod i reoli cyflyrau eu plant (rhoi inswlin ac ati).
- Dylai Cymru ddysgu'r gwersi a ddysgwyd yn Lloegr sydd wedi gweld pethau'n gwella ar ôl cyflwyno dyletswydd statudol.

392. Gofynnodd y Pwyllgor i Diabetes UK a fyddai'n fodlon pe bai'r Cod yn cael ei gryfhau mewn perthynas ag anghenion meddygol ynteu a oedd yn meddwl bod angen rhoi sylw i'r mater ar wyneb y Bil. Ateb Diabetes UK oedd:

“I think it's important for clarification. So, I certainly would expect the Code to be updated quite significantly to be a lot clearer and a lot more definite. And, in terms of the face of the Bill, I think there is scope to clarify where a medical condition does impact on learning or there's a barrier to education in some form—that should be clear as well. (...)

So, I think anything that can be as clear as possible. Being on the face of the Bill gives it that authority, and you just—that is exactly what we would call for. So, I would definitely say to err on the side of as much clarity as possible.”¹⁴²

Ymateb y Gweinidog

393. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog:

“The medical needs, where they impact on a child’s learning—that is the key test, because this is an education Bill about additional learning needs. So, what I am saying is, what I don’t want a definition to do is to introduce complexity, to remove flexibility, but also to narrow the definition down. The conversation that I’m having with you this morning is all based on learning and learning needs. It’s not simply saying, ‘You have an additional learning need’. If you have a long-standing medical condition or a short-lived medical condition that has no impact on your everyday learning, then, clearly, that wouldn’t be encompassed within this piece of legislation. This is about additional learning needs and how we define that.”¹⁴³

394. O ran bod angen y canllawiau Cefnogi anghenion gofal iechyd mewn ysgolion a sut mae’r rhain ar wahân i ADY a’r Bil, dywedodd:

“There’s clearly a need for guidance. Take, for example, a child in a school, perhaps in my constituency, or perhaps in yours, who has a peanut allergy. Now, there needs to be a plan in place to deal with that. That doesn’t mean that child has additional learning needs: it means they have a particular healthcare need, but, obviously, it needs to be dealt with. Or a child—you’ve given diabetes as an example, and we can accept that as another example—. It doesn’t mean that they’ve got an additional learning need, but it does mean that they’ve got a medical requirement that needs to be supported, and a plan needs to be in place to deal with that within the school environment.”¹⁴⁴

395. Pan holwyd ef ymhellach am sut mae’r Bil yn berthnasol i anghenion meddygol, atebodd y Gweinidog:

“My intention is that we have a Bill with a definition of additional learning needs that is broad, that encompasses a wide range of potential issues that might lead to additional learning needs. It doesn’t refer specifically to healthcare needs that do not lead to additional learning needs.”¹⁴⁵

396. Ynglŷn ag arwyddocâd gwneud y canllawiau anghenion gofal iechyd yn statudol, dywedodd:

“But I recognise that there are concerns—and you raised these concerns with me at our last meeting—that the current regime for providing guidance for healthcare needs was not sufficiently robust. The committee seemed to me to

¹⁴² Tystiolaeth Lafar, Diabetes UK, **16 Mawrth 2017**

¹⁴³ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹⁴⁴ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹⁴⁵ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

be in agreement that this guidance shouldn't be in the form of advice, but it should be in the form of statutory guidance. So I've taken that on board and will be publishing it next week.”¹⁴⁶

397. Dywedodd y Gweinidog nad oedd angen i'r Bil ADY ymgorffori'r canllawiau anghenion gofal iechyd gan fod y ddwy drefn yn bodoli ar wahân a bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud y canllawiau'n statudol drwy ddefnyddio pŵer o adran 175 o Ddeddf Addysg 2002:

“The issues around healthcare are dealt with by one piece of guidance and statutory guidance, and advice on additional learning needs by a different piece. People understand and appreciate that. (...)

The requirement of a power to provide these guidelines already exists in law. It's already a part of the statute book. If you're asking us to put it back on the statute book again, then, clearly, I could consider that. But I would ask you to consider something as well: it is, I would argue, poor legislative practice to make repeated provisions in different pieces of legislation.”¹⁴⁷

398. I grynhoi, safbwynt y Gweinidog a eglurwyd i'r Pwyllgor oedd:

- Dim ond pan fydd anghenion gofal iechyd yn effeithio ar ddysgu i'r graddau eu bod yn creu ADY y byddant yn dod o fewn cwrpas y Bil; ac
- Mae'r canllawiau statudol ynglŷn â chefnogi anghenion gofal iechyd mewn ysgolion ar wahân i'r Bil ADY, gan y bydd yn delio â'r holl anghenion gofal iechyd ac nad yw'r ddeddfwriaeth ond yn berthnasol iddynt yng nghyd-destun eu heffaith ar ADY.

399. Serch hynny, agorodd y Gweinidog y posibilrwydd wedyn o ddiwygio'r Bil petai rhanddeiliaid a/neu'r Pwyllgor yn teimlo nad oedd y canllawiau statudol ar gefnogi anghenion gofal iechyd mewn ysgolion yn ddigonol. Dywedodd:

“We're enabling people to take time to look at this guidance at a time when we can amend this Bill if we believe that there is that conflict there, and we can make changes, and we can make changes at Stage 3 in September, when we've had an opportunity to allow these things to bed down a bit.(...)

We recognise that by [publishing the guidance] now, at this point, as we're coming to the conclusion of Stage 1 scrutiny of this Bill, we will then have an opportunity, through the summer term, to consider this in more detail and whether we wish to make amendments at Stage 2 in the summer or Stage 3 in the autumn. We will have the opportunity to do so. ... I say very, very clearly that I'm very open to further amendments to this Bill if we believe that they are required.”¹⁴⁸

Ymgynghori ynglŷn â'r canllawiau newydd ar anghenion gofal iechyd

400. Yn dilyn cyhoeddi 'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd', cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad wedi'i dargedu i geisio barn rhanddeiliaid allweddol am sut y mae'r canllawiau newydd

¹⁴⁶ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹⁴⁷ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

¹⁴⁸ Tystiolaeth Lafar, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **22 Mawrth 2017**

yn effeithio ar y Bil a sut maent yn effeithio ar y ceisiadau am gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer anghenion meddygol ynddo.

401. Cafwyd tri ymateb:

- Ymateb ar y cyd gan 12 o sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol. Arweiniwyd yr ymateb hwn gan Diabetes UK.
- Ymateb unigol gan Corinna Bretland, Nyrs-Addysgwr Arbenigol Diabetes mewn Ysgolion, sydd hefyd wedi llofnodi'r ymateb ar y cyd y cyfeirir ato uchod.
- Ymateb gan Gomisiynydd Plant Cymru

402. Roedd yr ymateb ar y cyd o dan arweiniad Diabetes UK yn cadarnhau eu safbwynt bod angen diwygio'r Bil a'r Cod i gynnwys cyflyrau meddygol yn benodol. Yn unol â'u tystiolaeth ysgrifenedig a llafar blaenorol a dilynol, roedd yn ymddangos eu bod am gynnwys anghenion meddygol yn y fframwaith ADY, ni waeth a oes gan y dysgwyr anhawster dysgu sylweddol fwy na'r mwyafrif neu beidio nac a oes ganddynt anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag manteisio ar addysg neu hyfforddiant.

403. Roedd yn ymddangos bod safbwynt yr ymgyrch felly wedi newid o alw i ddechrau am ddyletswyddau statudol i ysgolion reoli cyflyrau meddygol a beirniadaeth ynghylch y ffaith nad oedd y canllawiau'n statudol, i ddadlau bod yn rhaid cwmpasu anghenion meddygol yn awtomatig o fewn y fframwaith ADY. Dywedodd Corinna Bretland yn ei chyflwyniad ei bod yn teimlo mai'r Bil ADY yw'r unig lwybr sydd ar gael i sicrhau bod modd amddiffyn hawliau pobl sydd ag anghenion meddygol drwy'r gyfraith.

404. Mae Diabetes UK et al. yn dadlau nad yw cyhoeddi'r canllawiau statudol yn golygu nad oes angen diwygio'r Bil a'r Cod ADY. Yn hytrach mae'n dwysáu ac yn prysuro'r angen hwnnw.

405. Dadl arall a gyflwynwyd gan Diabetes UK et al oedd eu bod yn credu nad yw'r canllawiau statudol ond yn gorfodi dyletswyddau gwirfoddol. Mae hyn yn cyfeirio at y ffaith na fydd athrawon a staff cymorth yn gorfod cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo i weinyddu meddyginiaethau neu oruchwyllo hynny. Mae Adran 2.2.d o'r canllawiau yn dweud bod y rôl hon yn gwbl wirfoddol. Y rheswm yw y byddai gwneud hyn yn rhan orfodol o swydd athro'n golygu y byddai angen newid eu cyflog a'u hamodau. Er bod Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ym maes cyflogau ac amodau athrawon, ni ddisgwylir i hyn gael ei roi ar waith tan tua mis Ebrill 2018. Nid yw natur wirfoddol dyletswyddau athrawon a staff cymorth unigol mewn ysgolion yn rhywbeth y gall y Bil ei newid.

406. Serch hynny, mae'r canllawiau statudol yn gorfodi cyfrifoldebau statudol ar yr ysgol gyfan. Felly, bydd yn rhaid i'r ysgolion gyflawni eu dyletswyddau o hyd i reoli anghenion gofal iechyd y disgyblion o dan y canllawiau, naill ai drwy weithredoedd gwirfoddol staff o ran cynorthwyo i weinyddu meddyginiaethau neu oruchwyllo hynny, neu drwy ryw ddull arall. Gellid dadlau felly nad yw pwynt y rhanddeiliaid ynglŷn â dyletswyddau gwirfoddol yn berthnasol wrth ystyried y Bil hwn.

407. Nododd y Comisiynydd Plant Fod y canllawiau Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eisoes wedi'i roi ar sail statudol i gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol, gan gyfeirio at y dyletswyddau ategol yn adrannau 18 a 19 o'r Bil i adnabod a sicrhau darpariaeth ADY sy'n gysylltiedig ag iechyd. Ysgrifennodd y Comisiynydd:

“It is my initial assessment that [the] Welsh Government’s published Supporting learners with healthcare needs guidance has made some progress ... and may be sufficient to meet the healthcare needs of learners in Wales.

Whilst I acknowledge the rationale to include a blanket provision on learners’ healthcare needs in the Bill, it is important to recognise that a child’s healthcare needs should not automatically be regarded as an additional learning need. This would be dependent on the individual context and is matter of proportionality and assessment.”¹⁴⁹

408. Roedd pob un o’r tri ymateb yn amheus iawn a fyddai’n ymarferol adolygu’r canllawiau mewn pryd ar gyfer newid y Bil mewn unrhyw fodd. Felly, mae’n amheus iawn a allai hyn lywio unrhyw ddiwygiadau i’r Bil yn ystod Cyfnodau 2 a 3, fel yr oedd y Gweinidog yn awgrymu i bob golwg. Petai diwygiadau o’r fath yn cael eu gwneud, byddai’r rhain yn seiliedig ar ganfyddiadau pobl bod y canllawiau statudol yn annigonol yn hytrach nag ar y profiad o sut maent wedi gweithio’n ymarferol.

Ymateb pellach gan y Gweinidog

409. Cadarnhaodd y Gweinidog ei safbwynt at gwmpas y system a sefydlir gan y Bil. Sef, os bydd dysgwr ag anghenion meddygol yn dod o dan y fframwaith newydd, y byddant yn dod o dan y diffiniadau yn adrannau 2 a 3 o’r Bil, h.y. os oes ganddynt anhawster dysgu sy’n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Dywed y Gweinidog, drwy gadw’r un diffiniad / cwmpas ag sydd yn y fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol, y bydd nifer tebyg o ddysgwyr yn dod o dan y Bil. Eglurodd

“If a child or young person has an additional learning need, including where that is caused by a medical condition, they will be covered by the system introduced by the Bill. But not all healthcare needs will involve additional learning needs.”¹⁵⁰

410. Cyfeiriodd y Gweinidog at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2012, a oedd yn cynnig diffiniad ehangach o Anghenion Ychwanegol, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion gofal iechyd. Dywedodd:

“A high level of concern was expressed that using a wide definition might dilute the benefits to those learners who most needed support. Feedback was that there was a risk that, in some instances, the majority of a class could fall within this definition. Also, significantly increasing the number of learners brought into scope would inevitably have resulted in a significantly increased workload for delivery partners, with a very broad group of learners entitled to IDPs, which would have made implementation of the changes much more challenging.”¹⁵¹

411. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y farn gref hon ac wedi mireinio’i chynigion cyn cyhoeddi’r Papur Gwyn yn 2014. Dywedodd fod rhanddeiliaid yn croesawu’r

¹⁴⁹ **Ymateb Comisiynydd Plant Cymru** ynglŷn â'r Canllawiau Gofal Iechyd

¹⁵⁰ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **11 Ebrill 2017**

¹⁵¹ Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **11 Ebrill 2017**

ffordd hon o fynd ati, sy'n cynnig mwy o ffocws ar y dysgwyr hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf drwy'r system newydd.

412. Bydd 105,000 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (23%), yn ogystal â'r rheini yn y blynyddoedd cynnar ac addysg bellach yn y sector ôl-16, yn cael eu cynnwys o dan y system ADY newydd. Clywodd y Pwyllgor am bryderon ynghylch ymarferoldeb darparu CDU statudol i bob un o'r dysgwyr hyn a dywedodd y Gweinidog fod angen bod yn "realistig":

"We have to be ambitious, and we are, but the reforms will only have a real benefit if delivery is feasible and realistic. We also have to draw clear lines on what falls within the scope of the system and what does not. Extending the definition to cover healthcare needs/medical conditions, for example, would significantly increase the number of learners entitled to a statutory plan and the rights attached to that. It would potentially mean conditions such as peanut allergies, asthma or migraines fell within scope and carried rights of appeal to the Education Tribunal. It would also extend the provision set out in the plan – it would no longer be confined to educational or training provision, but also include healthcare provision which did not educate or train. In short, determining additional learning provision for children and young people with additional learning needs is fundamentally different in nature to supporting learners with healthcare needs.

Such an extension of the system would not be appropriate or proportionate in my view."¹⁵²

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

413. Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, nid oedd mater penodol anghenion meddygol mewn ysgolion yn rhan benodol o'r Bil adeg ei gyflwyno. Felly, ni chafodd y mater ei gynnwys yn benodol wrth i'r Pwyllgor ymgynghori ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sylweddol wedi'i chyflwyno yn ei gylch, ac mae'r Pwyllgor wedi ystyried y mater pwysig hwn yn fanwl.

414. Hoffai'r Pwyllgor ddweud ar y dechrau ei fod yn credu ei bod yn hynod bwysig bod anghenion meddygol disgyblion mewn ysgolion yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod canllawiau manwl a chadarn ar waith i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Pwyllgor yn falch, felly, fod y Gweinidog wedi cyhoeddi'r 'Canllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd' canllawiau ar sail statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn siomedig bod y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog wedi dod mor hwyr yn ystod proses cyfnod 1, a hynny ond diwrnod cyn yr oedd y Gweinidog i fod gerbron y Pwyllgor. Arweiniodd hyn at oedi yn ystod proses cyfnod 1.

415. Ym marn y Pwyllgor, roedd cyhoeddi'r canllawiau o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, yn ymateb i'r galw a gafwyd yn ystod yr ymgynghori ynglŷn â'r Bil, a'r ymgynghori cynharch am flaenoriaethau'r Pwyllgor, i osod y canllawiau ar sail statudol.

416. Wrth ystyried goblygiadau ehangach y canllawiau gofal iechyd, mae'r Pwyllgor yn credu y bydd angen tipyn o amser i ystyried eu heffaith yn llawn. Bydd y Pwyllgor yn monitro sut mae'r canllawiau wedi gweithio o safbwynt ymarferol dros y 12-18 mis nesaf. Fodd bynnag, un mater y dylid ei ystyried

¹⁵² Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, **11 Ebrill 2017**

ar y dechrau yw'r cysylltiad rhwng rhoi'r system newydd ar waith ar gyfer ADY a fydd yn cynnwys dysgwyr 0-25 oed; a'r Canllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sy'n cynnwys dysgwyr hyd at 18 oed. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog ystyried cysoni'r ddwy system ac estyn yr ystod oedran y dysgwyr sy'n dod o dan y canllawiau gofal iechyd.

Ymgynghoriad ychwanegol

417. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ychwanegol ynglŷn â'r Canllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ac mae'n nodi'r galw parhaus am ddiwygio'r Bil i gynnwys cyflyrau meddygol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn glir, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog, os bydd gan rywun gyflwr meddygol sydd:

- (a) yn golygu bod ganddynt anhawster dysgu sylweddol fwy na'r mwyafrif o ddysgwyr eraill sydd o'r un oedran, neu
- (b) yn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n atal neu'n llesteirio'r disgybl rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

bod y person hwnnw eisoes yn dod o fewn y diffiniad o ADY fel y'i nodir yn adran 2 o'r Bil.

418. Mae'r Pwyllgor hefyd yn glir nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â chyflyrau meddygol nad ydynt yn anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant, neu nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ddysgu. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r canllawiau statudol newydd i reoli cyflyrau meddygol y rheini sydd o oedran ysgol statudol.

419. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pennod 6 o'r Cod ADY drafft yn darparu canllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch y diffiniad o ADY a sut i ystyried anghenion gofal iechyd wrth gynnal asesiadau. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid cryfhau'r Cod er mwyn ychwanegu eglurder ynghylch pa bryd y bydd anghenion meddygol yn dod o dan y diffiniad o ADY, ac am weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn hyn o beth.

420. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn credu y gellid diwygio'r diffiniad sydd yn adran 2 o'r Bil i ychwanegu eglurder ar wyneb y Bil ynghylch y ffaith y byddai gan rywun angen ychwanegol petai ganddynt gyflyrau meddygol sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i bobl eraill o'r un oed, neu'n achosi iddynt gael llawer mwy o anhawster dysgu nag sydd gan rhan fwyaf o bobl eraill o'r un oedran a bod anhawster neu anabledd dysgu o'r fath yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhelliad penodol ynglŷn â hyn yn adran 4: Diffinio ADY – gweler Argymhelliad 4

Argymhelliad 47. Dylai'r Gweinidog ystyried cysoni'r Canllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd â'r system ADY newydd, drwy ymestyn ystod oedran y dysgwyr sy'n dod o dan y canllawiau hynny.

Argymhelliad 48. Dylid cryfhau'r Cod ADY er mwyn ychwanegu eglurder ynghylch pa bryd y bydd anghenion meddygol yn dod o dan y diffiniad o ADY, a dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid yn hyn o beth.

Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad	Cyfeirnod
Rhiant	ALN 01
Cyngor Sir y Fflint (Tîm Pontio'r Gwasanaethau Cymdeithasol)	ALN 02
The Politics Group Cardiff Ely	ALN 03
The National Association of Independent Schools and Non-Maintained Special Schools (NASS)	ALN 04
Cyngor y Gweithlu Addysg	ALN 05
Gyrfa Cymru	ALN 06
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru	ALN 07
Unigolyn	ALN 08
Cyngor Bro Morgannwg - Swyddfa'r Cyfarwyddwr – Dysgu a Sgiliau	ALN 09
British Academy of Childhood Disability	ALN 10
Unigolyn	ALN 11
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	ALN 12
Comisiynydd y Gymraeg	ALN 13
Estyn	ALN 14
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	ALN 15
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	ALN 16
Sense Cymru	ALN 17
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	ALN 18
National Service Advisory Group (NSAG)	ALN 19
Comisiynydd Plant Cymru	ALN 20
Llywodraethwyr Cymru	ALN 21
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	ALN 22
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	ALN 23
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig	ALN 24
Coeliac UK	ALN 25
Barnardo's Cymru	ALN 26
Anaphylaxis Campaign	ALN 27
PACEY Cymru	ALN 28
National Deaf Children's Society (NDCS) Cymru	ALN 29
Ymateb ar y cyd gan: Action on Hearing Loss Cymru, Hearing Link, ASLI, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar a NDCS Cymru.	ALN 30

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant	ALN 31
Ymateb gan yr Undebau ar y cyd ATL, NAHT, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru & UCU	ALN 32
ASCL Cymru	ALN 33
Colegau Cymru	ALN 34
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	ALN 35
National Association of Specialist Provision (Natspec) yng Nghymru	ALN 36
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru	ALN 37
Unigolyn	ALN 38
NASUWT	ALN 39
Diabetes UK Cymru	ALN 40
Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru (a Grŵp Aberhonddu)	ALN 41
Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg	ALN 42
Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth	ALN 43
Epilepsy Action	ALN 44
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)	ALN 45
Coleg Brenhinol y Therapuddion Lleferydd ac Iaith	ALN 46
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	ALN 47
Young Epilepsy	ALN 48
Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU Cymru)	ALN 49
Cymdeithas Ddeieteg Prydain	ALN 50
Llamau	ALN 51
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	ALN 52
Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru	ALN 53
Mudiad Meithrin	ALN 54
Anabledd Dysgu Cymru	ALN 55
Rhondda Cynon Taf - Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant	ALN 56
Coleg y Therapuddion Galwedigaethol	ALN 57
Gwasanaethau Addysg a Seicoleg Plant Sir Caerfyrddin	ALN 58
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	ALN 59
Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) Cymru	ALN 60
Confederasiwn GIG Cymru	ALN 61
Cymdeithas Genedlaethol Seicolegwyr Addysgol Cymru (NAPEPW)	ALN 62
Afasic Cymru	ALN 63
Cŵn Tywys Cymru	ALN 64
RNIB Cymru	ALN 65

Unigolyn	ALN 66
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru	ALN 67
Rhiant (a anfonwyd gan SNAP)	ALN 68
Cydlynwyr AAA - cynradd Ceredigion (canol + de)	ALN 69
staff Tîm AAA Awdurdod Lleol Ceredigion	ALN 70
Cydlynwyr AAA - cynradd Ceredigion (Gogledd)	ALN 71
Cydlynwyr AAA Uwchradd ac athrawon SRC	ALN 72
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	ALN 73
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru	ALN 74
Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector	ALN 75
Plant yng Nghymru	ALN 76
Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)	ALN 77
SNAP Cymru	ALN 78

Atodiad B: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgriadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
12 Ionawr 2017	Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Tania Nicholson, Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol Mair Roberts, Cyfreithiwr Catherine Lloyd, Cyfreithiwr
18 Ionawr 2017	Denise Inger, SNAP Cymru Debbie Thomas, y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Tim Ruscoe, Barnardo's Cymru Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru Angie Contestabile, Anabledd Dysgu Cymru
26 Ionawr 2017	Cynhadledd i Randdeiliaid
9 Chwefror 2017	Digwyddiad gyda Rhieni
2 Mawrth 2017	Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Catherine Davies, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Gareth Morgans, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru Elizabeth Bowen-Dack, Comisiynydd Plant Cymru Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg Huw Gapper, Comisiynydd y Gymraeg Rhiannon Walker, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
8 Mawrth 2017	Mary van den Heuvel, ATL Cymru Lisa Edwards, UCU Cymru Elaine Edwards, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru Gareth Parry, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Rex Phillips, NASUWT Rob Williams, NAHT Tim Pratt, ASCL Cymru Jassa Scott, Estyn Huw Davies, Estyn

16 Mawrth 2017	<p>Iestyn Davies, Colegau Cymru Joe Baldwin, Coleg Penybont Humie Webbe, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) Eleri Griffiths, Mudiad Meithrin Claire Protheroe, Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar – PACEY Jane O’Kane, Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan Jayne Morris, Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan Andrea Wright, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru Sara Moran, Diabetes UK Dr Justin Warner, Aelod Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru ac ymgynghorydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru Mandy East, Anaphylaxis Campaign Ann Sivapatham, Epilepsy Action Dr Dave Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Rosemarie Whittle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro Ellis Peters, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Dr Alison Davies, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Lisa Turnbull, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Dr Karina Dancza, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol Sarah Lewis-Simms, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ac Aelod o Goleg y Therapyddion Galwedigaethol Kate Fallon, Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg Mary Greening, Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg Dr Alison Stroud, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd Pippa Cotterill, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd</p>
22 Mawrth 2017	<p>Denise Inger, SNAP Cymru Cath Lewis, Plant yng Nghymru Debbie Thomas, - Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Dr Stephen Beyer, Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymorth i Ddysgwyr Tania Nicholson, Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol Mair Roberts, Cyfreithiwr Catherine Lloyd, Cyfreithiwr</p>

Atodiad C: Amcanion Cyffredinol a Nodau Craidd y Bil

Amcanion Cyffredinol

Bydd y Bil yn creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach (AB);
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Deg Nod Craidd

1. Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Mae'r Bil yn defnyddio'r term newydd, sef ADY, yn lle'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Bydd hyn yn helpu i osgoi peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth y termau presennol a bydd yn nodi newid clir o ystyried y systemau presennol, nad ydynt yn addas i'r diben bellach. Mae defnyddio ADY fel term unigol sy'n cwmpasu pob dysgwr 0 i 25 oed yn adlewyrchu'r cam tuag at system decach i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau addysg bellach.

2. Ystod oedran 0 i 25: Mae'r Bil yn dwyn ynghyd y systemau deddfwriaethol presennol a gwahanol ar gyfer cefnogi:

- a) plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA;
- b) pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.

Bydd un system ddeddfwriaethol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag ADY. Bydd hyn yn gwella trosglwyddiad dysgwyr rhwng ysgolion a lleoliadau addysg ôl-16, gan sicrhau rhagor o gydraddoldeb o safbwynt cefnogaeth a hawliau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

3. Cynllun unedig: Mae'r Bil yn creu cynllun statudol unigol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) a fydd yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer AAA ac anableddau a/neu anawsterau dysgu i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach – gan gynnwys datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol ar gyfer dysgwyr a gefnogir gan Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, a chynlluniau dysgu a sgiliau a gynhelir drwy asesiadau o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a pharhad a bydd hefyd, yn wahanol i'r system bresennol, yn sicrhau bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw'r anghenion. Yn achos y rhan fwyaf o blant ag ADY sy'n derbyn gofal, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'w CDU gael ei ymgorffori yn y cynlluniau addysg personol a gaiff eu llunio ar gyfer y dysgwyr hyn fel rhan o'u cynlluniau gofal a chymorth. Bydd hyn yn golygu nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu ac yn sicrhau bod anghenion addysgol plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried mewn ffordd holistig.

4. Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy: Mae'n ofynnol o dan y Bil fod barn plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael ei hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'n gwbl allweddol fod plant a phobl ifanc yn teimlo bod y broses gynllunio yn broses sy'n eu cynnwys yn hytrach nag yn broses sy'n digwydd iddynt. Caiff gwybodaeth, cyngor ac eirioli clir a diduedd eu darparu iddyn nhw a'u teuluoedd, felly, fel y gallant gyfrannu. Mae'r Bil yn rhoi hawliau amrywiol i blant a phobl ifanc i dderbyn gwybodaeth mewn perthynas ag ADY ac am benderfyniadau a gymerir yn eu cylch, ac i gael gwneud eu penderfyniadau eu hunain mewn rhai amgylchiadau. Yn achos plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol i allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, caiff eu rhieni arfer yr hawliau hyn neu cânt ddefnyddio 'cyfaill achos' a benodir gan y Tribiwnlys Addysg.

5. Dyheadau uchel a gwell deilliannau: Dylai CDUau ganolbwyntio ar sicrhau darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gweladwy. Bydd hyn yn cyfrannu'n ystyrlon at allu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni hyd eithaf ei allu.

6. System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro: Bydd y broses o lunio ac adolygu CDU lawer yn symlach na'r sefyllfa bresennol o ran datganiadau AAA. Dylai osgoi'r modd y gall y dull presennol, sydd lawer yn rhy fiwrocraidd, achosi gwrthdaro.

7. Rhagor o gydweithredu: Bydd y system newydd yn cefnogi ein pwyslais cadarn ar gydweithredu. Bydd gan yr holl wasanaethau sy'n cynnwys elfen o gydweithio â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, swyddogaeth allweddol o safbwynt cydweithio i gynnig cymorth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer dysgwyr ag ADY. Er na fydd angen cymorth penodol ran iechyd ar y rhan fwyaf o blant ag ADY gan na fydd eu hanghenion ychwanegol yn gysylltiedig ag iechyd, os yw'n berthnasol ac yn briodol gellir cael cyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol. Yn benodol, bydd dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol (byrddau iechyd) neu Ymddiriedolaethau'r GIG i ystyried p'un a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o helpu gydag ADY y dysgwr ac, os felly, i sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu. Bydd angen cynnwys y driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw yn CDU y dysgwr. Bydd y diwygiadau'n annog asiantaethau i gydweithio rhagor a rhannu rhagor o wybodaeth â'i gilydd. Mae hyn yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu pennu'n gynnar a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Er mwyn hyrwyddo cydweithredu, mae'r Bil yn gosod dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO). Bydd y rhain yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella'r cydweithredu rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY ac o ran pa mor effeithiol yw'r cydweithredu hwnnw. Yn ogystal, bydd gofyn i ysgolion a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach gael Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig. Bydd y rolau hyn yn helpu i hwyluso cydweithredu aml-asiantaethol effeithiol, er mwyn gwella'r gwasanaethau i ddysgwyr.

8. Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach: Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn dylai'r system newydd ganolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf leol bosibl.

9. Hawliau clir a chyson i apelio: Os na all anghytundebau ynghylch cynnwys neu ddarpariaeth CDU gael eu datrys yn lleol, mae'r Bil yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU, neu'r rheini sydd o'r farn y dylai fod ganddynt CDU, (ynghyd â'u rhieni yn achos y rhai o dan 16 oed) yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, sef Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar hyn o bryd, ond a gaiff ei ailenwi gan y Bil. Mae'r Bil yn estyn yr hawl i apelio i bobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY ac

sydd mewn AB. Yn achos plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol i wneud eu penderfyniadau eu hunain, gallant arfer yr hawl i apelio drwy ddefnyddio 'cyfaill achos' a benodir gan y Tribiwnlys (yn ogystal â rhiant).

10. Cod gorfodol: Bydd y Bil yn ymateb i'r cais am God cryfach y mae modd ei orfodi a bydd yn cynnwys darpariaethau a gaiff eu cefnogi gan God ADY newydd a statudol. Bydd y Cod yn hwyluso cysondeb cenedlaethol drwy sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o'u mewn. Math o is-ddeddfwriaeth fydd hwn felly, a bydd yn rhoi dyletswyddau a hawliau i'r rhai a fydd yn ddarostyngedig iddo. Bydd y Cod hefyd yn amlinellu canllawiau ymarferol o ran sut y caiff y dyletswyddau statudol eu cyflawni. Byddwn yn darparu enghreifftiau o arferion gorau.

